# Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH** | | **THE EXECUTIVE** |
| **DYDD LLUN<br>29 HYDREF 2018<br>10.00 o'r gloch** | | **MONDAY<br>29 OCTOBER 2018<br>10.00 am** |
| **SIAMBR Y CYNGOR<br>SWYDDFEYDD Y CYNGOR<br>LLANGEFNI** | | **COUNCIL CHAMBER<br>COUNCIL OFFICES<br>LLANGEFNI** |
| Swyddog Pwyllgor | **Ann Holmes<br>01248 752518** | Committee Officer |

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/Party of Wales**

Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Robert G Parry, OBE, FRAgS, Robin Wyn Williams

**Annibynnol/Independent**

Richard Dew, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

**Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod**

## R H A G L E N

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**2** **MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDO**

Dim materion brys ar adeg anfon allan y rhaglen hon.

**3** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 12)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 17 Medi 2018.

**4** **COFNODION - PANEL RHIANT CORFFORAETHOL** (Tudalennau 13 - 18)

Cyflwyno er gwybodaeth, cofnodion drafft y Panel Rhiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 10 Medi 2018.

**5** **BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 19 - 32)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

**6** **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU - DIWEDDARU CYLCH GORCHWYL** (Tudalennau 33 - 48)

Cyflwyno adroddiad ar y cyd gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 a'r Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro.

**7** **NEWIDIADAU I'R CYFANSODDIAD - GWELLIANT I'R COD YMDDYGIAD I SWYDDOGION / ARWEINIAD LLEOL AR Y COD YMDDYGIAD I SWYDDOGION.** (Tudalennau 49 - 78)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro.

**8** **CYLLID AR GYFER GWAITH LLIFOGYDD YN LLANGEFNI** (Tudalennau 79 - 82)

Cyflwyno adroddiad gan Bennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo.

**9** **RHEOLI GWASTRAFF - PENODI RHEOLWR PROSIECT DROS DRO** (Tudalennau 83 - 100)

Cyflwyno adroddiad gan Bennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo.

**Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod**

**10** **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 101 - 102)

Ystyried mabwysiadu'r canlynol:-

"O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd fel y cyflwynwyd nhw."

**11** **MODERNEIDDIO YSGOLION YNYS MÔN - ACHOS STRATEGOL AMLINELLOL / ACHOS BUSNES AMLINELLOL - YSGOL GYNRADD NEWYDD YN LLE YSGOL BODFFORDD AC YSGOL CORN HIR**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Dysgu.

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Medi, 2018

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Llinos Medi Huws (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Ieuan Williams (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Richard Dew, Carwyn Jones, R. Meirion Jones, Alun Mummery, Dafydd Rhys Thomas, Robin Williams |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes) / Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro<br>Pennaeth Proffesiwn (AD a Thrawsnewid) (ar gyfer eitem 6)<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (ar gyfer eitem 4)<br>Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol (ar gyfer eitem 13)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd R.G.Parry, OBE, FRAgS |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Peter Rogers |

---

**1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

**2. MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG PENODEDIG**

Dim i'w adrodd.

**3. COFNODION**

Cyflwynwyd, i'w cadarnhau, gofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf, 2018 a'r cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf, 2018.

**Penderfynwyd cadarnhau cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf, 2018 a'r cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf, 2018 fel rhai cywir.**

**4. BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn ymgorffori Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod rhwng mis Hydref, 2018 a mis Mai, 2018 ar gyfer ei chymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith.



DRAFT

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd fod yr eitemau a ganlyn yn eitemau newydd ar Flaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith -

- Eitemau 5, 6, 7, 8 a 9 sydd wedi'u rhaglennu i'w hystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 29 Hydref, 2018.
- Eitem 11, yn amodol ar gael ei gadarnhau, wedi'i raglennu i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 17 Rhagfyr, 2018.
- Eitem 18 sydd wedi'i raglennu i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 17 Rhagfyr 2018.
- Eitemau 22, 23, 24, 25, 26, 27, 28 a 29 sy'n ymwneud â'r Gyllideb ac wedi'u rhaglennu i'w hystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 18 Chwefror, 2019.
- Eitemau 33 a 34 sydd wedi'u rhaglennu i'w hystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 25 Mawrth, 2019.

  Newidiadau eraill nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Rhaglen Waith a gyhoeddwyd -

- Adroddiad gan y Pennaeth Addysg ar yr Achos Busnes Strategol ar gyfer ymestyn Ysgol y Graig a chau Ysgol Talwrn sy'n eitem ychwanegol ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 26 Tachwedd, 2018.
- Cadarnhawyd y bydd cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Gwaith yn cael ei gynnal ar 15 Hydref, 2018 i drafod Trawsnewid Addysg a Strategaeth Foderneiddio Ysgolion Ynys Môn.

**Penderfynwyd cadarnhau'r Flaen Raglen Waith wedi ei diweddaru ar gyfer y cyfnod rhwng mis Hydref, 2018 a mis Mai, 2019 ynghyd â'r newidiadau a amlinellwyd yn y cyfarfod.**

**5. ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL – CHWARTER 1 2018/19**

Cyflwynwyd, er ystyriaeth gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol a Thrawsnewid) yn amlinellu sefyllfa'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol ar gyfer chwarter 1 blwyddyn ariannol 2018/19.

Adroddodd Deilydd Portffolio'r Gwasanaethau Corfforaethol y cytunwyd ar y dangosyddion ar gyfer eleni (yn debyg i'r drefn yn ystod y blynyddoedd diwethaf) mewn gweithdy a gynhaliwyd ar 2 Gorffennaf, 2018 gydag aelodau'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol yn dilyn derbyn arweiniad gan y Penaethiaid Gwasanaeth ynglŷn â'r dangosyddion yr oeddent hwy wedi eu nodi fel rhai pwysig. Maent yn cynnwys Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (MAC) newydd, sef set o ddangosyddion sy'n mesur perfformiad ar lefel cenedlaethol. Dywedodd yr Aelod Portffolio ei bod yn galonogol nodi ar ddiwedd Chwarter 1 fod y mwyafrif o'r dangosyddion rheoli perfformiad yn perfformio'n dda yn erbyn eu targed. Mae hyn hefyd yn cymharu'n dda â'r sefyllfa yn ystod yr un cyfnod yn 2017/18. Fodd bynnag, mae dau ddangosydd yn tanberfformio yn erbyn eu targed blynyddol ar ddechrau'r flwyddyn ac wedi eu dangos mewn Coch / Ambr, gydag un yn ymwneud â'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd (PM28 - yr amser ar gyfartaledd yr oedd yr holl blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn ystod y flwyddyn ac a ddad-gofrestrwyd yn ystod y flwyddyn) a'r llall yn ymwneud â'r Gwasanaethau Oedolion (PM20a - canran yr oedolion a oedd wedi cwblhau cyfnod o ail-alluogi ac a oedd yn derbyn pecyn gofal a chymorth ar lefel is 6 mis yn ddiweddarach). Mae'r ddau ddangosydd yn delio â nifer fach o achosion sy'n golygu y gall unrhyw amrywiaeth  effeithio ar berfformiad. Mae gweddill y dangosyddion ar gyfer chwarter 1 yn Wyrdd neu'n Felyn ac maent wedi cael dechrau da yn erbyn eu targedau. Yn ogystal, o'r 8 dangosydd a amlygwyd mewn Coch neu Ambr ar



DRAFT

ddiwedd 2017/18, da yw gweld fod 5 o'r 6 y gellir eu tracio yn ystod Chwarter 1 y flwyddyn bresennol wedi gwella a dim ond un ohonynt sy'n tanberfformio ar hyn o bryd.

Mewn perthynas â Rheoli Pobl, dywedodd y Deilydd Portffolio fod cyfraddau salwch y Cyngor ar ddiwedd chwarter 1, sef 2.69 o ddyddiau fesul ALIC, yn dangos dirywiad o gymharu â'r gyfradd o 2.23 diwrnod ar gyfer yr un cyfnod yn 2017/18. Ar lefel gwasanaeth, y ddau wasanaeth sy'n tanberfformio o gymharu â'u targedau ar gyfer y chwarter yw Gwasanaethau Oedolion, yn bennaf oherwydd achosion o salwch tymor hir yn yr Uned Ddarparu, a'r Gwasanaeth Dysgu lle mae absenoldeb salwch tymor hir yn ffactor unwaith eto ynghyd â lefel uchel o salwch yn y sector cynradd. Mae'r ddau Bennaeth Gwasanaeth yn ymwybodol o'r mater ac yn gweithio i gyflwyno mesurau lliniaru.

Mewn perthynas â rheoli Cwynion gan Gwsmeriaid, ar ddiwedd Chwarter 1 derbyniwyd 13 o gwynion o gymharu ag 20 yn ystod yr un cyfnod yn 2017/18. Mae'r gwasanaeth wedi gwella yn enwedig o nodi fod y cyfan o'r cwynion a oedd angen ymateb erbyn diwedd Chwarter 1 (cyfanswm o 12) wedi derbyn ymateb o fewn yr amserlen ofynnol. O'r 10 o gwynion o dan broses gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (1 Cam 2 a 9 Cam 1), ymatebwyd i 56% o fewn yr amserlen. Er na lwyddodd y Gwasanaethau Plant i anfon ymatebion ysgrifenedig o fewn yr amserlen ar gyfer 3 allan o 5 cwyn Cam 1, cynhaliwyd trafodaeth gyda'r achwynydd mewn 4 allan o'r 5 achos, neu 80% o gwynion. Bu i'r Pwyllgor Gwaith nodi bod nifer y cwynion yn erbyn y Gwasanaethau Plant yn ystod Chwarter 1 yn sylweddol is nag am yr un cyfnod blwyddyn yn ôl.

Dywedodd yr Aelod Portffolio, ar sail perfformiad ariannol y Cyngor ar ddiwedd Chwarter 1, y rhagwelir gorwariant o £1.744m erbyn diwedd y flwyddyn sydd yn debyg iawn i'r patrwm ar gyfer yr un cyfnod yn 2017/18 ac mae'r un gwasanaethau - y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a'r Gwasanaeth Dysgu - yn parhau i brofi pwysau cyllidebol. Ymdrinnir â'r sefyllfa ariannol mewn mwy o fanylder yn yr adroddiadau monitro ariannol sydd ar y rhaglen.

Gorffennodd y Deilydd Portffolio drwy ddweud ei fod yn dymuno manteisio ar y cyfle i ddiolch i holl staff y Cyngor am eu hymdrechion i gynnal a gwella perfformiad mewn cyfnod pan mae cyllidebau'r Cyngor dan straen sylweddol. Bydd parhau i weithio fel tîm yn cynorthwyo i wella dangosyddion perfformiad ymhellach yn Chwarter 2.

Mewn perthynas â lefelau absenoldeb salwch yn y sector cynradd, dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Addysg, Llyfrgelloedd, Ieuenctid a Diwylliant, fod y mater wedi cael ei nodi a bod y Gwasanaeth Dysgu ac Adnoddau Dynol ar y cyd wedi llunio cynllun gweithredu er mwyn lleihau'r lefelau hyn. Bydd y cynllun yn golygu targedu ysgolion penodol lle mae'r broblem yn fwy. Rhoddwyd llawer o bwyslais yn barod ar wella lefelau salwch yn y sector uwchradd ac mae hynny wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol. Dywedodd yr Aelod Portffolio fod gan Aelodau Etholedig gyfraniad i'w gwneud hefyd drwy gymryd camau pendant i gyfleu'r neges yn eu hysgolion yn eu rôl fel llywodraethwyr ysgol.

Ystyriodd y Pwyllgor Gwaith y wybodaeth a gyflwynwyd ac roedd yn cydnabod rôl staff y Cyngor o safbwynt gwella perfformiad ar draws y gwasanaethau yn Chwarter 1 o dan amgylchiadau cynyddol heriol. Yn ogystal nododd y Pwyllgor Gwaith, o safbwynt gofal cwsmer, fod poblogrwydd AppMôn fel modd o gysylltu gyda'r Cyngor yn tyfu ac amlygwyd yr angen i ymestyn y defnydd hwn ac i barhau i hyrwyddo AppMôn fel dull gwell a chyflymach o gysylltu gyda'r Cyngor.

**Penderfynwyd nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau i'r dyfodol, sef y rhai a nodir ym mharagraffau 3.1.1 i 3.1.5 yr adroddiad ac i dderbyn y mesurau lliniaru fel y cawsant eu hamlinellu.**

## 6. CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOL 2019/20 – 2021-22

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 yn ymgorffori'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2019/20 i 2021/22 i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried. Mae'r cynllun yn nodi strategaeth cyllideb y Cyngor dros y tair blynedd nesaf ac yn nodi'r rhagdybiaethau a fydd yn cael eu cynnwys yn y broses o bennu'r gyllideb flynyddol.

Adroddodd yr Aelod Portffolio Cyllid ei bod yn ofynnol i'r Cyngor sefydlu system gadarn i fonitro a rheoli ei gyllideb refeniw a bod y Cynllun Ariannol Tymor Canol yn elfen allweddol o'r system honno. Dywedodd y bydd rhaid i'r Cyngor wneud penderfyniadau anodd dros y tair blynedd nesaf ac nad oes tebygrwydd y bydd unrhyw lacio yn y toriadau cyllid y mae awdurdodau lleol yng Nghymru wedi eu hysgwyddo dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r rhaglen gyni a gyflwynwyd gan Lywodraeth San Steffan wedi arwain at doriadau yn y cyllid y mae Llywodraeth Cymru yn ei dderbyn ac mae hynny yn ei dro'n cael effaith ar y cyllid y mae cynghorau yng Nghymru'n ei dderbyn sy'n golygu fod cyllidebau cynghorau'n cael eu torri flwyddyn ar ôl blwyddyn. Er gwaetha'r ffaith bod lefelau cyllido awdurdodau lleol wedi lleihau mae'n rhaid i'r Cyngor barhau i ddarparu gwasanaethau i bobl Ynys Môn – ac mae'r gwasanaethau hynny'n cynnwys gwasanaethau ar gyfer pobl fregus a gwasanaethau y mae gofyn cyfreithiol arno eu darparu.

Cyfeiriodd yr Aelod Portffolio at Dabl 2 yn yr adroddiad sy'n rhoi dadansoddiad o'r arbedion a wnaed fesul gwasanaeth dros gyfnod o dair blynedd rhwng 2013/14 a 2018/19 o gymharu â'r Gyllideb refeniw net ar gyfer 2018/19. Mae'r Cyngor wedi gwneud cyfanswm o £21.748m o arbedion yn y cyfnod hwn ac er ei fod wedi ceisio gwarchod ysgolion, Gwasanaethau Oedolion a'r Gwasanaethau Plant, mae gwasanaethau rheng flaen eraill - Hamdden, Morol, Datblygu Economaidd, Tai, Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo yn benodol - wedi ysgwyddo baich yr arbedion ac wedi darparu'r gyfran uchaf o arbedion o gymharu â'u cyllidebau net.

Dywedodd yr Aelod Portffolio fod y Cynllun Ariannol Tymor Canol yn disgrifio sut mae'r Cyngor yn bwriadu delio gyda'r heriau ariannol sy'n ei wynebu dros y tair blynedd nesaf yn ogystal â chydbwyso ei gyllideb a pharhau i ddarparu gwasanaethau a chyflawni ei ddyletswyddau statudol. Cymeradwyodd y Cynllun i'r Pwyllgor Gwaith.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod y Cynllun Ariannol Tymor Canol yn gosod y cyd-destun ariannol y bydd rhaid i'r Cyngor weithredu oddi fewn iddo yn ystod y 3 blynedd nesaf. Nid yw'r sefyllfa bresennol yn un galonogol, gyda'r Cyngor yn rhagweld, ar sail data Chwarter 1, y bydd gorwariant o tua £1.744m yn y gyllideb erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2018/19. Fodd bynnag, gellid dadlau fod y cyllidebau wedi cael eu tangyllido ac nad ydynt yn cwrdd â'r galw. Er gwaethaf hynny, rhaid taclo'r hyn sy'n creu gorwariant yn y gwasanaethau neu bydd cronfeydd wrth gefn yr Awdurdod yn cael eu herydu ymhellach, gyda phosibilrwydd y byddant yn disgyn o fod ychydig yn uwch na'r lleiafswm o £6.5m y mae'r Cyngor wedi cytuno arno i lai na £5m. Mae hyn yn annerbyniol a byddai'n creu risg i'r Cyngor yn y dyfodol. O ganlyniad, bydd rhaid datblygu strategaeth i godi lefelau'r cronfeydd wrth gefn yn ôl i'r cyfanswm a argymhellir dros gyfnod o amser.

Dywedodd y Swyddog fod y Cyngor wedi gwneud arbedion sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ond ei fod wedi amddiffyn ysgolion a'r Gwasanaethau Plant rhag y gwaethaf o'r toriadau drwy gydol y broses. Mae hyn yn anghynaladwy bellach wrth i allu'r gwasanaethau eraill i ysgwyddo cyfran uwch o'r toriadau leihau. Er bod y sefyllfa economaidd gyffredinol yn parhau'n ansicr, gwelwyd peth tystiolaeth fod y Llywodraeth yn llacio rhywfaint ar ei raglen o gyni yn sgil y cyhoeddiad ym mis Mehefin 2018 y byddai codiad cyfartalog blynyddol o 3.4% uwchlaw lefel chwyddiant yng Nghyllideb y GIG yn Lloegr, sy'n golygu cynnydd o £20b mewn termau real erbyn 2023. Bydd hyn yn arwain at gynnydd o £1.37b i Gymru drwy'r fformiwla Barnett yn ystod yr un cyfnod er nad yw'n glir a fydd unrhyw gyfran o'r cyllid ychwanegol hwn yn cyrraedd cyllidebau'r awdurdodau lleol. O



DRAFT

ganlyniad, mae'r Awdurdod yn seilio ei ragdybiaethau ar ostyngiad disgwyliedig o 1% yn y setliad ar gyfer llywodraeth leol yn 2019/20, sydd yn golygu £900k llai o incwm i Ynys Môn.

Cyfeiriodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 at adran 5 yr adroddiad sy'n rhestru'r pwysau ar y gyllideb, yn faterion cenedlaethol ac yn faterion lleol i Ynys Môn, y mae'r Awdurdod yn eu hwynebu ac y bydd rhaid iddo eu datrys. Mae Tabl 3 yn yr adroddiad yn nodi cyllideb ddisymud ar gyfer y tair blynedd nesaf - 2019/20, 2020/21 a 2021/22 sydd, o'u cymharu â chyllidebau terfynol y tair blynedd diwethaf, yn dangos pwysau o oddeutu £6m, £4m a £4m yn ystod y tair blynedd nesaf, yn y drefn honno. Ariennir y gyllideb ddisymud ragamcanedig o'r cyllid allanol cyfun (AEF) a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru ac mae'n cynnwys y Grant Cynnal Refeniw (CGR) a Chyllid Cronfa Annomestig ac o'r Dreth Gyngor a godir yn lleol. Byddai codiad o 5% yn y Deth Gyngor yn creu tua £1.6m o gyllid ychwanegol; fodd bynnag, bydd y toriad o 1% a ragwelir yn y RSG, petai'n cael ei wireddu, yn arwain at leihad o £900k yn y ffigwr hwnnw gan adael tua £500k o incwm ychwanegol i wrthbwyso costau ychwanegol o thua £6m. Bydd rhaid pontio'r bwlch cyllido hwn sy'n golygu y bydd rhaid canfod arbedion unwaith eto; rhagwelir y bydd canfod £9.34m (8.3%) o arbedion o gyllidebau gwasanaethau dros y 3 mlynedd nesaf, ar ben yr arbedion a wnaethpwyd eisoes, yn her enfawr i wasanaethau.

Dywedodd y Swyddog mai strategaeth effeithlonrwydd y Cyngor yn y gorffennol oedd gostwng cyllidebau gwasanaeth drwy ofyn i wasanaethau adolygu eu cyllidebau presennol a lleihau'r gyllideb net gyffredinol drwy ddefnyddio dulliau traddodiadol sy'n cynnwys lleihau costau staff a chostau gweinyddol, cynyddu incwm a rhesymoli gofod swyddfa. Fodd bynnag, mae'r sgôp i gynhyrchu'r arbedion sydd eu hangen drwy ddefnyddio'r dulliau hyn yn unig yn sylweddol llai erbyn hyn a rhaid i'r Cyngor newid ei strategaeth er mwyn parhau i wireddu'r arbedion sydd eu hangen. Mae adran 9.5 yr adroddiad yn rhestru'r meysydd fydd angen gweithredu arnynt fydd yn golygu newid y ffordd y mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau a lle bydd lleihad yn y gwasanaethau. Bydd cydbwyso'r gyllideb yn ystod y 3 blynedd nesaf drwy weithredu'r camau hyn yn golygu gwneud penderfyniadau anodd ac mae nifer o risgiau allai atal y Cyngor rhag cyflawni pob un o'r mesurau; cyfeirir atynt yn adran 9.6 yr adroddiad.

Ystyriodd y Pwyllgor Gwaith y wybodaeth a gwnaed sylwadau fel a ganlyn -

- Nododd y Pwyllgor Gwaith fod y sefyllfa ariannol yn heriol ac nad yw'r rhagolygon yn obeithiol; Mae rhaglen gyni Llywodraeth y DU a gyflwynwyd i leihau'r diffyg yng nghyllideb y Llywodraeth yn cael effaith ddifrifol ar wasanaethau cyhoeddus ac, oherwydd y toriad yng Nghyllideb Llywodraeth Cymru, mae'n cael effaith sylweddol ar gyllidebau Cynghorau yng Nghymru. Drwy gydol y broses mae'r Awdurdod yn Ynys Môn wedi ceisio lliniaru effeithiau'r toriadau ariannol, ond yn debyg i awdurdodau eraill, mae'n ei chael yn gynyddol anodd delio gyda'r heriau cyllidebol hyn ac mae gwasanaethau megis Hamdden, Morol a Datblygu Economaidd wedi gwneud arbedion sylweddol yn barod, fel cyfran o'u cyllidebau. Rhaid anfon y neges i Lywodraethau'r DU a Chymru fod y sefyllfa'n anghynaladwy ac na ellir disgwyl i awdurdodau lleol osod cyllideb gytbwys i gwrdd â'r cynnydd am wasanaethau os oes toriad yn eu cyllid.
- Nododd y Pwyllgor Gwaith fod Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi y bydd Llywodraeth Cymru yn derbyn £23m o gyllid ychwanegol o ganlyniad i'r penderfyniad i godi cyflogau athrawon. Gofynnodd y Pwyllgor Gwaith am eglurhad ynglŷn â fydd hyn yn debygol o wneud gwahaniaeth i'r sefyllfa yn Ynys Môn. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 y deallir y bydd Llywodraeth Cymru yn derbyn £8.7m yn 2018/19 a £14.8m yn 2019/20 sydd gyfystyr â £200k ychwanegol i Ynys Môn yn 2018/19 a £350k yn 2019/20 os yw'r cyllid hwn yn cael ei gynnwys yn y setliad.

- Nododd y Pwyllgor Gwaith y sefyllfa yng Nghanolfan Addysg y Bont, gyda'r ysgol yn wynebu problemau ariannol oherwydd nad yw ei chyllideb yn cyd-fynd â'r cynnydd yn y costau o ganlyniad i'r cynnydd yn nifer y disgyblion yn yr ysgol a nododd hefyd ohebiaeth gan y Cynghorydd Dylan Rees, fel Aelod Lleol, yn gofyn i'r Pwyllgor Gwaith gefnogi'r hyn sy'n cael ei argymell yn yr adroddiad, sef fod darpariaeth ar gyfer y costau hyn yn cael ei wneud yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol er mwyn caniatáu i'r ysgol barhau i gwrdd â'i dyletswydd gyfreithiol i ofalu am ei disgyblion.

  Roedd y Pwyllgor Gwaith yn cefnogi dilyn y trywydd hwn a nododd hefyd bod mesurau cyni yn arwain at sefyllfa lle nad yw cyllidebau yn cyd-fynd â'r galw ac o ganlyniad y rhai mwyaf bregus yn aml iawn sy'n cael eu heffeithio. Dyma'r math o bwysau parhaus y mae'r Cyngor yn gorfod ymdopi ag o wrth geisio bodloni ei ddyletswyddau statudol i gyflenwi'r ystod o wasanaethau y mae'n gyfrifol amdanynt.

- Nododd y Pwyllgor Gwaith fod y gyllideb Iechyd yn cyfateb i 49% o gyllideb Llywodraeth Cymru o gymharu â 42% yn 2011/12, tra bod cyllideb Llywodraeth Leol wedi gostwng o 30% o gyfanswm cyllideb Llywodraeth Cymru i 28% yn ystod yr un cyfnod. Yn ogystal, nododd y Pwyllgor Gwaith efallai ei bod yn amserol cyflwyno sylwadau i Lywodraeth Cymru yn gofyn iddo ailystyried rhoi blaenoriaeth i Iechyd ar draul Llywodraeth Leol.

  **Penderfynwyd nodi cynnwys y Cynllun Ariannol Tymor Canol 2019/20 – 2021/22 a chymeradwyo'r rhagdybiaethau a gynhwysir ynddo.**

**7. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB REFENIW – CHWARTER 1 2018/19**

Cyflwynwyd, er ystyriaeth gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 yn amlinellu perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor ar ddiwedd chwarter cyntaf blwyddyn ariannol 2018/19 (1 Ebrill – 30 Mehefin).

Adroddodd yr Aelod Portffolio fod y Cyngor wedi gosod cyllideb net ym mis Chwefror ar gyfer 2018/19 gyda gwariant net y gwasanaethau, swm o £130.870m, i gael ei gyllido o incwm o'r Dreth Gyngor, Trethi Annomestig a grantiau cyffredinol oedd yn rhoi cyfanswm o £130.9m yn dilyn addasiadau. Roedd y gyllideb ar gyfer 2018/19 yn cynnwys arbedion angenrheidiol o £2.522m. Fe'u hymgorfforwyd yng nghyllidebau unigol y gwasanaethau a chaiff llwyddiant neu fethiant i'w cyflawni eu hadlewyrchu yn y (tan)/gorwariant net a ddangosir yn yr adroddiad. Ar sail canlyniadau Chwarter 1, dywedodd yr Aelod Portffolio y rhagwelir cyfanswm o £1.744m o orwariant yn 2018/19 yn cynnwys Cyllid Corfforaethol a chronfa'r Dreth Gyngor. Mae hyn yn cyfateb i 1.33% o gyllideb net y Cyngor ar gyfer 2018/19. Y rheswm am hyn yw pwysau cyllidebol tebyg i'r hyn a brofwyd yn 2017/18, a chost y gwasanaethau plant statudol yw'r elfen fwyaf arwyddocaol.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid fod llawer o sylw wedi'i roi i ddefnydd yr Awdurdod o staff asiantaeth a/neu ymgynghorwyr a'r costau sy'n codi o ganlyniad i hynny; mae'r Awdurdod yn monitro'r costau hyn yn ofalus ac yn adrodd arnynt yn chwarterol fel rhan o'r gwaith o fonitro'r gyllideb. Dywedodd fod yr Awdurod yn rhan o ddau brosiect seilwaith mawr ar hyn o bryd sy'n creu'r angen am arbenigedd a chymorth arbenigol o du allan i'r Cyngor.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod y gorwariant a ragwelir yng nghyllideb 2018/19 yn adlewyrchiad o effaith cronnus toriadau yng nghyllidebau gwasanaethau dros amser. Yn hanesyddol, mae gwasanaethau yng Nghyngor Môn wedi llwyddo'n weddol i gadw o fewn eu cyllidebau gyda gwasanaethau sy'n tanwario yn cynorthwyo i gydbwyso gorwariant mewn meysydd gwasanaeth eraill. Fodd bynnag, wrth i gyllidebau leihau ac i gyllidebau nad ydynt yn cael eu defnyddio ddiflannu, mae llai o sgôp i wasanaethau danwario ar eu cyllidebau – dengys yr adroddiad fod y rhan fwyaf o

DRAFT

wasanaethau yn debygol o fod o fewn, neu ychydig dros, eu cyllideb erbyn diwedd y flwyddyn ac nid yw hynny o gymorth er mwyn gwrthbwyso gorwariant sylweddol yn y Gwasanaethau Plant. Mae'r adroddiad yn cyfeirio at chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol newydd felly mae'n bosib y bydd y sefyllfa'n newid, yn arbennig yn ystod misoedd y gaeaf. Bydd rhaid rhoi sylw i'r sefyllfa o ran y prif orwariant, sef yn y Gwasanaethau Plant, er nad oes fawr o gyfleoedd i weithredu yn bennaf oherwydd diffyg lleoliadau lleol ar yr Ynys ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Oherwydd hyn, rhaid i'r Gwasanaeth chwilio am leoliadau all sirol sydd yn ddrud ac maent yn creu cost i'r Gwasanaeth Addysg oherwydd y gofyn i gyllido darpariaeth addysg ar gyfer y plant sy'n cael eu lleoli tu allan i Ynys Môn.

Dywedodd y Swyddog fod rhai gwasanaethau eraill yn gorwario ar hyn o bryd, Addysg Ganolog, er enghraifft, a bod pwysau cyllidebol sylweddol ar gludiant ysgol; Gofal Cymdeithasol Oedolion, lle mae pwysau cyllidebol yn y Gwasanaeth Anableddau Corfforol a Dysgu a'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl, a'r Gwasanaeth TG gydag amcangyfrif y bydd gorwariant o £327k erbyn diwedd y flwyddyn. Canolwyd yr holl gyllidebau meddalwedd a chaledwedd ar draws y Cyngor, heblaw am ysgolion, ac erbyn hyn y Gwasanaeth TGCh sy'n eu rheoli. Mae canfyddiad fod y cyllidebau meddalwedd wedi bod yn annigonol yn hanesyddol a phan fydd y drefn ganolog wedi gwreiddio'n llawn, disgwylir y bydd lleihad yn y costau hyn. Bydd tanwariant a ragwelir yn y cyllidebau Cyllid Corfforaethol yn helpu i liniaru gorwariant mewn gwasanaethau eraill.

Cyfeiriodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 at wariant hyd yma yn erbyn y gyllideb Buddsoddi i Arbed a chynnydd prosiectau unigol fel y manylir arnynt yn Atodiad CH yr adroddiad. Mae Atodiadau DD ac E yn cyfeirio at gostau Asiantaeth ac Ymgynghori; hyd yn hyn gwariwyd £224k ar staff asiantaeth a chafodd hyn ei gyllido'n rhannol o'r gyllideb staffio oherwydd eu bod yn ymwneud â swyddi gweigion, tra bod £149k yn gysylltiedig â staff ychwanegol yn y Gwasanaethau Plant i gefnogi Gweithwyr Cymdeithasol Newydd Gymhwyso ac i edrych ar achosion hanesyddol. Roedd gwariant ar wasanaethau ymgynghori yn ystod y chwarter yn £401k a chafodd £285k o hyn ei gyllido'n allanol drwy grantiau neu gyfraniadau. Tynnodd y Swyddog sylw at y ffaith fod Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM), ym mis Awst 2018, wedi derbyn cais y Cyngor am ad-daliad TAW (yn dyddio'n ôl i 2012) a dalwyd i CThEM ar Wasanaethau Hamdden. Mae hyn gyfystyr ag oddeutu £800k net i'r Cyngor ac mae'n dilyn dyfarniad cyfreithiol ym mis Tachwedd 2017 na ddylid codi TAW ar incwm y Gwasanaeth Hamdden. Bydd rhaid penderfynu a ddylid rhoi'r swm a ad-dalwyd yn y cronfeydd cyffredinol neu mewn cronfa wedi'i chlustnodi er mwyn buddsoddi yn y Gwasanaeth Hamdden, neu gyfuniad o'r ddau.

**Penderfynwyd nodi'r canlynol –**

- **Y sefyllfa a amlinellir yn atodiadau A a B yng nghyswllt perfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r alldro disgwyliedig ar gyfer 2018/19;**
- **Y crynodeb o'r cyllidebau wrth gefn ar gyfer 2018/19 fel y manylir arnynt yn Atodiad C;**
- **Y sefyllfa mewn perthynas â'r Rhaglenni Buddsoddi i Arbed yn Atodiad CH;**
- **Y sefyllfa o ran arbedion effeithlonrwydd 2018/19 yn Atodiad D;**
- **Y modd y caiff costau staff asiantaeth ac ymgynghorwyr eu monitro yn 2018/19 fel yr amlinellir yn Atodiadau DD ac E, a fod –**
- **Yr ad-daliad TAW annisgwyl oddeutu £800k yn cael ei gredydu i gronfa wrth gefn glustnodedig y byddir yn penderfynu ar ei defnydd yn nes ymlaen.**

## 8. MONITRO'R CYFRIF REFENIW TAI - CHWARTER 1 2018/19

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 yn amlinellu perfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRA) ar ddiwedd Chwarter 1 2018/19 er ystyriaeth gan y Pwyllgor Gwaith.

Adroddodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod balans agoriadol y CRT yn £7.407k. Mae gwariant o £6m wedi'i gynllunio fydd yn gostwng yr arian wrth gefn i £1.3m. Oherwydd llithriad yn y gwariant cyfalaf bydd llai nag a ragwelwyd o'r CRT yn cael ei ddefnyddio gan adael balans o £3.098m ar ddiwedd y flwyddyn ariannol i gyllido gwariant CRT yn y dyfodol.

**Penderfynwyd nodi'r sefyllfa o ran perfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer Chwarter 1 ynghyd â'r alldro a ragamcenir ar gyfer 2018/19.**

## 9. ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF – CHWARTER 1 2018/19

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 yn amlinellu perfformiad y Gyllideb Gyfalaf ar gyfer chwarter un blwyddyn ariannol 2018, er ystyriaeth gan y Pwyllgor Gwaith.

Adroddodd yr Aelod Portffolio Cyllid fod Tabl 2.1 yr adroddiad yn darparu crynodeb o'r gwariant cyfalaf hyd at 30 Mehefin, 2018 (£3.198m), y gyllideb a broffiliwyd hyd at 30 Mehefin, 2018 (£4.192m) a'r modd y bwriedir cyllido'r gyllideb gyfalaf flynyddol (£58.853m). Roedd 75% o'r gyllideb a broffiliwyd ar gyfer y gronfa gyffredinol wedi ei wario hyd at ddiwedd y chwarter cyntaf, fodd bynnag, dim ond 5% o'r gyllideb flynyddol sydd wedi cael ei gwario hyd yma yn bennaf oherwydd y bydd yr arian ar gyfer nifer o'r cynlluniau cyfalaf yn cael ei wario yn ystod chwarter olaf y flwyddyn ariannol. Mae Tabl 3.2 yn dangos y sefyllfa mewn perthynas â'r derbyniadau cyfalaf gyda dim ond £270k yn cael ei dderbyn erbyn 30 Mehefin, 2018 yn erbyn rhagamcan o'r derbyniadau cyfalaf o £3.046m. Mae Tabl 4.1 yr adroddiad yn dangos rhagamcan o wariant gwirioneddol ar gyfer 2018/19 yn ei gyfanrwydd.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 y rhagamcanir y bydd tanwariant o £22.594m yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2018/19 ac mae'n bosib y bydd yn llithro i Raglen Gyfalaf 2019/20. Bydd y cyllid ar gyfer y llithriad hwn hefyd yn llithro i 2019/20 a bydd yn cael ei gymryd i ystyriaeth wrth gynhyrchu'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2019/20. Mae'r prif brosiectau y rhagwelir y byddant yn tanwario yn cael eu rhestru yn Adran 4.2 yr adroddiad ac yn cynnwys tri phrosiect mawr (safle ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, Gwelliannau i'r A5025 i Wylfa Newydd ac Ysgol Newydd yr Unfed Ganrif ar Hugain yn Llangefni. Bydd y cyllid ar gyfer y prosiectau hyn yn cael ei ddwyn ymlaen i 2019/20 ac ni ragwelir ar hyn o bryd y bydd yr arian yn cael ei golli oherwydd yr oedi.

**Penderfynwyd nodi'r cynnydd o ran gwariant a derbyniadau yn erbyn cyllideb gyfalaf 2018/19 yn Chwarter 1.**

## 10. ADOLYGIAD BLYNYDDOL RHEOLI TRYSORLYS AR GYFER 2017/18

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 yn ymgorffori'r Adolygiad Blynyddol Rheoli Trysorlys ar gyfer 2017/18 er ystyriaeth gan y Pwyllgor Gwaith.

Adroddodd y Deilydd Portffolio Cyllid fod rhaid i'r Cyngor, yn unol â rheoliadau a gyhoeddwyd dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, gynhyrchu adolygiad blynyddol ar weithgareddau rheoli trysorlys a'r dangosyddion pwyllog a thrysorlys gwirioneddol am

DRAFT

2017/18. Mae’r adroddiad hwn yn bodloni gofynion Côd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys a Chôd Pwyllog CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod y Strategaeth Rheoli Trysorlys wedi aros yn gyson yn ystod y blynyddoedd diwethaf gan ddilyn trefn o fewnoli benthyca lle bo hynny’n bosib, gan ddefnyddio balansau’r Cyngor ei hun i gyllido rhan o’r fenthyca cyfalaf. Fodd bynnag, yn y tymor hir disgwylir y bydd rhaid benthyca er mwyn adfer balansau’r Cyngor. O ran buddsoddiadau, mae’r enillion wedi aros yn isel oherwydd cyfraddau llog isel a’r strategaeth a ddilynwyd oedd lleihau risg drwy ddewis cyd-bartïon buddsoddi ar sail statws credyd a ddarperir gan y tri phrif asiantaeth sy’n darparu statws credyd ynghyd â data ychwanegol am y farchnad. Y prif amcanion oedd diogelwch a hylifedd a sicrhau fod arian digonol ar gael i dalu credydwyr y Cyngor ayb.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi y bydd y ffigyrau alldro yn yr adroddiad hwn yn parhau i fod yn rhai dros dro hyd nes bydd yr archwiliad o Ddatganiad Cyfrifon 2017/18 wedi ei gwblhau a’i lofnodi; adroddir fel sy’n briodol ar unrhyw addasiadau sylweddol i’r ffigyrau sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad hwn.**
- **Nodi’r dangosyddion pwyllog a thrysorlys dros dro ar gyfer 2017/18 sydd yn yr adroddiad.**
- **Derbyn yr Adroddiad Rheoli Trysorlys Blynyddol am 2017/18 a’i gyflwyno i’r Cyngor llawn heb unrhyw sylwadau.**

## 11. ADRODDIAD CYNNYDD Y GWASANAETHAU PLANT A THEULUOEDD

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn nodi’r cynnydd hyd yma yn erbyn y Cynllun Gwella Gwasanaeth er ystyriaeth gan y Pwyllgor Gwaith.

Adroddodd yr Arweinydd a Deilydd Portffolio'r Gwasanaethau Cymdeithasol fod y Gwasanaeth wedi llwyddo i recriwtio dau Weithiwr Cymdeithasol profiadol er gwaethaf prinder cenedlaethol o Weithwyr Cymdeithasol a’i fod wedi gweithredu ei gynllun wrth gefn, sef recriwtio Gweithwyr Cymdeithasol Newydd Gymhwyso fydd yn cael eu cefnogi gan Weithwyr Cymdeithasol Asiantaeth dros gapasiti am gyfnod o flwyddyn. Cyflwynodd y Tîm Cefnogi Annibynnol, sydd wedi bod yn gweithio gyda’r gwasanaeth i helpu i wneud gwelliannau yn dilyn arolygiad gan AGGCC (AGC) ddiwedd 2016, ei adroddiad terfynol i’r Panel Gwella Gwasanaethau Plant ym mis Gorffennaf. Cynhwysir detholiad o adborth y Tîm Cefnogi Annibynnol yn yr adroddiad; ar y cyfan mae’r adborth yn gadarnhaol ac mae’n amlygu nifer o feysydd lle mae newidiadau wedi arwain at welliannau arwyddocaol. Er gwaetha’r ffaith fod rhai materion angen sylw o hyd, mae’r Tîm Cefnogi Annibynnol yn barnu fod y gwelliannau a wnaethpwyd yn argoeli’n dda ar gyfer y dyfodol ac yn gosod sylfaen gadarn i adeiladu arno. Yn ogystal, cyfeiriodd yr Aelod Portffolio at y gwelliannau amlwg ym mherfformiad y Gwasanaeth yn erbyn Dangosyddion Perfformiad yn ystod y chwarteri olaf fel yr adlewyrchir yn adran 3 yr adroddiad; yn ogystal mae perfformiad mewn perthynas â chyflawni safonau perfformiad corfforaethol megis targedau absenoldeb salwch a chwblhau modiwlau hyfforddiant gorfodol ar-lein wedi gwella’n fawr.

Nododd y Pwyllgor Gwaith fod yr arfarniad o gynnydd a gyflwynir yn y diweddariad hwn ac adroddiadau blaenorol yn rhoi sicrwydd fod y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn gwella ac yn golygu fod y Pwyllgor Gwaith yn gallu bod yn fwy hyderus ynglŷn â sut mae’r Gwasanaeth yn gweithredu yn awr ond gyda’r rhybuddion canlynol –



DRAFT

- Fod y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd angen rhoi trefniadau mewn lle i sicrhau fod y gwelliannau a wneir yn gynaliadwy dros amser er mwyn lleihau'r posibilrwydd fod perfformiad yn amrywio.
- Fod cyfraddau gadael ymysg Gweithwyr Cymdeithasol profiadol yn bryder ac yn risg y mae angen camau lliniaru ar ei gyfer.

Roedd y Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cydnabod ei bod yn bwysig cael trefniadau effeithiol a chadarn mewn lle i gynnal y newidiadau a wnaed mewn ymarfer, polisïau a strwythurau staffio. Mae goruchwyliaeth, sicrhau ansawdd a phrosesau archwilio wedi cael eu datblygu a byddant yn sicrhau fod ansawdd yr ymarfer yn parhau i fod yn gyson o ddydd i ddydd a bod modd dangos tystiolaeth o hynny. Mewn perthynas â'r pwysau ar Weithwyr Cymdeithasol, mae'r strwythur staffio newydd a gyflwynwyd yn golygu fod Gweithwyr Cymdeithasol Plant rŵan yn gweithio mewn timau llai, yn delio gyda llai o achosion, yn cael gwell mynediad at Arweinwyr Ymarfer ac yn cael eu goruchwylio'n fwy cyson – mae'r holl ffactorau hyn yn cyfrannu at wneud eu gwaith yn fwy diogel.

**Penderfynwyd cadarnhau bod y Pwyllgor Gwaith yn fodlon â'r camau a gymerwyd i weithredu'r Cynllun Gwella Gwasanaeth a chyda cyflymder y cynnydd hwnnw ynghyd â chyflymder y cynnydd a'r gwelliannau a wnaed yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd hyd yma.**

## 12. PROTOCOL Y CYFARWYDDWR STATUDOL GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Cyflwynwyd, er ystyriaeth gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes)/Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymgorffori Protocol ynglŷn â Rôl a Chyfrifoldebau Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghyngor Sir Ynys Môn. Hysbyswyd y Pwyllgor Gwaith fod y protocol gwreiddiol a luniwyd yn 2016 wedi cael ei adolygu a'i ddiweddaru er mwyn nodi rôl Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn unol â Rhan 8 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**Penderfynwyd argymell i'r Cyngor -**

- **Ei fod yn mabwysiadu'r Protocol sydd wedi ei gynnwys yn Atodiad 1 yr adroddiad.**
- **Ei fod yn rhoi'r awdurdod i Bennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor/Swyddog Monitro) y Cyngor i wneud y newidiadau angenrheidiol i'r Cynllun Dirprwyo ar gyfer y prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes) yn y Cyfansoddiad ac unrhyw newidiadau a wneir o ganlyniad er mwyn adlewyrchu mabwysiadu'r Protocol yn Atodiad 1.**

## 13. ADRODDIAD BLYNYDDOL IECHYD A DIOGELWCH

Cyflwynwyd, er ystyriaeth gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd yn ymgorffori'r Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol 2017/18. Roedd yr adroddiad yn nodi nifer y digwyddiadau iechyd a diogelwch a gofnodwyd yn ystod y flwyddyn ynghyd â dadansoddiad ohonynt; nifer y digwyddiadau gafodd eu hadrodd i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE), a oedd angen unrhyw gamau dilynol ynghyd â chrynodeb o waith partneriaeth.

Nodwyd bod Uwch Swyddogion, Adnoddau Dynol ac Iechyd a Diogelwch Corfforaethol wedi gwneud gwaith sylweddol i sefydlu dull o adfywio Iechyd a Diogelwch o fewn y Cyngor. Dylai'r Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol diwygiedig sy'n nodi'n glir bod Iechyd a



DRAFT

Diogelwch yn gyfrifoldeb i bob Aelod Etholedig a Staff arwain at ddiwylliant Iechyd a Diogelwch gwell o fewn y Cyngor ac, ynghyd â rôl y Cydlynwyr Iechyd a Diogelwch, osod y sylfaen ar gyfer cynnal a gwella iechyd a diogelwch o fewn y Cyngor.

Dywedodd yr Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol fod Iechyd a Diogelwch yn broses barhaus a bod gwaith ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar welliant parhaus, yn unol â'r Cynllun Gwella Iechyd a Diogelwch (sydd ynghlwm i'r adroddiad blynyddol).

Roedd y Pwyllgor Gwaith yn nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd ac yn cydnabod y gwaith a wnaethpwyd i gryfhau trefniadau a strwythurau Iechyd a Diogelwch o fewn y Cyngor. Nododd y Pwyllgor Gwaith hefyd fod pryderon wedi ymddangos yn y wasg yn ddiweddar ynglŷn â pheryglon y cemegyn glyphosate fel cynhwysyn mewn rhai mathau o blaladdwyr. Gofynnodd y Pwyllgor Gwaith am eglurhad ynglŷn â defnydd yr Awdurdod o glyphosate.

Dywedodd yr Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol fod glyphosate wedi ei drwyddedu gan yr HSE ac o'r herwydd fod mesurau rheoli caeth yn bodoli mewn perthynas â'i ddefnyddio a rhaid i bob contractwr sy'n gweithio i'r Awdurdod gydymffurfio â'r gofynion hynny. Mae'r Awdurdod yn monitro'r sefyllfa.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod yr Awdurdod wedi trafod y defnydd o glyphosate gydag awdurdodau eraill a'i fod yn cadw golwg ar y mater. Agwedd yr Awdurdod, a'r awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru'n gyffredinol, yw parhau i ddefnyddio glyphosate fel chwynladdwr o fewn y canllawiau caeth a gyhoeddwyd ac i barhau i fonitro'r sefyllfa o ran unrhyw ddatblygiadau.

**Penderfynwyd derbyn yr Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ar gyfer 2017/18 a gweithredu'r Cynllun Datblygu.**

**Y Cynghorydd Llinos Medi Huws**
**Cadeirydd**

DRAFT

This page is intentionally left blank

# PANEL RHIANT CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Medi, 2018

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Dr Gwynne Jones, Prif Weithredwr (Cadeirydd)<br><br>Cynghorydd Llinos Medi Huws (Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol)<br>Cynghorydd R. Meirion Jones (Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid)<br>Cynghorydd Richard Griffiths (Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol)<br>Cynghorydd Margaret M. Roberts (Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio)<br>Barbara Jones (Cymdeithas Gofalwyr Maeth Ynys Môn)<br>Dr Caroline Turner (Prif Weithredwr Cynorthwyol / Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol)<br>Fôn Roberts (Pennaeth Gwasanaethau Plant)<br>Huw Owen (Swyddog Adolygu Annibynnol)<br>Llyr Bryn Roberts (Rheolwr Gwasanaeth, Ymyrraeth Ddwys)<br>Gwyneth Hughes (Uwch Reolwr Addysg – Safonau a Chynhwysiant)<br>Dawn Owen (Rheolwr Tîm – Tîm Lleoli Plant)<br>Llinos Parry (Swyddog Recriwtio a Marchnata Maethu)<br>Ann Holmes (Swyddog Pwyllgor) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Cynghorydd Alun Mummery (Aelod Portffolio Tai a Chefnogi Cymunedau), Liz Fletcher (BIPBC) |

---

### 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

### 2 COFNODION CYFARFOD 11 MEHEFIN, 2018

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Panel Rhiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 11 Mehefin, 2018 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

### 3 MATERION YN CODI

- Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd fod gwaith wrthi'n cael ei wneud ar lefel ranbarthol er mwyn cydlynu agwedd awdurdodau Gogledd Cymru tuag at blant sy'n mynd ar goll o ofal, sut bydd y data perthnasol yn cael ei adrodd a sut y cynhelir cyfweliadau dychwelyd adref gorfodol. Mae materion sy'n cymhlethu pethau, er enghraifft y ffaith fod gan Heddlu ac awdurdodau lleol ddealltwriaeth wahanol am yr hyn a olygir wrth "ar goll" ac "absennol heb ganiatâd" gan olygu amrywiad yn y data yr adroddir arno a'r ffaith pan fydd awdurdodau lleol yn trefnu lleoliadau mewn ardal awdurdod lleol arall, nad ydynt bob amser yn hysbysu'r awdurdod sy'n derbyn o'r lleoliadau a wnaed. Dywedodd y Swyddog fod y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn Ynys Môn wedi ysgrifennu at yr holl asiantaethau perthnasol er mwyn ceisio cael darlun manwl gywir o'r plant a leolir ar yr Ynys gan awdurdodau eraill. Dywedodd y Swyddog ei fod yn arwain ar gydlynu'r gwaith hwn ymysg y chwe Awdurdod yng Nghymru sy'n cynnwys creu protocol ar y cyd ac yn amodol ar broses ddemocrataidd



DRAFT

yr awdurdodau eraill a'r Heddlu y bydd y Protocol yn cael ei drafod â nhw, roedd yn gobeithio dod â’r protocol i gyfarfod mis Rhagfyr, 2018 y Panel Rhiant Corfforaethol.

- O ran y costau o ddarparu addysg ar gyfer yr holl blant mewn lleoliadau yma yn Ynys Môn sydd wedi eu gwneud gan awdurdodau lleol eraill, dywedodd yr Uwch Reolwr Safonau a Chynhwysiant fod yna 6 disgybl mewn ysgolion prif lif ar Ynys Môn o ardaloedd awdurdodau lleol eraill lle mae darpariaeth addysg ychwanegol yn cael ei ddarparu h.y. y tu hwnt i’r ddarparu’r ddarpariaeth safonol. Cost y ddarpariaeth ychwanegol hon ar gyfer chwe disgybl yw £85k gyda’r awdurdodau sy’n eu lleoli yn gorfod talu eu rhan o’r swm hwnnw.

  Nododd y Panel y wybodaeth a bod y chwe disgybl y cyfeiriwyd atynt uchod yn debygol o fod yn rhan o garfan fwy o blant o ardaloedd awdurdod lleol eraill sy’n cael eu gofalu amdanynt ar Ynys Môn ac sydd eto i ddechrau’r ysgol neu nad ydynt wedi eu cynnwys yn y grŵp uchod oherwydd er eu bod yn mynychu’r ysgol, does dim angen darpariaeth addysgol ychwanegol ar eu cyfer.

**4 ADRODDIAD Y SWYDDOGION ADOLYGU ANNIBYNNOL**

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddogion Adolygu Annibynnol (Uned Ddiogelu ac Ansawdd) ar gyfer ystyriaeth y Panel. Nododd yr adroddiad y cynnydd a wnaed yn erbyn yr amcanion gwelliant y tynnwyd sylw atynt yn dilyn gwerthusiad o rianta corfforaethol yr Awdurdod gan yr Uned Diogelu ac Ansawdd a adroddwyd i’r Panel ym mis Mawrth 2018.

Adroddodd y Swyddog Adolygu Annibynnol (SAA) fod yr Uned Diogelu ac Ansawdd, wrth werthuso’r rhianta corfforaethol, wedi adnabod rhai meysydd lle gellid gwella arferion. Gwnaed argymhellion ac mae cynnydd wedi’i wneud fel a ganlyn –

- Rhaid i bob plentyn sy’n derbyn gofal gael asesiad diweddar o’u hanghenion gan gynnwys llun o bob plentyn ar y ffeil sy’n cael ei diweddaru yn rheolaidd – Ers 1 Mehefin, 2018 mae’r ddogfen Rhan 6 Cynllun Gofal a Chymorth wedi ei defnyddio sy’n cynnwys portread byr o bob plentyn. Mae’r cynllun yn seiliedig ar wybodaeth am anghenion y plentyn. Fodd bynnag, oherwydd nad yw’n cynnwys asesiad llawn bydd y SAA yn parhau i fonitro a yw’r asesiadau wedi eu diweddaru.

- Rhaid i gynlluniau Gofal a Chymorth gael eu paratoi ar gyfer pob plentyn – mae’r Uned yn ymwybodol o’r flaenoriaeth a roddir i’r mater hwn gan y Gwasanaeth. Ar gais y Pennaeth Gwasanaeth, bu’r Uned baratoi archwiliad o achosion a oedd gan Gynlluniau Gofal. Daeth yr archwiliad i’r casgliad, er fod gan nifer sylweddol o achosion gynlluniau ffurfiol bellach, nad oedd nifer o'r cynlluniau wedi eu cwblhau. Mewn rhai achosion, nid oedd nifer o'r adrannau wedi eu llenwi.

- Rhaid i baratoadau ar gyfer adolygiadau gael eu gwella a rhaid darparu gwybodaeth sy’n galluogi cynllun y plentyn i gael ei graffu a’i ddatblygu – Bydd adroddiad ar ffurf y Cynllun Gofal a Chymorth bellach yn cael ei gyflwyno i gyfarfodydd Adolygu yn rheolaidd. Yn y rhan fwyaf o achosion lle na ddigwyddodd hyn, darparwyd esboniad. Mae’r Uned yn ymwybodol o’r ymdrech sylweddol y mae nifer o Weithwyr Cymdeithasol wedi’i wneud er mwyn paratoi’r ddogfennaeth; fodd bynnag, mae’n parhau i fod yn faes y mae’r gwasanaeth yn canolbwyntio arno.

- Cofnodi ymweliadau statudol er mwyn dangos dealltwriaeth o’r gofynion gyda’r cofnod wedi’i arwyddo gan y plentyn a’r gofalwr – Er mwyn paratoi ar gyfer y diweddariad hwn, dewiswyd 10 o achosion ar hap ac roedd cofnodion cyfredol ar bob un. Fodd bynnag, wrth baratoi ar gyfer adolygiadau, nid dyma’r sefyllfa bob amser ond mae tystiolaeth o gynnydd cadarnhaol yn y cyswllt hwn.



DRAFT

- Cynnydd cynlluniau parhaol ar gyfer nifer o blant lle byddai trefniadau Gorchymyn Gwarcheidwadaeth Arbennig wedi bod yn well canlyniad – Mae Swyddogion Adolygu Annibynnol bellach yn mynychu cyfarfodydd misol gyda’r Rheolwr Gwasanaeth er mwyn craffu ar leoliadau maethu. Mae’r cyfarfodydd hyn yn darparu cyfle i ystyried y cynlluniau ar gyfer pob plentyn mewn modd cyfannol, yn cynnwys y posibilrwydd o ryddhau Gorchmynion Gofal. Trafodir hyn mewn Adolygiadau Plant y Gofelir Amdanynt hefyd.

Ystyriodd y Panel y wybodaeth a gwnaed y pwyntiau canlynol –

- O ran diweddaru asesiadau o anghenion plant mewn gofal yn rheolaidd, gofynnodd y Panel am gadarnhad ynghylch pam ei fod yn cael ei ystyried ei bod yn rhy fuan i asesu a yw’r wybodaeth hon wedi ei diweddaru o gofio bod y ddogfennaeth newydd wedi bod yn cael ei defnyddio ers 6 Mehefin 2018. Nododd y Panel y byddai adborth cychwynnol ar ba mor dda mae’r ddogfen Rhan 6 yn cyflawni’r angen o ran ansawdd wedi bod yn ddefnyddiol.

  Dywedodd y SAA, gan mai dim ond ym mis Mehefin y cyflwynwyd y ddogfennaeth newydd ac y paratowyd yr adroddiad diweddaru uchod ym mis Awst, ystyriwyd mai ychydig iawn sy’n debygol o fod wedi newid yn y cyfamser er mwyn ei gwneud yn angenrheidiol i ddiweddaru’r asesiad anghenion. Mae’r Uned hefyd yn ystyriol o’r gwaith sylweddol sy’n gysylltiedig â’r asesiadau anghenion; fodd bynnag, petai unrhyw newid neu ddatblygiadau sylweddol byddai’r asesiadau’n cael eu diweddaru yn unol â hynny.

- Nododd y Panel y gallai’r iaith yn yr adroddiad fod yn fwy penodol mewn perthynas â mesur cynnydd a pherfformiad. Er enghraifft, cyfeirir at “nifer sylweddol o achosion” ond nid yw hyn yn rhoi syniad ynghylch a yw hyn yn cyfeirio at y mwyafrif o achosion. Nododd y Panel hefyd o ran yr achosion a gafodd eu dewis ar hap ar gyfer asesu a oeddent yn gyfredol ai peidio, nad oedd unrhyw wybodaeth wedi’i darparu ac eithrio i gadarnhau a oeddent wedi eu diweddaru; doedd dim arwydd chwaith faint o achosion sydd yna ac a yw hyn yn wir ai peidio.

- Nododd y Panel, er mwyn gallu adeiladu darlun manwl gywir o berfformiad mewn perthynas ag ansawdd asesiadau, byddai’n ddefnyddiol gallu cael mwy o fanylder neu fel arall mae’n anodd sefydlu graddau’r cynnydd ac a oes angen cymryd unrhyw gamau pellach.

Bu’r SAA gydnabod y pwyntiau a wnaed gan gadarnhau y bydd ffigyrau a chanrannau yn cael eu cynnwys lle bynnag bo hynny’n bosibl yn y dyfodol er mwyn cynorthwyo’r Panel i gael gwell dealltwriaeth o’r sefyllfa. Fodd bynnag, bu’r SAA gadarnhau bod gallu cadarnhau bod cofnodion cyfredol ar gael ar gyfer y 10 achos sampl a adolygwyd ar hap yn gynnydd da iawn.

**Cytunwyd y dylid derbyn yr adroddiad a nodi’r sefyllfa.**

**CAMAU YCHWANEGOL A GAFODD EU HARGYMELL: Bod adroddiadau yn fwy manwl yn y dyfodol ac y dylent gyfleu lefel y cynnydd a wnaed.**

**5 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GWASANAETH EIRIOLAETH 2017/18**

Cyflwynwyd adroddiad y Gwasanaeth Eiriolaeth Rhanbarthol Annibynnol ar weithrediad y gwasanaeth yn Ynys Môn yn ystod 2017/18 ar gyfer ystyriaeth y Panel.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth (Ymyrraeth Ddwys) fod yr adroddiad yn dangos fod nifer yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd bob chwarter yn gyson drwy’r flwyddyn ond fod cyfanswm nifer y materion a gyfeiriwyd yn sylweddol is o gymharu â’r flwyddyn flaenorol (gweithiwyd gyda 63 o blant a phobl ifanc o gymharu â 96 yn 2016/17). Cafodd



DRAFT

hyfforddiant ar yr Agwedd Genedlaethol tuag at Eiriolaeth Statudol ar gyfer Ynys Môn ei ohirio ar ddau achlysur yn y gaeaf o ganlyniad i gywydd garw. Bydd yr hyfforddiant bellach yn cael ei ddarparu drwy ddyddiau cynhadledd staff a gobeithir y bydd yn cael effaith gadarnhaol ar ffigyrau cyfeirio yn y dyfodol. Cafodd cyfanswm o dri o bobl ifanc eu cyfeirio ar gyfer eiriolaeth Cynnig Rhagweithiol a gofynnodd y tri am eiriolaeth seiliedig ar faterion gan Wasanaeth Eiriolaeth Gogledd Cymru. Dywedodd y Swyddog mai cefnogaeth mewn cyfarfodydd, wedi'i ddilyn gan faterion cyswllt, oedd y prif resymau dros atgyfeiriadau i'r gwasanaeth. Mae cyfraniad i'r Gwasanaeth Eiriolaeth gan Ynys Môn, sy'n gwasanaethu'r chwe awdurdod yng Ngogledd Cymru, yn £20k – mae hyn yn gynnydd o £7k o ganlyniad i gyflwyniad y Cynnig Rhagweithiol sy'n golygu bod plant yn cael cyfle i gysylltu â'r darparwr eiriolaeth pan fydd Gwasanaethau Cymdeithasol yn dod yn ymwybodol ohonynt gyntaf.

Nododd y Panel y wybodaeth gan nodi hefyd fod y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi pwyslais cynyddol ar eiriolaeth yn ogystal ag eiriolaeth anffurfiol sy'n gallu digwydd drwy berthynas neu drwy athro neu athrawes. Nid yw ystadegau eiriolaeth anffurfiol yn cael eu casglu.

**Cytunwyd derbyn yr Adroddiad Blynyddol a nodi ei gynnwys.**

**NI CHAFODD UNRHYW WEITHREDOEDD YCHWANEGOL EU HARGYMELL**

**6 DIWEDDARIAD STRATEGAETH RECRIWTIO GOFALWYR MAETH**

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd bod y strategaeth ar gyfer recriwtio Gofalwyr Maeth yn cael ei hadolygu ac y bydd papur ar yr opsiynau posibl a'r costau yn cael eu cyflwyno i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ym mis Hydref ac y bydd y Panel Rhiant Corfforaethol yn cael ei ddiweddaru yn dilyn hynny. Yr amcan yw rhoi pecyn o gymhellion at ei gilydd a fydd yn gwneud maethu i'r Awdurdod ar Ynys Môn yn fwy deniadol i bobl a allai fod yn meddwl am fod yn ofalwyr maeth. Cadarnhaodd y Swyddog fod y gwaith ar y gweill ac y bydd diweddariadau'n cael eu darparu wrth i'r pecyn recriwtio diwygiedig gael ei lunio.

**Nododd y Panel y sefyllfa.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW WEITHREDOEDD YCHWANEGOL**

**7 DIGWYDDIAD GOFAL MAETH**

Rhoddodd y Swyddog Recriwtio a Marchnata Maethu gyflwyniad i'r Panel ar waith y tîm dros gyfnod yr haf. Cyfeiriodd yn benodol at y Digwyddiad Dathlu Gofalwyr Maeth a gynhaliwyd ar 10 Gorffennaf 2018 gan Gyngor Sir Ynys Môn er mwyn dweud diolch wrth holl ofalwyr maeth yr Awdurdod, eu gofalwyr a'u teuluoedd (pobl gysylltiedig).

Dywedodd y Swyddog, ynghyd â darparu'r 26 o ofalwyr maeth a oedd yn bresennol â chyfle i gyfarfod ag Uwch Dîm Arweinyddiaeth, Staff ac Aelodau Etholedig y Cyngor, roedd y digwyddiad yn fwy o gyfle i'r Awdurdod gydnabod yn ffurfiol y gwaith gwerthfawr y mae gofalwyr maeth yn ei wneud 24 awr y dydd gyda rhai o blant a phobl ifanc mwyaf bregus Ynys Môn. Roedd y Gwasanaeth hefyd yn gallu cyhoeddi yn y digwyddiad bod Aelodaeth o Wasanaethau Hamdden am ddim wedi'i gymeradwyo ar gyfer Gofalwyr Maeth a phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. Mae'r Gwasanaeth yn ddiolchgar i'r Gwasanaeth Hamdden am ymestyn yr aelodaeth hamdden am ddim, sydd eisoes ar gael i'r rhai sy'n gadael gofal, i holl ofalwyr maeth a phlant sy'n derbyn gofal ar Ynys Môn.

Roedd y Panel o'r farn ei bod yn bwysig cydnabod yn ffurfiol y gwaith a wneir gan Ofalwyr Maeth yr Awdurdod ac fe fynegodd y Panel ei werthfawrogiad o'r gwasanaeth a ddarperir ganddynt.



DRAFT

**Cytunwyd y dylid nodi'r wybodaeth.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL**

**8 DIWRNOD O HWYL – 8 MEDI, 2018**

Rhoddodd y Swyddog Recriwtio a Marchnata Maethu gyflwyniad ar Ddiwrnod o Hwyl Maethu Blynyddol y Tîm Leoli Plant sydd wedi'i gynnal yn flynyddol ers 2011 mewn cydweithrediad â Chlwb Rotari Caergybi a gyda chymorth Tyddyn Môn sy'n rhoi'r lleoliad am ddim. Dangosodd y Swyddog glipiau o'r diwrnod a'r gweithgareddau a drefnwyd ar gyfer y plant sy'n derbyn gofal a fynychodd.

Mynegodd y Panel ei ddiolch i Glwb Rotari Caergybi ac i Tyddyn Môn am eu cydweithrediad ac am gefnogi'r Diwrnod o Hwyl.

**NI CHAFODD UNRHYW WEITHREDOEDD PELLACH EU CYNNIG**

**9 CYFARFOD NESAF Y PANEL**

Nodwyd y cynhelir cyfarfod nesaf y Panel am 2pm ar ddydd Llun, 10 Rhagfyr, 2018.

**Dr Gwynne Jones**
**Cadeirydd**

DRAFT

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **29 Hydref 2018** |
| **Pwnc:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cyng Llinos Medi** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Huw Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**<br>**01248 752108**<br>**JHuwJones@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

| A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau |
|---|
| Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaen raglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaen raglen Waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.<br><br>Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:<br><br>gadarnhau'r blaen raglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Tachwedd 2018 - Mehefin 2019;**<br><br>Adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor a chadarnhau'r angen i'r Pwyllgorau Sgriwtini ddatblygu eu rhaglenni gwaith i gefnogi rhaglen waith y Pwyllgor Gwaith;<br><br>Nodi bod blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith. |

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| - |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydyw. |

| **DD – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Amherthnasol. |

<table>
<tr><th colspan="2">E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?</th><th>Beth oedd eu sylwadau?</th></tr>
<tr><td>1</td><td>Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)<br>(mandadol)</td><td rowspan="6">Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Penaethiaid Gwasanaeth (eitem safonol ar y rhaglen).<br><br>Fe'i cylchredir yn rheolaidd hefyd i Benaethiaid Gwasanaeth er mwyn ei diweddaru.</td></tr>
<tr><td>2</td><td>Cyllid / Adran 151<br>(mandadol)</td></tr>
<tr><td>3</td><td>Cyfreithiol / Swyddog Monitro<br>(mandadol)</td></tr>
<tr><td>5</td><td>Adnoddau Dynol (AD)</td></tr>
<tr><td>6</td><td>Eiddo</td></tr>
<tr><td>7</td><td>Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)</td></tr>
<tr><td>8</td><td>Sgriwtini</td><td>Cynhelir cyd-drafodaeth yn fisol ar raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r ddau Bwyllgor Sgriwtini, a hynny er mwyn sicrhau aliniad rhyngddynt.</td></tr>
<tr><td>9</td><td>Aelodau Lleol</td><td>Amherthnasol.</td></tr>
<tr><td>10</td><td>Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill</td><td>Amherthnasol.</td></tr>
</table>

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

| **F – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **FF - Atodiadau:** |
|---|
| Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith: Tachwedd 2018 - Mehefin 2019. |

| **G - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| |

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

**BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**

Cyfnod: Tachwedd 2018 – Mehefin 2019

Diweddarwyd 19 Hydref 2018

Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig. Mae'r blaen raglen waith yn cynnwys gwybodaeth am y penderfyniadau a geisir, pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau a phwy yw'r Swyddogion a'r Deilyddion portffolio arweiniol ar gyfer pob eitem.

Dylid nodi, fodd bynnag, bod y blaen raglen waith yn ddogfen hyblyg, gan nad oes modd gwybod am yr holl eitemau y bydd angen penderfyniad arnynt gymaint â hyn ymlaen llaw ac efallai bydd angen newid yr amserlen ar gyfer rhai materion er mwyn cwrdd â blaenoriaethau newydd ayyb. Oherwydd hyn, fe adolygir yn rheolaidd y rhestr o eitemau sydd wedi'u cynnwys.

Yn achlysurol, bydd angen cyflwyno adroddiadau am drafodion eiddo penodol, a hynny yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau. Oherwydd dylanwad y farchnad allanol, nid yw'n bosibl dynodi amseriad adroddiadau fel hyn ymlaen llaw.

Amlinellir blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod **Tachwedd 2018 – Mehefin 2019** ar y tudalennau dilynol.

**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.**

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Tachwedd 2018 – Mehefin 2019

Diweddarwyd 19 Hydref 2018

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Tachwedd 2018** | | | | | | |
| 1 | **Cyllideb 2019/20 (S)**<br><br>Cwblhau cynigion cychwynnol drafft y Pwyllgor Gwaith ar gyfer ymgynghori. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>26 Medi 2018<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>24 Hydref 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>12 Tachwedd 2018 | |
| 2 | **Cynllun Strategol y Gyllideb Gyfalaf 2019/20** | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>(dyddiad i'w gadarnhau) | Pwyllgor Gwaith<br><br>12 Tachwedd 2018 | |
| 3 | **Premiwm y Dreth Gyngor**<br><br>Adolygiad yn dilyn gweithredu'r Premiwm am flwyddyn llawn | | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>6 Tachwedd 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>12 Tachwedd 2018<br>(I'w gadarnhau) | |

Tudalen 23

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

## BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Tachwedd 2018 – Mehefin 2019

Diweddarwyd 19 Hydref 2018

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| 4 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Tachwedd 2018 | |
| 5 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch2, 2018/19 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>12 Tachwedd 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Tachwedd 2018 | |
| 6 | **Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2018/19 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>6 Tachwedd 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Tachwedd 2018 | |
| 7 | **Polisi Gamblo**<br><br>Argymell i'r Cyngor llawn y dylid cymeradwyo'r polisi. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhan o Fframwaith Polisi'r Cyngor. | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Dylan Williams<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br><br>Cyng Richard Dew | | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Tachwedd 2018 | 11 Rhagfyr 2018 |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

**BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**
Cyfnod: Tachwedd 2018 – Mehefin 2019

Diweddarwyd 19 Hydref 2018

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 8 | **Prosiect Rhwydwaith Ffeibr Llawn Lleol (LFFN)**<br><br>Dirprwyo i Gyngor arall yr awdurdod i gweithredu'r Prosiect. | | Rheoleiddio a Datblygy Economaidd / Busnes y Cyngor | Dylan Williams<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd / Lynn Ball<br>Pennaeth Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro<br><br>Cyng Carwyn Jones<br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Tachwedd 2018<br>- I'w gadarnhau | |
| 9 | **Moderneiddio Ysgolion Môn – Achos Strategol Amlinellol / Achos Busnes Amlinellol Cyfunedig – Ysgol Gynradd Newydd yn lle Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn** | | Dysgu | Arwyn Williams<br>Pennaeth Dysgu<br><br>Cyng R Meirion Jones | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol Tachwedd 2018 – i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Tachwedd 2018 | |
| 10 | **Sefydlu Bwrdd a Chyfundrefn Draenio Cynaliadwy** | | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Huw Percy<br>Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo Interim<br><br>Cyng Bob Parry OBE | | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Tachwedd 2018 | |

* *Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

## BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Tachwedd 2018 – Mehefin 2019

Diweddarwyd 19 Hydref 2018

Tudalen 26

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Rhagfyr 2018** | | | |
| 11 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Rhagfyr 2018 | |
| 12 | **Strategaeth Digartrefedd**<br><br>Cymeradwyo'r ddogfen yn dilyn y cyfnod ymgynghori. | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun W Mummery | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>12 Tachwedd 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Rhagfyr 2018 | |
| 13 | **Arolwg AGC o Wasanaethau Plant yn Ynys Môn – Cynllun Gwella – Cynnydd Chwarterol** | | Gwasanaethau Plant | Fôn Roberts<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant<br><br>Cyng Llinos Medi | Panel Gwella Gwasanaethau Plant<br>26 Tachwedd 2018<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>10 Rhagfyr 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Rhagfyr 2018 | |

* *Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

## BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Tachwedd 2018 – Mehefin 2019

Diweddarwyd 19 Hydref 2018

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Ionawr 2019** | | | | | | |
| 14 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Ionawr 2019 | |
| | **Chwefror 2019** | | | | | | |
| 15 | **Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2018/19 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid – dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Chwefror 2019 | |
| 16 | **Cyllideb 2019/20 (S)**<br><br>Mabwysiadu cynigion terfynol i'w hargymell il'r Cyngor Sir. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 4 Chwefror 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Chwefror 2019 | 27 Chwefror 2019 |
| 17 | **Ffioedd a Thaliadau 2019/20** | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Chwefror 2019 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

## BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Tachwedd 2018 – Mehefin 2019

Diweddarwyd 19 Hydref 2018

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 18 | **Arian Wrth Gefn**<br><br>Diweddariad o'r sefyllfa mewn perthynas ag Arian Wrth Gefn. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Chwefror 2019 | |
| 19 | **Polisi Rhyddhad Dewisol rhag y Dreth Fusnes**<br><br>Mabwysiadu fframwaith newydd yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan y Pwyllgor Gwaith o ran manylu ar y rhyddhad ychwanegol rhag y dreth fusnes i'w ddyrannu i elusennau a sefydliadau sydd ddim yn gwneud elw | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Chwefror 2019 | |
| 20 | **Strategaeth Rheoli Trysorlys 2019/20**<br><br>Mabwysiadu strategaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Chwefror 2019 | 27 Chwefror 2019 |
| 21 | **Taliadau am Wasanaethau Di-Breswyl 2019/20**<br><br>Cymeradwyaeth. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan fod y mater yn ymwneud ag ystyriaethau ariannol materol berthnasol. | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Chwefror 2019 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

## BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH
Cyfnod: Tachwedd 2018 – Mehefin 2019

Diweddarwyd 19 Hydref 2018

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 22 | **Ffi Safonol ar gyfer Cartrefi Preswyl y Cyngor Sir yn ystod 2019/20**<br><br>Cymeradwyaeth. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan fod y mater yn ymwneud ag ystyriaethau ariannol materol berthnasol. | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Chwefror 2019 | |
| 23 | **Ffioedd Cartrefi Gofal y Sector Annibynnol 2019/20**<br><br>Cymeradwyaeth. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan fod y mater yn ymwneud ag ystyriaethau ariannol materol berthnasol. | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Chwefror 2019 | |
| 24 | **Rhenti a ffioedd ar gyfer y Gwasanaeth Tai yn 2019/20** | | Gwasanaethau Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br>Cyng Alun Mummery | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Chwefror 2019 | |
| | | | | | | | |
| 25 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Chwefror 2019 | |

*  *Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH
Cyfnod: Tachwedd 2018 – Mehefin 2019

Diweddarwyd 19 Hydref 2018

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Mawrth 2019** | | | | | | |
| 26 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Mawrth 2019 | |
| 27 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch3, 2018/19 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>11 Mawrth 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Mawrth 2019 | |
| 28 | **Arolwg AGC o Wasanaethau Plant yn Ynys Môn – Cynllun Gwella – Cynnydd Chwarterol** | | Gwasanaethau Plant | Fôn Roberts<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant<br><br>Cyng Llinos Medi | Panel Gwella Gwasanaethau Plant<br>(Dyddiad i'w gadarnhau)<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>11 Mawrth 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Mawrth 2019 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Tachwedd 2018 – Mehefin 2019

Diweddarwyd 19 Hydref 2018

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 29 | **Moderneiddio Hamdden** | | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Dylan Williams<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br><br>Cyng Carwyn Jones | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio - 12 Mawrth 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Mawrth 2019 | |
| **Ebrill 2019** | | | | | | | |
| 30 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Ebrill 2019 | |
| **Mai 2019** | | | | | | | |
| 31 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>.. Mai 2019 | |
| **Mehefin 2019** | | | | | | | |
| 32 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>.. Mehefin 2019 | |

* *Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith**<br>**Cyngor Sir** |
| **Dyddiad:** | **29 Hydref 2018**<br>**11 Rhagfyr 2018** |
| **Pwnc:** | **Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu – Cylch Gorchwyl Diwygiedig** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd Robin Williams (Deilydd Portffolio Cyllid)** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Marc Jones, Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151**<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk<br><br>**Lynn Ball, Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) a Swyddog Monitro**<br>LynnBall@ynysmon.gov.uk |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Marion Pryor, Pennaeth Archwilio a Risg**<br>**01248 752611**<br>MarionPryor@ynysmon.go.uk |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Fod y Pwyllgor Gwaith yn argymell i'r Cyngor ei fod yn cymeradwyo'r newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor, sef cylch gorchwyl diwygiedig y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu fel y'i hamlinellir yn yr Atodiad i'r adroddiad hwn.

**Rhesymau**

Mae arfer dda'n awgrymu y dylai pwyllgorau archwilio adolygu eu cylch gorchwyl yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn briodol. Adolygwyd cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ddiwethaf ym mis Chwefror 2015, a'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Ebrill a'r Cyngor Sir ym mis Mai 2015.

Ym mis Mai 2018, bu i Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) adolygu a diweddaru ei ganllawiau'n llawn er mwyn rhoi ystyriaeth i newidiadau deddfwriaethol a datblygiadau sydd wedi effeithio ar y sector cyhoeddus.

| |
|---|
| Roedd aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu'n awyddus iawn i fod yn rhan o'r adolygiad o'r cylch gorchwyl ac roeddent yn bresennol mewn gweithdy i drafod y canllawiau diwygiedig a gynhaliwyd ar 13 Mehefin 2018.<br><br>Mae'r canllawiau diwygiedig yn diweddaru swyddogaethau craidd y pwyllgor archwilio mewn perthynas â llywodraethu, rheoli risg, rheolaeth fewnol ac archwilio. Mae hyn yn cynnwys rheoliadau a chanllawiau statudol diwygiedig, yn cynnwys fersiynau diwygiedig Safonau Archwilio Mewnol ac Allanol y Sector Cyhoeddus, a Fframwaith Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol a chanllawiau cysylltiedig.<br><br>Yn ogystal, diweddarwyd rôl y pwyllgor archwilio mewn perthynas ag atal twyll er mwyn adlewyrchu'r Cod Ymarfer Rheoli'r Risg o Dwyll a Llygredigaeth.<br><br>Mae'r canllawiau'n parhau i ganolbwyntio ar y ffactorau sy'n cefnogi gwelliant. Maent yn cynnwys y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar aelodau pwyllgor archwilio ac yn canolbwyntio ar lle mae pwyllgor archwilio'n ychwanegu gwerth. Yn ogystal, mae'n darparu cefnogaeth ymarferol er mwyn arfarnu effeithiolrwydd y pwyllgor a chynllunio gwelliannau.<br><br>Mae'r adroddiad hwn yn cynnig cylch gorchwyl wedi ei ddiwygio'n llwyr er cymeradwyaeth. |

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Mae opsiwn i wneud dim byd ac i beidio newid y cylch gorchwyl presennol. Fodd bynnag, cydnabyddir fod angen diweddaru'r cylch gorchwyl presennol er mwyn cydymffurfio â chanllawiau'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA), er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor i gyflawni ei gyfrifoldebau. Mae canllawiau CIPFA yn cynrychioli'r arfer orau ar gyfer pwyllgorau archwilio mewn awdurdodau lleol ledled y DU. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae hwn yn newid cyfansoddiadol, y mae angen barn y Pwyllgor Gwaith arno cyn cyflwyno'r adroddiad i'r Cyngor Llawn er cymeradwyaeth. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydi |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydi |

| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Cymeradwywyd heb unrhyw sylwadau ychwanegol (28/08/18) |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Er mwyn sicrhau nad oes oedi yn y broses o gymeradwyo datganiadau ariannol y Cyngor, gofynnodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu barhau i gymeradwyo penodiadau aelodau lleyg yn hytrach na throsglwyddo'r cyfrifoldeb i'r Cyngor Llawn yn unol â'r argymhelliad yng nghanllawiau CIPFA. |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Cymeradwywyd, gyda mân sylwadau, a rhoddwyd sylw i'r materion hynny. |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | Amherthnasol |
| 5 | **Eiddo** | Amherthnasol |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | Amherthnasol |
| 7 | **Caffael** | Amherthnasol |
| 8 | **Sgriwtini** | Amherthnasol |
| 8 | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | Trafododd aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ofynion canllawiau diwygiedig CIPFA yn ystod gweithdy a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2018. Cynhwyswyd eu sylwadau yn y cylch gorchwyl diwygiedig. Cymeradwyodd y Pwyllgor y Cylch Gorchwyl Diwygiedig yn ei gyfarfod ar 19 Medi 2018. |

| E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

| F - Atodiadau: |
|---|

**FF – Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, Eitem Rhif 9 ar y Rhaglen, 19 Medi 2018
- Cyflwyniad Gweithdy'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, 13 Mehefin 2018
- *Audit Committees: Practical Guidance for Local Authorities and Police*, CIPFA, 2018, ar gael o www.cipfa.org.uk/publications
- *Position Statement: Audit Committees in Local Authorities and Police,* CIPFA, 2018 ar gael o www.cipfa.org.uk/publications
- *Public Sector Internal Audit Standards (PSIAS)* a'r dogfennau cefnogol *Local Government Application Note for the United Kingdom Public Sector Internal Audit Standards (LGAN)*
- Siarter Archwilio Mewnol (Medi 2017)
- Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, Adran 85 yn arbennig
- Canllawiau Statudol o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, Llywodraeth Cymru 2012
- Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014
- Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018
- *Statement on the Role of the Head of Internal Audit in Public Service Organisations*, CIPFA, 2010
- *Statement on the Role of the Chief Financial Officer in Local Government,* CIPFA, 2016
- Strategaeth Rheoli Trysorlys 2018/19
- *Treasury Management in Public Services: Code of Practice and Cross-Sectoral Guidance Notes*, CIPFA, Cyfrol 2017
- *Code of Practice on Managing the Risk of Fraud and Corruption*, CIPFA, 2014
- Cyfansoddiad Cyngor Sir Ynys Môn

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adrodd i:** | Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu<br>Pwyllgor Gwaith (29 Hydref 2018)<br>Y Cyngor Sir (30 Hydref 2018) |
| **Dyddiad:** | 19 Medi 2018 |
| **Pwnc:** | Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu - Cylch Gorchwyl wedi ei Ddiweddaru |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones, Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog S151<br>01248 752601<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor, Pennaeth Archwilio a Risg<br>01248 752611<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Mae arfer dda yn awgrymu y dylai pwyllgorau adolygu eu cylch gorchwyl o bryd i'w gilydd er mwyn sefydlu a yw'n parhau i fod briodol. Adolygodd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ei gylch gorchwyl ddiwethaf ym mis Chwefror 2015, ac fe'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Ebrill a chan y Cyngor Sir ym mis Mai 2015. Ym mis Mai 2018, fe wnaeth y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ei adolygu'n llawn a'i ddiweddaru i gymryd i ystyriaeth y newidiadau deddfwriaethol a datblygiadau proffesiynol sydd wedi effeithio ar y sector cyhoeddus. Mae'r adroddiad hwn yn cynnig cylch gorchwyl diwygiedig llawn i'r Pwyllgor ei ystyried cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor i'w gymeradwyo. | |

## 1. Rhagarweiniad a Chefndir

1.1. Mae pwyllgorau archwilio yn elfen allweddol o lywodraethu corfforaethol ac yn chwarae rhan bwysig o ran cefnogi awdurdodau lleol. Maent yn ffynhonnell sicrwydd bwysig ynghylch trefniadau sefydliad i reoli risg, cynnal amgylchedd rheoli effeithiol ac adrodd ar berfformiad ariannol a pherfformiad arall.

1.2. I fod yn wirioneddol effeithiol, mae'r prif swyddog ariannol yn mynnu bod pwyllgor archwilio effeithiol yn darparu cefnogaeth a her. Yn ychwanegol, rôl hanfodol i'r pwyllgor archwilio yw goruchwylio'r swyddogaeth archwilio mewnol, gan helpu i sicrhau ei bod yn ddigonol ac yn effeithiol. Mae'r ddwy elfen hon bellach wedi'u hymgorffori yn Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) a'r Nodyn Cymhwysiad Llywodraeth Leol ar gyfer y Deyrnas Unedig (LGAN).

1.3. Bu nifer o ddatblygiadau arwyddocaol eraill mewn arferion llywodraethu ac archwilio ers 2015, sydd wedi amlygu pwysigrwydd y pwyllgor archwilio, gan gynnwys Cyflawni Llywodraethiant Da mewn Llywodraeth Leol: Fframwaith (CIPFA / Solace, 2016).

1.4. Mae Rhaglen Waith y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn darparu ar gyfer adolygiad rheolaidd o'i gylch gorchwyl. Roedd yr adolygiad diwethaf yn cydnabod newidiadau i'r fframwaith rheoleiddio a'r canllawiau sy'n ymwneud â phwyllgorau archwilio, yn enwedig, y rôl fwy sydd i'r pwyllgor archwilio ym mhob agwedd ar sicrwydd. Roedd hyn yn dilyn argymhelliad y Pwyllgor i'r Cyngor newid ei enw i'r

'Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu' er mwyn gwneud rôl y Pwyllgor o ran llywodraethiant a sicrwydd cyffredinol yn fwy tryloyw.

1.5. Roedd y Pwyllgor i fod i adolygu ei gylch gorchwyl yn ei gyfarfod ym mis Medi 2017. Fodd bynnag, yn y cyfarfod hwnnw a chyfarfodydd dilynol, cymeradwyodd y Pwyllgor ohirio'r adolygiad hyd nes y byddai canllawiau'r Sefydliad Siartredig Cyllid a Chyfrifeg Cyhoeddus (CIPFA) newydd yn cael eu cyhoeddi.

## 2. Canllawiau Diwygiedig

2.1. Mae arweiniad CIPFA yn cynrychioli'r arfer orau ar gyfer pwyllgorau archwilio mewn awdurdodau lleol ledled y DU. Cyhoeddodd ei ganllaw newydd ym Mai 2018, ac fe'i cylchredwyd i aelodau'r Pwyllgor ar 25 Mai 2018. Roedd yr Aelodau'n awyddus i fod yn rhan o'r adolygiad o'r cylch gorchwyl a mynychwyd gweithdy i drafod y canllawiau diweddaraf ar 13 Mehefin 2018.

2.2. Mae'r canllawiau diwygiedig yn diweddaru swyddogaethau craidd y pwyllgor archwilio mewn perthynas â llywodraethu, rheoli risg, rheolaeth fewnol ac archwilio. Mae CIPFA hefyd wedi diweddaru rôl y pwyllgor archwilio mewn perthynas â gwrth-dwyll i adlewyrchu'r Côd Ymarfer ar Reoli'r Risg o Dwyll a Llygredd.

2.3. Mae'r canllawiau yn parhau i gynnwys ffocws cryf ar y ffactorau sy'n cefnogi gwelliant. Mae'r rhain yn cynnwys y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar aelodau'r pwyllgor archwilio ac yn canolbwyntio ar ble mae'r pwyllgor archwilio yn ychwanegu gwerth. Mae hefyd yn darparu cefnogaeth ymarferol i werthuso effeithiolrwydd pwyllgorau ac i gynllunio gwelliannau.

2.4. Mae'r canllawiau wedi eu hymgorffori yn y cylch gorchwyl yn bennaf, ac eithrio'r gofyniad i'r cyngor llawn gymeradwyo penodi aelodau lleyg. Roedd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 yn pryderu y byddai oedi o ran cymeradwyo aelodau lleyg yn golygu y byddai'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu hefyd yn cael ei ohirio, a allai achosi problemau o ran cymeradwyo'r datganiad cyfrifon drafft erbyn y dyddiad cau. Felly, mae'r gofyniad blaenorol ar gyfer sicrhau cymeradwyaeth aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn parhau.

## 3. Ymgynghoriad

3.1. Wrth ddatblygu'r cylch gorchwyl, cymerwyd i ystyriaeth y rheoliadau a'r canllawiau penodol sy'n briodol i'r Cyngor (a restrir yn Atodiad A ). Cynhaliwyd ymgynghoriad gyda'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151, Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) a'r Swyddog Monitro a gweddill yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth. Ymgynghorwyd â'r ddau aelod lleyg, Mr Dilwyn Evans a Mr Jonathan Mendoza hefyd. Cafwyd sylwadau defnyddiol gan yr holl ymgynghoreion.

## 4. Argymhelliad

4.1. Bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ystyried y cylch gorchwyl drafft ac yn gwneud unrhyw sylwadau cyn i'r telerau diwygiedig gael eu hargymell gan y Pwyllgor Gwaith ar 29 Hydref 2018 i'w mabwysiadu gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 30 Hydref 2018.

# Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu

## Cylch Gorchwyl Drafft

### Medi 2018

## Datganiad o bwrpas

1. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn elfen allweddol o lywodraethiant corfforaethol y Cyngor. Mae'n darparu ffocws annibynnol a lefel uchel ar y trefniadau archwilio, sicrwydd ac adrodd sy'n sail i lywodraethiant a safonau ariannol da.

2. Pwrpas y pwyllgor archwilio yw darparu sicrwydd annibynnol i aelodau'r Cyngor llawn (*'y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu'*) o ddigonolrwydd y fframwaith rheoli risg, yr amgylchedd rheolaeth fewnol a chywirdeb y prosesau adrodd ariannol a llywodraethiant. Mae'n goruchwylio archwiliad mewnol ac allanol a rheoleiddwyr eraill, gan helpu i sicrhau bod trefniadau sicrwydd effeithiol yn eu lle.

3. Mae gwahaniad clir rhwng rôl y Pwyllgor Archwilio a phwyllgorau sgriwtini. Fel rhan o rôl y pwyllgor archwilio, mae'n ceisio sicrwydd bod rheolaethau mewnol y cyngor yn gweithio ac yn rheoli risgiau'n effeithiol, yn hytrach na chraffu gweithgareddau.

## Cyfansoddiad a threfniadau

4. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn gorff anweithredol a sefydlwyd dan ofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ac mae'n bwyllgor cwbl gyfansoddiadol o'r Cyngor sy'n gweithredu ar lefel strategol. Bydd y pwyllgor yn arwain ei fusnes yn anwleidyddol ac mae'n rhaid iddo gydymffurfio â'r rheolau sy'n ymwneud â chydbwysedd gwleidyddol, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

5. Bydd y pwyllgor yn cynnwys wyth aelod etholedig a dau aelod lleyg. Bydd cydbwysedd gwleidyddol o ran yr aelodau etholedig ac ni fyddant yn aelodau o'r pwyllgor gwaith, ond mae'n ofynnol i'r Aelod Portffolio Cyllid, i'r graddau y mae hynny'n bosibl, fynychu holl gyfarfodydd y Pwyllgor. Bydd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn argymell penodi'r ddau aelod lleyg i'r pwyllgor archwilio. Bydd yr aelodau lleyg yn gwasanaethu am gyfnod penodol i gyd-fynd â hyd tymor y Cyngor, h.y. pum mlynedd, a byddant yn gwasanaethu am ddau dymor. Mae'r holl aelodau, gan gynnwys aelodau lleyg, yn ddarostyngedig i Gôd Ymddygiad y Cyngor a byddant yn datgan unrhyw fuddiannau. Bydd gan yr aelodau lleyg statws cyfartal â'r aelodau etholedig o ran mynediad i staff a gwybodaeth, at ddibenion y pwyllgor archwilio.

6. Gall cadeirydd y pwyllgor archwilio fod yn gynghorydd neu'n aelod lleyg, ond ni chaiff fod yn aelod o grŵp sy'n ffurfio rhan o bwyllgor gwaith y cyngor, ac eithrio pan fo pob grŵp yn cael ei gynrychioli ar y pwyllgor gwaith (ac yn yr achos hwnnw, ni ddylai'r cadeirydd fod yn aelod o'r pwyllgor gwaith). Bydd aelodau'r pwyllgor yn penderfynu ar gadeirydd ac is-gadeirydd y pwyllgor. Bydd gan bob aelod o'r pwyllgor, gan gynnwys aelodau lleyg, bleidlais.

7. Rhaid i unrhyw swyddog neu aelod sy'n cael cais i fynychu cyfarfod pwyllgor archwilio wneud hynny. Rhaid iddynt ateb unrhyw gwestiynau a ofynnir iddynt, ac eithrio rhai y gallent wrthod eu hateb os oeddent yn y llys. Gall y pwyllgor wahodd eraill i fynychu, ond nid oes unrhyw reidrwydd ar unrhyw berson arall a wahoddir i fynychu i wneud hynny.

8. Bydd y pwyllgor yn cwrdd o leiaf bedair gwaith y flwyddyn a rhaid iddo gwrdd os yw'r cyngor llawn yn penderfynu bod angen, neu os yw o leiaf draean o aelodau'r pwyllgor yn gofyn i'r Cadeirydd gynnal cyfarfod. Bydd y cyngor yn cyhoeddi dyddiadau'r pwyllgor yn flynyddol ond gellir trefnu cyfarfodydd ychwanegol yn ôl disgresiwn y Cadeirydd os rhoddir y nifer o ddyddiau angenrheidiol a bod yr agenda yn cael ei chyhoeddi cyn y cyfarfod, yn unol â'r rheoliadau.

9. Bydd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a’r Swyddog Adran 151, fel y swyddog sy'n gyfrifol am weinyddiaeth ariannol, yn cynghori'r pwyllgor. Bydd y Pwyllgor yn darparu cefnogaeth effeithiol i’r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a’r Swyddog Adran 151 a fydd, o ganlyniad, yn cael mynediad uniongyrchol a dirwystr i'r pwyllgor.

10. Gall y pwyllgor gomisiynu gwaith gan yr archwilwyr allanol a mewnol a bydd y ddau yn cynghori'r Pwyllgor. Yn ogystal, gall y Pwyllgor geisio cyngor annibynnol o’r tu allan i'r Cyngor, o fewn y gyllideb a gymeradwywyd.

11. Mae gan archwilwyr allanol a mewnol y Cyngor yr hawl i ofyn i gadeirydd y pwyllgor ystyried unrhyw fater y dylid, ym marn yr archwilwyr, ei ddwyn at sylw'r Cyngor.

12. Bydd pob aelod newydd yn derbyn cyflwyniad llawn i'r pwyllgor. Bydd gan aelodau ddisgrifiadau rôl a byddant yn adolygu eu gwybodaeth a'u sgiliau trwy broses hunanasesu. Byddant yn derbyn hyfforddiant parhaus priodol yn eu rôl yn unol â rhaglen hyfforddi flynyddol a byddant yn derbyn sesiynau briffio rheolaidd ar ddeddfwriaeth newydd, canllawiau proffesiynol ac ymchwil.

## Trefniadau atebolrwydd

13. Bydd y pwyllgor yn adrodd yn ôl i'r cyngor llawn *('y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu')* yn flynyddol, ganfyddiadau'r pwyllgor archwilio, casgliadau ac argymhellion ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd fframweithiau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol y Cyngor; trefniadau adrodd ariannol, a swyddogaethau archwilio mewnol ac allanol.

14. Bydd y pwyllgor yn adrodd i'r cyngor llawn *('y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu')* yn flynyddol ar effeithiolrwydd y pwyllgor wrth gyflawni ei bwrpas a'i gylch gorchwyl cytunedig. Bydd hunanasesiad rheolaidd yn cael ei ddefnyddio i gefnogi cynllunio rhaglen waith y pwyllgor archwilio a chynlluniau hyfforddi a bydd yn llywio adroddiad blynyddol y pwyllgor.

15. Mae'r pwyllgor yn ddarostyngedig i drefniadau arferol sy'n ymwneud â bod yn agored. Cynhelir cyfarfodydd yn gyhoeddus, cyhoeddir rhaglenni ac adroddiadau ac maent ar gael i'w harchwilio. Yr eithriad i hyn yw lle mae 'eitemau eithriedig' yn cael eu hystyried, sef materion sydd yn bennaf yn cynnwys trafodaethau ynghylch unigolion a enwir neu sy'n cyfeirio at faterion busnes y Cyngor a allai niweidio buddiannau'r Cyngor yn fasnachol, yn ariannol ac yn gyfreithlon.

## Llywodraethu

16. Bydd y pwyllgor yn adolygu ac yn asesu trefniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor yn erbyn y fframwaith llywodraethiant da[1], gan gynnwys y fframwaith moesegol, a bydd yn ystyried y côd llywodraethu lleol.

17. Bydd y pwyllgor yn adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (AGS) cyn gofyn am gymeradwyaeth y cyngor llawn ac yn ystyried a yw'n briodol adlewyrchu'r amgylchedd risg a'r sicrwydd ategol, gan ystyried barn y gwasanaeth archwilio mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y cyngor.

18. Bydd y pwyllgor yn helpu'r cyngor i weithredu gwerthoedd llywodraethu moesegol. Bydd yn hyrwyddo mesurau i wella tryloywder ac atebolrwydd ac adroddiadau cyhoeddus effeithiol i randdeiliaid yr awdurdod a'r gymuned leol. Fel rhan o'i adolygiad o drefniadau llywodraethu, bydd yn sicrhau bod trefniadau digonol ar waith i orfodi ymrwymiad cryf i werthoedd moesol a chydymffurfiad cyfreithiol ar bob lefel.

19. Bydd y pwyllgor yn adolygu'r trefniadau llywodraethu a sicrwydd sydd ar gael ar gyfer partneriaethau neu drefniadau cydweithio o bwys.

## Rheoli Trysorlys

20. Mae'r cyngor llawn wedi enwebu'r pwyllgor archwilio i fod yn gyfrifol am sicrhau craffu effeithiol ar strategaeth a pholisïau rheoli trysorlys.

21. Bydd y pwyllgor yn ymgymryd â rôl archwilio yn unol â Chod Ymarfer Rheoli Trysorlys CIPFA, cyn ei gymeradwyo gan y cyngor llawn. Lle mae'n ymgymryd â'r rôl graffu hon, bydd yn ymdrechu i ddatblygu mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o faterion trysorlys ymhlith yr aelodau.

22. Bydd y pwyllgor yn adolygu'r polisi a'r gweithdrefnau rheoli trysorlys er mwyn bodloni ei hun fod y rheolaethau'n foddhaol. Bydd yn derbyn adroddiadau bob

[1] Cyflawni Llywodraethiant Da mewn Llywodraeth Leol: Fframwaith, CIPFA / SOLACE, 2016

chwe mis ar weithgareddau, materion a thueddiadau i gefnogi dealltwriaeth y pwyllgor o weithgareddau rheoli trysorlys.

23. Bydd y pwyllgor yn adolygu proffil a phrosesau risg y trysorlys, a bydd yn adolygu’r sicrwydd a roddir ynghylch rheoli trysorlys.

## Gwerth am arian

24. Bydd y pwyllgor yn cefnogi datblygu trefniadau cadarn i sicrhau bod y cyngor yn gwneud y defnydd gorau o'i adnoddau a bod trethdalwyr a defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn gwerth rhagorol am arian.

25. Bydd y pwyllgor yn adolygu ymagwedd gyffredinol y cyngor tuag at werth am arian ac yn asesu a yw'n cyd-fynd ag amcanion llywodraethu a'r sicrwydd ynghylch hyn i ategu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

26. Bydd y pwyllgor yn ystyried sicrwydd ac asesiadau ar effeithiolrwydd y trefniadau hyn, yn enwedig adroddiadau gwella blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru.

## Fframwaith sicrwydd

27. Bydd y pwyllgor yn ystyried fframwaith sicrwydd y cyngor ac yn sicrhau ei fod yn mynd i'r afael â risgiau a blaenoriaethau'r cyngor yn ddigonol. Bydd hyn yn gymorth i gefnogi’r pwyllgor wrth iddo gymeradwyo’r cynllun archwilio mewnol sy'n seiliedig ar risg trwy nodi i ba raddau y bydd yn dibynnu ar archwiliad mewnol am ei ofynion sicrwydd.

28. Bydd y pwyllgor yn sicrhau bod eglurder ynghylch y sicrwydd a ddarperir, bod cyfrifoldeb yn cael ei ddyrannu’n glir ar gyfer darparu sicrwydd ac osgoi dyblygu.

## Rheoli risg

29. Bydd sicrwydd dros reoli risg yn elfen allweddol sy'n sail i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. I'r perwyl hwn, bydd y pwyllgor yn adolygu ac yn asesu datblygiad a gweithrediad rheolaeth risg effeithiol yn y cyngor. Yn benodol, bydd yn:

    - Goruchwylio polisi a strategaeth rheoli risg yr awdurdod, a'u gweithredu'n ymarferol
    - Goruchwylio’r modd y caiff rheoli risg ei integreiddio i brosesau llywodraethu a gwneud penderfyniadau'r sefydliad
    - Adolygu'r trefniadau i gydlynu a rheoli risgiau, gan gynnwys y broses a'r llinellau adrodd

- Adolygu'r proffil risg, cadw i fyny â meysydd sylweddol o risgiau strategol a risgiau gweithredol a phrosiectau mawr
- Adolygu'r sicrwydd sydd ar gael ar gyfer rheoli risgiau partneriaeth, gan gynnwys proffil risg y Cyngor fel rhan o'r bartneriaeth
- Adolygu'r gofrestr risg gorfforaethol a cheisio sicrwydd bod y rheolwyr yn cymryd perchenogaeth briodol ac yn rheoli risgiau yn effeithiol
- Mofyn sicrwydd bod asesiadau risg digonol yn cefnogi strategaethau a pholisïau a bod risgiau yn cael eu rheoli a'u monitro'n weithredol.
- Dilyn i fyny a monitro risgiau a nodwyd gan archwilwyr ac arolygwyr i sicrhau eu bod wedi'u hintegreiddio i'r broses rheoli risg
- Cefnogi datblygiad ac ymgorffori arferion da yn y maes rheoli risg.

## Mynd i'r afael â thwyll a llygredd

30. Bydd y pwyllgor yn adolygu effeithiolrwydd trefniadau chwythu chwiban y cyngor, gan gynnwys y polisi.
31. Bydd y pwyllgor yn monitro'r strategaeth, y camau gweithredu a'r adnoddau gwrth-dwyll a llygredd, er mwyn sicrhau eu bod yn cwrdd â’r arferion, y safonau llywodraethu a ddeddfwriaeth a argymhellir.
32. Bydd y pwyllgor yn adolygu'r asesiad o risgiau twyll a niwed posibl i'r cyngor yn sgil twyll a llygredd. Bydd yn adolygu'r proffil risg twyll er mwyn deall lefel y risg o dwyll y mae'r awdurdod yn agored iddo a'r goblygiadau i'r amgylchedd rheoli ehangach.
33. Bydd yn goruchwylio unrhyw feysydd sylweddol o dwyll, a nodir mewn adroddiad blynyddol gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a’r Swyddog Adran 151, ac yn monitro cynlluniau gweithredu i fynd i'r afael â gwendidau rheoli.

## Archwiliad mewnol

34. Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, mae gofyniad penodol i'r pwyllgor archwilio oruchwylio trefniadau archwilio mewnol y cyngor.
35. Rôl y pwyllgor archwilio mewn perthynas ag archwilio mewnol fydd:
    - goruchwylio ei annibyniaeth, gwrthrychedd, perfformiad a phroffesiynoldeb
    - cefnogi effeithiolrwydd y broses archwilio fewnol
    - hyrwyddo defnydd effeithiol o archwiliad mewnol o fewn y fframwaith sicrwydd.

36. Bydd y pwyllgor yn adolygu ac yn cymeradwyo'r siarter archwilio mewnol, sy'n diffinio pwrpas, awdurdod a chyfrifoldeb y gweithgaredd archwilio mewnol.

37. Os yw'n berthnasol, bydd yn adolygu cynigion ac yn gwneud argymhellion mewn perthynas â phenodi darparwyr allanol a all ddarparu gwasanaethau archwilio mewnol.

38. Bydd y pwyllgor yn cymeradwyo (ond ddim yn rheoli) y strategaeth archwilio fewnol sy'n seiliedig ar risg, gan gynnwys anghenion archwilio mewnol o ran adnoddau a'r defnydd o ffynonellau sicrwydd eraill. Bydd ganddo ddealltwriaeth dda o'r lefel o sicrwydd y mae rheoli risg yn ei ddarparu pan fydd yn adolygu'r strategaeth archwilio mewnol sy'n seiliedig ar risg. Bydd y pwyllgor yn cymeradwyo newidiadau interim sylweddol i'r strategaeth.

39. Bydd y pwyllgor yn gwneud ymholiadau priodol i reolwyr a'r pennaeth archwilio mewnol i benderfynu a oes unrhyw sgôp amhriodol neu gyfyngiadau o ran adnoddau.

40. Bydd y pwyllgor yn ystyried adroddiad blynyddol gan y pennaeth archwilio mewnol ar berfformiad y swyddogaeth archwilio mewnol, gan gynnwys perfformiad darparwyr allanol gwasanaethau archwilio mewnol.

41. Bydd y pwyllgor yn ystyried adroddiad blynyddol y pennaeth archwilio mewnol a'r farn ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y cyngor ynghyd â chrynodeb o'r gwaith sy'n cefnogi'r farn. Bydd y rhain yn cynorthwyo'r pwyllgor wrth iddo adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

42. Bydd y pwyllgor yn ystyried y datganiad yn yr adroddiad blynyddol ar lefel y gydymffurfiaeth â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a chanlyniadau'r Rhaglen Sicrhau Ansawdd a Gwella sy'n cefnogi'r datganiad - bydd y rhain yn nodi dibynadwyedd casgliadau'r archwilwyr mewnol.

43. Bydd y pwyllgor yn ystyried diweddariadau ar waith archwilio mewnol gan gynnwys canfyddiadau allweddol, materion sy'n peri pryder, ymatebion gan reolwyr a chamau gweithredu o ganlyniad i waith archwilio mewnol. Bydd yn ystyried crynodebau o adroddiadau archwilio mewnol penodol fel y gofynnir amdanynt, gan gynnwys effeithiolrwydd rheolaethau mewnol a bydd yn monitro gweithrediad y camau gweithredu y cytunwyd arnynt.

44. Bydd y pwyllgor yn derbyn adroddiadau yn amlinellu'r camau a gymerwyd lle mae'r pennaeth archwilio mewnol wedi dod i'r casgliad bod y rheolwyr wedi derbyn risg ar lefel a allai fod yn annerbyniol i'r awdurdod neu fod pryderon ynghylch cynnydd o ran gweithredu'r camau y cytunwyd arnynt.

45. Bydd y pwyllgor yn ystyried adroddiadau ar achosion lle nad yw'r swyddogaeth archwilio mewnol yn cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a'r Nodyn Cymhwysiad Llywodraeth Leol, gan ystyried a yw'r diffyg

cydymffurfiaeth yn ddigon arwyddocaol fel bod rhaid ei gynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

46. Bydd y pwyllgor yn ystyried, yn cymeradwyo ac, yn achlysurol, yn adolygu unrhyw ddulliau diogelu sydd wedi cael eu sefydlu i gyfyngu ar rwystrau i annibyniaeth a gwrthrychedd sydd gan y pennaeth archwilio mewnol yn deillio o rolau neu gyfrifoldebau ychwanegol sydd y tu allan i'r maes archwilio mewnol.

47. Bydd y pwyllgor yn cyfrannu at y Rhaglen Sicrhau Ansawdd a Gwella ac, yn benodol, at yr asesiad ansawdd allanol o archwiliad mewnol sy'n digwydd o leiaf unwaith bob pum mlynedd. Bydd yn goruchwylio cymwysterau ac annibyniaeth yr asesydd.

48. Bydd y pwyllgor yn ystyried adroddiad ar effeithiolrwydd archwiliad mewnol i gefnogi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, lle bo angen gwneud hynny yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

49. Bydd y pwyllgor yn cefnogi datblygiad dulliau cyfathrebu effeithiol â'r pennaeth archwilio mewnol. Mae'r ymgysylltiad rhwng y pennaeth archwilio mewnol a'r pwyllgor archwilio yn elfen hanfodol o ddarparu gwasanaeth archwilio mewnol effeithiol.

50. Bydd y pwyllgor yn darparu mynediad rhydd a cwbl ddirwystr i gadeirydd y pwyllgor archwilio ar gyfer y pennaeth archwilio mewnol, gan gynnwys y cyfle i gyfarfod yn breifat gyda'r pwyllgor.

## Archwiliad allanol

51. Bydd y pwyllgor yn cefnogi annibyniaeth a gwrthrychedd archwiliad allanol trwy ystyried asesiad blynyddol yr archwilydd annibynnol o'i annibyniaeth.

52. Bydd y pwyllgor yn ystyried llythyr blynyddol yr archwilydd allanol a'r adroddiad i'r *'rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu'*. Bydd yn cyfrannu at ymateb y cyngor i'r llythyr archwilio blynyddol.

53. Bydd y pwyllgor yn goruchwylio trefniadau archwilio allanol, yn rhoi sylwadau ar sgôp a dyfnder y gwaith archwilio allanol ac yn sicrhau ei fod yn rhoi gwerth am arian. Bydd yn ystyried adroddiadau archwilio allanol a bydd yn monitro eu hargymhellion.

54. Bydd y pwyllgor yn cynghori ac yn argymell effeithiolrwydd y berthynas rhwng archwiliadau allanol a mewnol ac asiantaethau arolygu eraill neu gyrff perthnasol.

55. Bydd cyfle i'r pwyllgor archwilio gwrdd yn breifat ac ar wahân gyda'r archwiliwr allanol, yn annibynnol o'r swyddogion hynny y mae'n rhaid i'r archwilydd gynnal perthynas waith â hwy.

## Adrodd ariannol

56. Bydd y pwyllgor yn adolygu ac yn craffu ar faterion ariannol y cyngor, gan wneud adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â hwy.

57. Bydd y pwyllgor yn adolygu, cyn iddynt gael eu cymeradwyo gan y cyngor llawn, ddatganiadau ariannol blynyddol yr awdurdod, gan gynnwys y rhagair esboniadol, negeseuon allweddol, tueddiadau, cysondeb â pherfformiad ariannol, addasrwydd a chydymffurfiaeth â pholisïau a thriniaethau cyfrifyddu a meysydd dyfarnu pwysig.

58. Bydd y pwyllgor yn ystyried adroddiad yr archwilydd allanol i'r 'rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu' ar faterion sy'n deillio o'r archwiliad o'r cyfrifon ac a oes angen eu dwyn i sylw'r cyngor ai peidio.

## Rheoleiddwyr ac arolygwyr eraill

59. Bydd y pwyllgor yn derbyn ac yn ystyried adroddiadau gan unrhyw reoleiddwyr neu arolygwyr eraill, a fydd yn ffynhonnell sicrwydd ddefnyddiol. O ran y rhain, bydd yr awdurdod yn sicrhau nad oes unrhyw ddyblygu diangen rhwng y pwyllgor archwilio ac unrhyw bwyllgor trosolwg a sgriwtini wrth ystyried adroddiadau o'r fath.

## Atodiad A – Adroddiadau, Rheoliadau a Pholisïau a Ystyriwyd

- Cyflwyniad i'r Gweithdy Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, 13 Mehefin 2018
- *Pwyllgorau Archwilio: Canllawiau Ymarferol ar gyfer Awdurdodau Lleol a'r Heddlu*, CIPFA, 2018, ar gael o www.cipfa.org.uk/publications
- *Datganiad Sefyllfa: Pwyllgorau Archwilio mewn Awdurdodau Lleol a'r Heddlu* , CIPFA, 2018, ar gael o www.cipfa.org.uk/publications
- *Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus* (PSIAS) a'r *Nodyn Cymhwysiads Llywodraeth Leol* ategol ar gyfer Safonau Archwilio Mewnol Sector Cyhoeddus y Deyrnas Unedig (LGAN)
- Siarter Archwilio Mewnol (Medi 2017)
- Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, yn benodol, Adran 85
- Canllawiau Statudol o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, Llywodraeth Cymru, 2012
- Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014
- Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygiad) 2018
- *Datganiad ar Rôl y Pennaeth Archwilio Mewnol mewn Sefydliadau Gwasanaethau Cyhoeddus*, CIPFA, 2010
- *Datganiad ar Rôl y Prif Swyddog Ariannol mewn Llywodraeth Leol*, CIPFA, 2016
- Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2018/19
- *Rheoli Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus: Côdd Ymarfer a Nodiadau Cyfarwyddyd Traws-Sectoraidd* , CIPFA, Argraffiad 2017
- *Côd Ymarfer ar Reoli'r Risg o Dwyll a Llygredd* , CIPFA, 2014
- Cyfansoddiad Cyngor Sir Ynys Môn

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH A'R CYNGOR LLAWN** |
| **Dyddiad:** | **29.10/2018 / 11.12.2018** |
| **Pwnc:** | **NEWIDIADAU I'R CYFANSODDIAD – DIWYGIAD I'R CÔD YMDDYGIAD I SWYDDOGION A'R CANLLAWIAU AR Y CÔD YMDDYGIAD I SWYDDOGION** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD DAFYDD RHYS THOMAS** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **LYNN BALL – PENNAETH GWASANAETH (BUSNES Y CYNGOR) / SWYDDOG MONITRO** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **MARED WYN YAXLEY – CYFREITHIWR (LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL)**<br>**Est 2566**<br>**mwycs@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **AMHERTHNASOL – MAE'N EFFEITHIO AR BOB AELOD** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

1. Fod y Cyngor yn:

1.1 Mabwysiadu'r Côd Ymddygiad i Swyddogion yn **Atodiad 2**;

1.2 Mabwysiadu'r Canllawiau Lleol ar y Côd Ymddygiad i Swyddogion yn **Atodiad 3**;

1.3 Awdurdodi'r Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro i wneud y newidiadau angenrheidiol i'r Cyfansoddiad, yn cynnwys unrhyw newidiadau dilynol, er mwyn adlewyrchu'r ffaith fod **Atodiadau 2 a 3** wedi cael eu mabwysiadu.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Fel rhan o'r Adroddiad Archwilio Mewnol ar Ddiwylliant Foesegol, gwnaed argymhellion mewn perthynas â'r Côd Ymddygiad i Swyddogion. Mae rhan berthnasol yr Adroddiad hwnnw wedi'i gynnwys yn **Atodiad 1**. O ganlyniad i'r sylwadau hynny, diwygiwyd y Côd Ymddygiad a'r Canllawiau presennol.

Diwygiwyd y Côd Ymddygiad ei hun yn unol â deddfwriaeth. Mân newidiadau ydynt ac fe'u hamlygir yn **Atodiad 2**.

Diweddarwyd y Canllawiau er mwyn eu gwneud yn haws eu defnyddio, yn ogystal ag ymgorffori'r gofynion deddfwriaethol newydd. Mae'r Canllawiau yn seiliedig ar Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol Côd Ymddygiad i Weithwyr y Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae **Atodiad 3** yn cynnwys copi o'r Canllawiau newydd. Ni amlygwyd y newidiadau i'r ddogfen wreiddiol gan fod newidiadau sylweddol wedi'u gwneud i'r Canllawiau.

Cylchredwyd y Côd Ymddygiad a'r Canllawiau i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, y Penaethiaid Gwasanaeth a'r Pennaeth Archwilio a Risg er mwyn ymgynghori â nhw. Diwygiwyd y Canllawiau gwreiddiol er mwyn ymgorffori'r sylwadau a wnaed yn ystod yr ymgynghoriad hwnnw. Yn gyffredinol derbyniwyd adborth cadarnhaol i'r broses ymgynghori ac roedd y swyddogion yn croesawu'r Canllawiau newydd.

Mae gan y Cyngor yr opsiwn o wrthod mabwysiadu'r dogfennau diwygiedig yn **Atodiadau 2 a 3**, ond byddai mabwysiadu'r dogfennau diwygiedig yn datrys rhai o'r pryderon a godwyd yn yr Adroddiad Archwilio ar Ddiwylliant Moesegol yn **Atodiad 1**.

Y bwriad, os bydd y Cyngor yn cymeradwyo'r Côd a'r Canllawiau, yw eu cyhoeddi ar Borth Polisi'r Cyngor. Bydd y Côd a'r Canllawiau yn cael eu cynnwys yn y drefn "Derbyn Polisïau Corfforaethol" lle mae'n ofynnol i swyddogion 'glicio i dderbyn' ac ateb cwestiynau'n gywir mewn perthynas â'r dogfennau diwygiedig. Ar hyn o bryd mae ymgynghoriad yn cael ei gynnal gyda'r Uwch Dîm Rheoli a'r Penaethiaid Gwasanaeth ynglŷn â chwestiynau'r "prawf".

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Gan fod yr adroddiad yn argymell diwygio'r Cyfansoddiad (Mae'r Côd Ymddygiad i Swyddogion wedi'i gynnwys yn adran 5.2), rhaid i'r Pwyllgor Gwaith ystyried yr adroddiad hwn cyn i'r Cyngor wneud penderfyniad terfynol. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Nid yw'n groes i Bolisïau'r Cyngor. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Nid oes goblygiadau cyllidebol. |

| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Dim sylwadau. |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Dim sylwadau. |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Adroddiad gan yr Adran Gyfreithiol/Swyddog Monitro – cefnogir y cynnig |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | Gwnaed nifer o sylwadau mewn perthynas â'r ymgynghoriad ac ymgorfforwyd yr awgrymiadau yn y ddogfen derfynol. |
| 5 | **Eiddo** | Cefnogi |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | Dim sylwadau |
| 7 | **Caffael** | Amherthnasol |
| 8 | **Sgriwtini** | Amherthnasol |
| 8 | **Aelodau Lleol** | Nid yw'r mater hwn yn ymwneud â Wardiau |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | Amherthnasol |

| E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Atodiad 1 - detholiad o'r Adroddiad Archwilio Mewnol ar Ddiwylliant Moesegol<br><br>Atodiad 2 – Côd Ymddygiad Swyddogion drafft<br><br>Atodiad 3 – Canllawiau drafft ar y Côd Ymddygiad Swyddogion |

| FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| Dim |

SWYDDOGOL

# Diwylliant Moesegol

## Adroddiad Archwilio Mewnol Terfynol

## Medi 2017

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod Dibriffio | Dyddiadau Amrywiol - | Archwilwyr | Marion Pryor – Pennaeth Archwilio a Risg<br>Eurwen Williams – Prif Archwiliwr Mewnol |
| Dyddiad Cyhoeddi Adroddiad Drafft | 24/05/17 | | |
| Dyddiad Derbyn Sylwadau | 06/09/17 | | |
| Dyddiad Cyhoeddi'r Adroddiad Terfynol | 06/09/17 | At | Dr Gwynne Jones – Prif Weithredwr |
| | | Copïau i | Dr Caroline Turner – Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes)<br>Annwen Morgan – Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau)<br>Lynn Ball – Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) a Swyddog Monitro<br>Marc Jones – Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 1.1.5 (a) | Nid yw'r Cyngor ar hyn o bryd yn gofyn i'w swyddogion a staff asiantaeth dystio i'w dealltwriaeth o'r Côd Ymddygiad a'u cydymffurfiaeth ag ef. Yn ogystal, nid yw'r Rhestr Wirio ar gyfer Sesiynau Cynefino'r Gwasanaethau yn nodi'r angen i godi ymwybyddiaeth ynghylch hyn.<br>Mae risg na fydd Swyddogion:<br>• yn ymwybodol o safon yr ymddygiad moesegol y mae'r Cyngor yn dymuno ei sicrhau<br>• yn datgan diddordebau personol newydd (a rhai cyfredol) a all wrthdaro â'u dyletswyddau cyhoeddus ac o'r herwydd ni fydd rheolwyr yn sefydlu trefniadau effeithiol ar gyfer sicrhau nad oes cyswllt rhwng y gwaith a wneir gan yr aelod staff penodol a'r diddordeb/cyswllt y maent wedi ei nodi ac<br>• na fyddant yn cofrestru unrhyw roddion neu letygarwch y maent wedi eu derbyn mewn perthynas â'u gwaith fel swyddogion y Cyngor. | **C4** | Bydd hyn yn cael ei drafod gan yr UDA mewn ymgynghoriad gyda'r Pennaeth Swyddogaeth [AD] a threfniadau priodol yn cael eu gweithredu i roi sylw i'r materion a nodwyd. | Medi 2018 | Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) a'r Swyddog Monitro a'r Pennaeth Proffesiwn – Adnoddau Dynol |

# Cyngor Sir Ynys Môn

# Côd Ymddygiad i Swyddogion

# Fersiwn ~~2~~3.0 (Gorffennaf ~~2001~~2018)

**Am y Côd Ymddygiad hwn**

- Nodwch os gwelwch yn dda fod y rhifo yn y Côd yn adlewyrchu'r ffaith ei fod ar gael hefyd yng Nghyfansoddiad y Cyngor. Mae'r ddogfen fel yr ymddengys yma yn gyflawn a gellir dibynnu arni
- Mae'r Côd hwn yn ~~statudol a g~~orfodol ac yn cynnwys gofynion sy'n statudol.
- Mae'r Côd yn berthnasol, yn awtomatig i holl weithwyr Cyngor Sir Ynys Môn ac mae'n rhan o'n telerau ac amodau cyflogaeth
- Mae'r Côd hwn hefyd yn berthnasol i'r holl gontractwyr, ~~a'r holl~~ staff asiantaeth, gweithwyr sy'n cael eu secondio, gweithwyr dros dro a gwirfoddolwyr
- Pwrpas y Côd yw nodi'r lefel ymddygiad gofynnol a ddisgwylir
- Mae ffocws y Côd ar egwyddorion cyffredinol, fel gonestrwydd a gwrthrychedd
- Mae canllawiau lleol ar gael sy'n rhoi gwybodaeth fanylach am faterion fel datganiadau o ddiddordeb a rhoddion a lletygarwch lle nad oes manylion digonol yn y Côd
- Dylid cael cyngor, gan y Swyddog Monitro, ar unrhyw faterion neu bryderon penodol sydd heb eu cynnwys yn y Côd neu'r canllawiau lleol

**Hanes Diwygio**

| Fersiwn | Dyddiad | Crynodeb o'r newidiadau |
|---|---|---|
| 2.0 | Gorffennaf 2001 | Côd statudol wedi disodli côd gwirfoddol lleol. Ni fu newid yn yr egwyddorion a'r disgwyliadau cyffredinol. |
| 3.0 | Gorffennaf 2018 | Ychwanegu cyfeiriad at Ddeddf Llwgrwobrwyo 2010 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 |

| Dyddiad yr adolygiad nesaf | |
|---|---|
| Adolygir y polisi hwn yn : | Os bydd newid statudol |
| Cynhelir yr adolygiad gan: | Swyddog Monitro |

**Manylion Cyswllt:**

**Lynn Ball, Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro**
**lynnball@ynysmon.gov.uk / ffôn: 01248 752586**

Byddwn yn falch o ddarparu'r polisi hwn ar ffurf arall ar gais. Defnyddiwch y manylion cyswllt uchod os gwelwch yn dda.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Saesneg.

This document is available in English.

CC-18150-LB/~~329275~~457645

## Côd Ymddygiad Gweithwyr

### 5.2 Côd Ymddygiad ar gyfer Gweithwyr Cymwys Awdurdodau Perthnasol Yng Nghymru

**Y Côd (yn unol â'r Gorchymyn Côd Ymddygiad (Gweithwyr Llywodraeth Leol Cymwys) (Cymru 2001)**

**Egwyddorion Cyffredinol**

5.2.1 Mae gan y cyhoedd hawl i ddisgwyl y safonau ymddygiad uchaf gan bob gweithiwr cymwys yn yr awdurdodau perthnasol. Rôl gweithwyr o'r fath yw gwasanaethu'r awdurdod sy'n eu cyflogi wrth iddo roi cyngor, rhoi ei bolisïau ar waith a chyflwyno gwasanaethau i'r gymuned leol. Wrth gyflawni eu dyletswyddau, rhaid iddynt weithredu yn union, yn onest, yn ddiduedd ac yn wrthrychol.

**Atebolrwydd**

5.2.2 Mae gweithwyr cymwys yr awdurdodau perthnasol yn gweithio i'r awdurdod sy'n eu cyflogi ac yn gwasanaethu'r cyfan o'r awdurdod hwnnw. Maent yn atebol i'r awdurdod hwnnw ac mae arnynt ddyletswydd tuag ato. Rhaid iddynt weithredu yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Côd hwn, gan gydnabod dyletswydd holl weithwyr y sector cyhoeddus i gyflawni swyddogaethau cyhoeddus yn rhesymol ac yn unol â'r gyfraith.

**Amhleidioldeb Gwleidyddol**

5.2.3 Rhaid i weithwyr cymwys yr awdurdodau perthnasol, p'un a ydynt o dan gyfyngiad gwleidyddol neu beidio, ddilyn holl bolisïau'r awdurdod sydd wedi'u mynegi'n gyfreithlon a rhaid iddynt beidio â chaniatáu i'w barn bersonol neu wleidyddol hwy eu hunain ymyrryd â'u gwaith. Os yw'r gweithwyr cymwys o dan gyfyngiad gwleidyddol (oherwydd y swydd sydd ganddynt, natur y gwaith a wnânt, neu'r cyflog a delir iddynt), rhaid iddynt gydymffurfio ag unrhyw gyfyngiadau statudol ar eu gweithgareddau gwleidyddol.

**Cysylltiadau ag aelodau, y cyhoedd a gweithwyr eraill**

5.2.4 Mae cyd-barch rhwng gweithwyr cymwys ac Aelodau yn hanfodol ar gyfer llywodraeth leol dda, a dylai'r cyswllt gwaith gael ei gadw ar sail broffesiynol.

5.2.5 Dylai gweithwyr cymwys yr awdurdodau perthnasol ymdrin â'r cyhoedd, Aelodau a gweithwyr eraill gyda chydymdeimlad, yn effeithlon ac yn ddiduedd.

**Cydraddoldeb**

5.2.6 Rhaid i weithwyr cymwys yr awdurdodau perthnasol gydymffurfio â pholisïau sy'n ymwneud â materion cydraddoldeb, fel y cytuna'r awdurdod arnynt, yn ychwanegol at ofynion y gyfraith.

**Stiwardiaeth**

5.2.7 Rhaid i weithwyr cymwys yr awdurdodau perthnasol sicrhau eu bod yn defnyddio'r cronfeydd cyhoeddus a ymddiriedir iddynt mewn modd cyfrifol a chyfreithlon, a rhaid iddynt beidio â defnyddio eiddo, cerbydau na chyfleusterau eraill yr awdurdod at ddibenion personol oni bai eu bod wedi'u hawdurdodi i wneud hynny.

**Diddordebau Personol**

5.2.8 Er mai mater iddynt hwy yn unig yw bywyd preifat gweithwyr cymwys, rhaid iddynt beidio â chaniatáu i'w diddordebau preifat wrthdaro â'u dyletswydd gyhoeddus. Rhaid

iddynt beidio â chamddefnyddio'u safle swyddogol na gwybodaeth a sicrheir yng nghwrs eu cyflogaeth i hybu eu diddordebau preifat, na diddordebau pobl eraill. Yn benodol, rhaid iddynt gydymffurfio â'r canlynol:

5.2.8.1 unrhyw reolau sydd gan eu hawdurdod perthnasol bod rhaid i weithwyr gofrestru a datgan diddordebau ariannol a diddordebau anariannol,

5.2.8.2 unrhyw reolau sydd gan eu hawdurdod perthnasol bod rhaid i weithwyr ddatgan lletygarwch neu roddion a gynigiodd neu a roes unrhyw berson neu gorff sy'n gwneud busnes neu'n ceisio gwneud busnes gyda'r awdurdod iddynt, neu sy'n manteisio neu'n ceisio manteisio mewn modd arall o gael perthynas â'r awdurdod. Rhaid i weithwyr cymwys beidio â derbyn buddion trydydd parti oni bai bod eu hawdurdod perthnasol wedi'u hawdurdodi i wneud hynny.

**Rhannu pryderon**

5.2.9 Os digwydd bod gweithiwr cymwys yn dod i wybod am weithgareddau y mae'n credu eu bod yn anghyfreithlon, yn amhriodol, yn anfoesegol neu fel arall yn anghyson â'r Côd hwn, dylai'r gweithiwr roi gwybod am y mater, gan weithredu yn unol â'i hawliau dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998, ac â gweithdrefn yr awdurdod perthnasol ar gyfer rhoi gwybod yn gyfrinachol, neu unrhyw Weithdrefn arall sydd wedi'i chynllunio i'r diben hwn.

**Ymdrin â Gwybodaeth**

5.2.10 Yr arfer yn yr awdurdodau perthnasol fydd bod yn agored wrth ledaenu gwybodaeth ac wrth wneud penderfyniadau.  Er hynny, fe all gwybodaeth benodol fod yn gyfrinachol neu'n sensitif ac felly yn amhriodol ar gyfer cynulleidfa ehangach. Os oes angen bod yn gyfrinachol er mwyn diogelu preifatrwydd neu hawliau unigolion neu gyrff, ni ddylid rhyddhau gwybodaeth i unrhyw un heblaw aelod, gweithiwr i'r awdurdod perthnasol neu berson arall y mae ganddynt hawl i'w chael neu y mae angen iddynt gael ei gweld er mwyn cyflawni eu swyddogaethau'n iawn. Ni ellir cymryd bod dim yn y Côd hwn yn drech na'r dyletswyddau yn y statudau neu'r gyfraith gyffredin i gadw gwybodaeth benodol yn gyfrinachol, neu i ddatgelu gwybodaeth benodol.

**Penodi Staff**

5.2.11 Rhaid i weithwyr cymwys yr awdurdodau perthnasol sy'n ymwneud â recriwtio a phenodi staff sicrhau bod penodiadau'n cael eu gwneud ar sail rhagoriaeth. Er mwyn osgoi unrhyw gyhuddiad posibl o ragfarn, rhaid i weithwyr o'r fath beidio ag ymwneud ag unrhyw benodiad, nac unrhyw benderfyniadau eraill sy'n ymwneud â disgyblu, dyrchafu neu dâl ac amodau unrhyw weithiwr arall, neu ddarpar weithiwr, y maent yn perthyn iddynt, neu y mae ganddynt berthynas bersonol agos â hwy y tu allan i'r gwaith.

**Ymchwiliadau gan Swyddogion Monitro**

5.2.12 Pan fydd swyddog monitro'n cynnal ymchwiliad yn unol â rheoliadau a wneir dan adran 73(1) Deddf Llywodraeth Leol 2000, rhaid i weithiwr cymwys gydymffurfio ag unrhyw ofynion a wneir gan y swyddog monitro hwnnw mewn cysylltiad ag ymchwiliad o'r fath.

**Deddf Llwgrwobrwyo 2010**
Mae'n drosedd dan Ddeddf Llwgrwobrwyo 2010 i dderbyn mewn modd llwgr unrhyw rodd, ffi, gwobr neu fantais yn eich rôl fel swyddog o'r Cyngor. Mae'n drosedd hefyd i gynnig, addo neu roddi llwgrwobr.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Formatted: Font: Bold

Formatted: Font: Bold

Rhaid i weithwyr lynu wrth Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'n manylu ar y 5 ffordd o weithio y mae eu hangen er mwyn cyflawni'r 7 nod llesiant.

| **Gwerthoedd Gwasanaethau Cyhoeddus – yr hyn yr ydym yn gredu ynddo** | **Wellbeing delivery principles – how we will work** |
|---|---|
| **Gweithio ar gyfer y tymor hir:** Mae gwarchod gallu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion eu hunain yn golygu integreiddiad a chydweithio tymor hir a gwirioneddol sy'n edrych ar lesiant pobl a chymunedau, llewyrch economaidd ac iechyd yr amgylchedd naturiol. | **Tymor Hir**: Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd |
| **Yn tyfu ac yn gwella drwy'r amser:** Byddwnyn bositif ac ar ein gorau er budd pobl Cymru a'r naill a'r llall drwy ddewis agweddau ac ymddygiadau posirif, croesawu cyfleon i ddysgu a datblygu a rhannu syniadau ynghylch ffyrdd o wella a chyflawni gwasanaethau cyhoeddus. | **Atal**: Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion |
| **Gweithio gyda'n gilydd:** Lle mae pawb yn ymwneud â darparu gwasanaethau cyhoeddus ac yn gwerthfawrogi cyfraniadau eraill, yn rhannu egwyddorion cyffredin ac yn cydweithio er budd pobl Cymru, o fewn ac ar draws ffiniau sefydliadol a sectorau. | **Integreiddio**: Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff chyoeddus eraill |
| **Trin pawb â pharch:** Mae cydnabod, gwerthfawrogi a pharchu amrywiaeth pobl Cymru yn ganolog i ystyried pobl fel unigolion a gwneud y peth iawn, ar yr adeg iawn ac yn y lle iawn ar gyfer y naill a'r llall. | **Cydweithio**: Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant |
| **Rhoi pobl yn gyntaf:** Mae angen i'n sefydliad ganolbwyntio ar anghenion pobl Cymru. Mae hyn yn golygu bod angen i ni ddwyn pobl i mewn i'r broses o wneud penderfyniadau sy'n cael effaith arnyn nhw a'u cymunedau. | **Cynnwys**: Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu |

**Canllawiau Pellach:**
Wrth gyflawni ei ddyletswyddau, rhaid i bob swyddog roi sylw dyledus i'r Côd hwn ac i'r Canllawiau Lleol ar y Côd Ymddygiad i Swyddogion y bydd y Cyngor yn eu cyhoeddi o bryd i'w gilydd.

**Formatted:** Welsh
**Formatted:** Font: Arial, Bold
**Formatted:** Font: Arial
**Formatted:** Welsh
**Formatted:** Welsh
**Formatted:** Welsh
**Formatted:** Font: Arial, 12 pt, Bold, Not Italic
**Formatted:** Heading 4, Border: Top: (Single solid line, Custom Color(RGB(65,217,242)), 6 pt Line width)
**Formatted:** Font: Arial, 12 pt, Not Italic
**Formatted:** Font: Arial
**Formatted:** Welsh
**Formatted:** Welsh
**Formatted:** Welsh
**Formatted:** Font: Arial, 12 pt, Bold, Not Italic
**Formatted:** Heading 4, Border: Top: (Single solid line, Custom Color(RGB(175,230,34)), 6 pt Line width)
**Formatted:** Font: Arial, 12 pt, Not Italic
**Formatted:** Font: Arial
**Formatted:** Welsh
**Formatted:** Welsh
**Formatted:** Welsh
**Formatted:** Font: Arial, 12 pt, Bold, Not Italic
**Formatted:** Heading 4, Border: Top: (Single solid line, Custom Color(RGB(255,221,23)), 6 pt Line width)
**Formatted:** Font: Arial, 12 pt, Not Italic
**Formatted:** Font: Arial
**Formatted:** Welsh
**Formatted:** Welsh
**Formatted:** Welsh
**Formatted:** Font: Arial, 12 pt, Bold, Not Italic
**Formatted:** Heading 4, Border: Top: (Single solid line, Custom Color(RGB(0,225,200)), 6 pt Line width)
**Formatted:** Font: Arial, 12 pt, Not Italic
**Formatted:** Font: Arial
**Formatted:** Welsh
**Formatted:** Welsh
**Formatted:** Welsh

# Cyngor Sir Ynys Môn

# Canllawiau Lleol ar y Côd Ymddygiad i Swyddogion

# Fersiwn 2.0 (Gorffennaf 2018)

Am y canllawiau hyn

- Mae'n rhaid i weithwyr y Cyngor ddilyn Côd Ymddygiad statudol sy'n ffurfio rhan o'n telerau ac amodau cyflogaeth

- Mae manylion yn brin yn y côd staudol ac felly cynhyrchwyd y canllawiau hyn mewn ymdrech i fynd i'r afael â'r cwestiynau hynny sy'n codi amlaf, megis: -
  - Beth yw'r safonau disgwyliedig;
  - Sut a phryd i ddatgan diddordeb;
  - Sut i ddelio â rhoddion a lletygarwch;
  - Perthynas gyda chontractwyr;
  - Mae'r ffurflenni y mae'n rhaid eu cwblhau er mwyn cofrestru diddordeb ynghlwm yn Atodiadau 1 a 2 i'r canllwiau hyn.

**Hanes diwygio**

| Fersiwn | Dyddiad | Crynodeb o'r newidiadau |
|---|---|---|
| 1.0 | 14 Mawrth 2016 | Dim newidiadau hyd yma |
| 2.0 | Gorffennaf 2018 | I gyd-ddigwydd â newidiadau i'r Côd ei hun yn arbennig mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 |

| **Dyddiad yr adolygiad nesaf** | |
|---|---|
| Adolygir y polisi hwn yn: | Gorffennaf 2019 |
| Cynhelir yr adolygiad gan: | Swyddog Monitro |

**Manylion cyswllt:**

**Lynn Ball, Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro**
**lynnball@ynysmon.gov.uk / ffôn: 01248 752586**

Byddwn yn falch o ddarparu'r polisi hwn ar ffurf arall ar gais. Defnyddiwch y manylion cyswllt uchod os gwelwch yn dda.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Saesneg.

This document is available in English.

# Canllawiau Lleol ar y Côd Ymddygiad i Swyddogion

Mae Adran 5.2 ein Cyfansoddiad yn cynnwys Côd Ymddygiad i Swyddogion http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/cynghorwyr-democratiaeth-ac-etholiadau/cyfansoddiad/cyfansoddiad-rhan-5-codau-a-phrotocolau/cyfansoddiad-52-cd-ymddygiad-swyddogion/

Yn y Canllawiau hyn, rhoddir cyngor ar elfennau allweddol y Côd. Ni fedr unrhyw Gôd nodi'r ymddygiad priodol ar gyfer pob sefyllfa. Mae'r Cyngor yn dibynnu arnoch chi i lunio barn resymol ynghylch yr hyn sy'n iawn ac yn gywir ym mhob sefyllfa.

## 1. EGWYDDORION CYFFREDINOL

Mae'r Cyngor Sir yn ymrwymo i'r egwyddorion statudol mewn perthynas ag ymddygiad mewn bywyd cyhoeddus ac yn eu cymeradwyo fel yr egwyddorion sylfaenol a ddylai roddi arweiniad i bob Aelod a Swyddog o ran eu hymddygiad.

Yn ôl yr egwyddorion statudol, rhaid i chi gyflawni ein dyletswyddau gyda sylw dyledus i:-

| | | |
|---|---|---|
| Anhunanoldeb | Gonestrwydd | Uniondeb a phriodoldeb |
| Cyfreithlondeb | Stiwardiaeth | Gwrthrychedd |
| Cydraddoldeb a Pharch | Bod yn agored | Atebolrwydd |
| Arweinyddiaeth | | |

## 2. PRYD MAE'R CÔD HWN YN BERTHNASOL?

2.1 Mae'r Côd hwn yn rhan o delerau ac amodau eich cyflogaeth ac yn rhan o'r contract cyfreithiol rhyngoch chi a'n sefydliad.

2.2 Gellir delio gydag achosion o dorri'r Côd i Swyddogion dan Weithdrefn Ddisgyblu'r Cyngor http://monitor.ynysmon.gov.uk/yn-y-gwaith/ymddygiad-yn-y-gwaith/trefn-ddisgyblu/

2.3 Bydd angen i weithwyr asiantaeth, swyddogion sy'n cael eu secondio a gweithwyr dros dro lynu wrth y safonau sydd wedi eu nodi yn y Côd.

2.4 Disgwylir i wirfoddolwyr hefyd lynu wrth y safonau sydd wedi eu nodi yn y Côd a bydd hyn yn cael ei nodi yn eich 'telerau cyflogaeth' fel gwirfoddolwr sydd wedi ei gymeradwyo.

2.5 Mae'r Côd yn berthnasol **yn ychwanegol at** unrhyw godau ymarfer proffesiynol a chodau ymddygiad eraill y mae'n rhaid i swyddogion arbenigol a chynrychiolwyr undeau llafur lynu wrthynt.

2.6 Dylech hefyd gyfeirio at y Côd mewn gwybodaeth sy'n ymwneud â chaffael. Er nad yw'n bosibl gorfodi'r Côd yn erbyn contractwyr neu sefydliadau partner eraill yn uniongyrchol, mae disgwyl iddynt hwythau hefyd lynu wrtho.

2.7 Nid yw'r Côd hwn yn ymwneud ag ymddygiad aelodau etholedig oherwydd

mae ganddynt hwy eu côd ymddygiad eu hunain.

## 3. Y SAFONAU A DDISGWYLIR

### A. Eich cyfrifoldebau o safbwynt gwasanaeth cyhoeddus

- Mae'n ddyletswydd arnoch i lynu wrth y gyfraith ac ymddwyn bob amser yn unol â'r ymddiriedaeth gyhoeddus a roddwyd ynoch ac mewn modd sy'n cynnal hyder y cyhoedd yn y Cyngor.

- Mae dyletswydd gyffredinol arnoch i weithredu er budd y Cyngor yn ei gyfanrwydd a'r gymuned leol.

- Ynghyd ag osgoi amhriodoldeb gwirioneddol, dylech osgoi ymddangos fel petaech yn ymddwyn yn amhriodol.

- Pan yn cyflawni eich swyddogaethau, mae cyfrifoldeb arnoch i sicrhau bod eich penderfyniadau a'ch gweithredoedd yn rhydd o unrhyw ragfarn, llygredd, gwahaniaethu a diddordebau personol. Lle mae gennych ddiddordebau preifat sy'n gwrthdaro â'ch dyletswydd gyhoeddus, rhaid i chi ddatrys y gwrthdaro hwn o blaid y budd cyhoeddus.

- Rhaid i chi:
    - Ddatgan unrhyw ddiddordebau preifat sy'n gwrthdaro, neu y gellid eu hystyried fel rhai sy'n gwrthdaro, gyda'ch swyddogaeth, eich dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau swyddogol, gan gynnwys y rheiny y byddwch eisoes yn eu cyflawni, pan fyddwch yn cychwyn gweithio i'r Cyngor **(gwybodaeth bellach ar gael dan baragraff 4)**;
    - Wrthod unrhyw roddion neu letygarwch a gynigir i chi yn eich swyddogaeth yn y gwaith neu, os byddai hynny'n achosi embaras i'r sawl sy'n eu rhoddi, dylech ddatgan y rhoddion hynny a'u rhoi at achos da **(gwybodaeth bellach ar gael dan baragraff 5)**;
    - Sicrhau nad yw eich barn bersonol neu wleidyddol yn amharu ar eich gwaith neu eich polisïau;
    - Sicrhau eich bod yn datgan unrhyw gyflogaeth neu rôl arall a all wrthdaro gyda'ch swydd bresennol a hynny cyn cymryd y swydd honno;
    - Datgan unrhyw gyflogaeth ychwanegol gyda thâl neu ddi-dâl, gweithgareddau gwirfoddoli neu benodiadau cyhoeddus fel bod hyn yn dryloyw;
    - Sicrhau nad ydych yn cymryd rhan mewn unrhyw broses recriwtio os ydych mewn perthynas agos â, neu'n perthyn yn agos i, ymgeisydd ar gyfer y swydd;
    - Datgan unrhyw berthnasau neu ddiddordebau mewn sefydliad arall sy'n rhan o ymarfer caffael; a
    - Datgan unrhyw ddiddordebau busnes (gan gynnwys bod yn gyfarwyddwr neu'n gyfranddaliwr) sydd gennych chi (neu aelodau o'ch teulu) a allai wella eich diddordebau busnes o ganlyniad i'ch swydd.

- Ni ddylech elwa'n bersonol o'ch gallu i gael mynediad at yr adnoddau sydd ar gael i chi wneud eich gwaith. O ganlyniad, rhaid i chi lynu wrth holl

bolisïau defnydd derbyniol y Cyngor pan fyddwch yn defnyddio adnoddau i gyflawni eich rôl a'ch dyletswyddau swyddogol. Mae hyn yn cynnwys yr holl offer TGCh (cyfrifiaduron, gliniaduron, e-bost), sianelau cyfryngau cymdeithasol, cerbydau, ffonau (llinellau tir a ffonau symudol) ac offer swyddfa gan gynnwys peiriannau argraffu a llun-gopïo.

- Dylech barchu rôl eich Aelodau Etholedig a'u trin gyda chwrteisi. Mae'r Cyngor hwn wedi mabwysiadu Protocol i reoli'r berthynas rhwng Aelodau a Swyddogion a dylech lynu wrth ei ddarpariaeth. Mae ar gael yn: (http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/cynghorwyr-democratiaeth-ac-etholiadau/cyfansoddiad/cyfansoddiad-rhan-5-codau-a-phrotocolau/cyfansoddiad-531-protocol-ar-gyfer-y-berthynas-rhwng-aelodau-a-swyddogion/)

- Wrth wneud penodiadau, dyfarnu contractau neu gynnal unrhyw fusnes arall, dylech sicrhau bod eich penderfyniadau yn cael eu gwneud yn ôl teilyngdod yn unig, drwy gystadleuaeth deg ac mewn modd sy'n cydymffurfio gyda Rheolau Gweithdrefn Contractau'r Cyngor a sicrhau eich bod yn cadw trywydd archwilio cyfatebol, sydd wedi'i ddogfennu.

  http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/cynghorwyr-democratiaeth-ac-etholiadau/cyfansoddiad/cyfansoddiad-rhan-4-rheolau-gweithdrefn/cyfansoddiad-49-rheolau-gweithdrefn-contractau?redirect=false

  http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/cynghorwyr-democratiaeth-ac-etholiadau/cyfansoddiad/cyfansoddiad-rhan-4-rheolau-gweithdrefn/cyfansoddiad-48-rheolau-gweithdrefn-ariannol?redirect=false

**B. Yn ymrwymedig i anghenion eich cwsmeriaid, defnyddwyr gwasanaeth a phartneriaid**

- Mae gan gwsmeriaid, defnyddwyr gwasanaeth a phartneriaid yr hawl i gael eu trin yn deg ac yn gyfartal. Ni ddylech wneud unrhyw beth a allai gael ei ystyried fel gwahaniaethu yn erbyn cwsmeriaid y Cyngor, defnyddwyr gwasanaeth a phartneriaid neu a allai gael ei ystyried fel bwlio neu aflonyddu, megis gwneud sylwadau ymosodol neu ddirmygus ynghylch oed, rhyw, hil, crefydd neu gredo, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd neu famolaeth, ailaseinio rhyw neu unrhyw nodwedd arall sy'n cael ei diogelu'n gyfreithiol.

- Dylai cwsmeriaid a defnyddwyr gwasanaeth fedru defnyddio eu dewis iaith ac mae'r Cyngor yn ymrwymo i'w gwneud yn haws i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau pob dydd. Byddwch yn cynorthwyo'r Cyngor mewn perthynas â'r ymrwymiad hwn.

**C. Yn gyfrifol gyda gwybodaeth**

- Mae cyfrifoldeb arnoch i drin a rheoli gwybodaeth yn briodol ac i sicrhau nad yw'n cael ei ddefnyddio ond i'r pwrpas y mae'n cael ei chadw ar ei gyfer.

- Dylech sicrhau bod gwybodaeth gyfrinachol, gan gynnwys gwybodaeth ynghylch unigolion, yn cael ei thrin yn unol â'r safonau disgwyliedig sydd

wedi eu nodi ym Mholisi Diogelu Data'r Cyngor
http://monitor.ynysmon.gov.uk/adnodd-corfforaethol/llywodraethu-gwybodaeth-diogelu-data/diogelu-data/polisi-diogelu-data-polisiau-diogelu-gwybodaeth-a-dogfennau-perthnasol?redirect=false

**D. Dyletswydd Gofal ar gyfer Diogelu, Llesiant, Iechyd a Diogelwch**

- Rhaid i chi roi sylw dyledus i'r rhwymedigaethau dan Atodiad 4Ch Polisi Diogelu'r Cyngor http://monitor.ynysmon.gov.uk/Journals/p/e/l/YM-Polisi-Gweithdrefn-Diogelu-Corfforaethol_Adolygiad-2016_V4.0_Terfynol.pdf

**E. Codi Pryderon**

- Rydych yn gyfrifol am gyflawni eich swyddogaethau a'ch dyletswyddau swyddogol mewn modd cyfreithlon a chlir a hynny'n unol â gofynion y Côd.

- Fodd bynnag, os ydych yn ymwybodol fod gweithredoedd eraill efallai'n syrthio'n is na'r safonau hyn neu'n torri ein cyfrifoldebau o ran iechyd a diogelwch neu'n peri risg i iechyd a diogelwch eraill, mae dyletswydd ychwanegol arnoch dan y Côd. Fe'ch cyfeirir at y Weithdrefn Rhannu Pryderon.

**F. Cyfathrebu a defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol**

- Pan yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a digidol er defnydd personol neu swyddogol, mae angen i chi gofio eich cyfrifoldebau fel gweithiwr sy'n cynnwys –
  - Peidio â datgelu gwybodaeth heb awdurdod
  - Peidio â chymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd gwleidyddol neu unrhyw weithgaredd cyhoeddus arall neu wneud sylwadau a allai effeithio ar eich didueddrwydd neu achosi embaras i'ch cyflogwr; a
  - Osgoi gwneud unrhyw fath o sylwadau a allai gael eu hystyried gan eraill fel bwlio, neu rai sy'n ymosodol neu'n aflonyddu.

**G. Y gellir ymddiried ynoch i ddelio gydag arian**

- Mae cyfrifoldeb arnoch i sicrhau bod yr arian yr ydych yn ei ddefnyddio i wneud eich gwaith yn cael ei ddefnyddio'n ddoeth i sicrhau gwerth am arian ac i'r pwrpas y bwriadwyd ef ar ei gyfer. Ymddiriedir ynoch i sicrhau fod gwariant priodol a chymesur yn cael ei wneud mewn perthynas â gweithgareddau'r Cyngor.

## 4. DATGAN DIDDORDEB – POB SWYDDOG

**SYLWER OS GWELWCH YN DDA**:
Nid oes ond angen i chi ddatgan diddordebau personol sy'n gwrthdaro, neu a all wrthdaro, gyda'ch dyletswyddau i'r Cyngor.
Os ydych yn ansicr o gwbl, dylech ddatgan eich diddordeb gan ddefnyddio'r ffurflen berthnasol a thrafod y mater hwn gyda'ch rheolydd llinell.

**A. Y gofyniad**

Nid oes angen i Swyddogion gael cofrestr sefydlog o ddiddordebau fel yr un sydd ar gael ar gyfer Aelodau etholedig, h.y. yn manylu ar fudd mewn eiddo, aelodaeth o gyrff allanol ac ati. Mae'r ddyletswydd sydd ar Swyddogion i ddatgelu diddordeb yn un ar sail "fel a phryd" petai mater penodol yn dod i'ch sylw.

Wrth gyflawni eich cyfrifoldebau fel Swyddogion y Cyngor, dylech ddatgan ar unwaith unrhyw ddiddordebau ariannol neu bersonol perthnasol i'ch rheolwyr llinell, lle bynnag y byddai methiant i wneud hynny'n tanseilio hyder y cyhoedd yng ngweithgareddau'r Cyngor (e.e. mewn cyfarfodydd / cyfathrebiadau eraill pan mae'r diddordeb yn berthnasol). Yn yr amgylchiadau hyn, dylai rheolwyr llinell wneud trefniadau eraill, h.y. ni ddylech gymryd rhan neu ddylanwadau ar unrhyw fater sy'n golygu y gallech chi (neu eich teulu/cyfeillion) elwa arnynt neu golli allan o'u herwydd. **Mae hyn yn berthnasol i bob Swyddog ar bob lefel**.

Bydd y trefniadau amgen y bydd angen i'r Rheolwr Llinell benderfynu arnynt yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Gallai fod cyn lleied â sicrhau bod swyddog arall yn delio â'r mater a bod mynediad i'r ffeiliau yn cael ei wrthod i'r unigolion sy'n datgan y diddordeb personol neu gall fod mor sylweddol â throsglwyddo swyddog i dîm / gwasanaeth arall os yw'r diddordeb yn sylweddol a bod y broses yn debygol o fod yn un hir e.e. cynnig arfaethedig i allanoli gwasanaeth.

Efallai y bydd rhaid hefyd llenwi un o'r ffurflenni yn **ATODIADAU 1 a 2** a gall rheolwyr llinell gynghori pa un all fod yn briodol.

## B. Beth allai fod yn fudd neu'n ymwneud?

Gall ddiddordebau neu ymwneud a allai wrthdaro gyda diddordebau'r Cyngor fod yn rhai ariannol ac / neu anariannol, er enghraifft:

- Partneriaeth mewn busnes
- Gwaith a wneir i unrhyw berson neu sefydliad ac eithrio fel un sy'n gweithio i'r Cyngor
- Gwasanaethau fel aelod o grŵp, pwyllgor neu fwrdd y gall ei waith wrthdaro gyda'r Cyngor
- Ceisiadau a gyflwynwyd gan berthnasau neu gyfeillion i'w hystyried gan y Cyngor, e.e. tendro am waith
- Llywodraethwr Ysgol, neu glerc cyngor sydd yn awdurdodaeth yr Awdurdod.

**Nid yw hon yn rhestr derfynol**. Mae angen i chi ofyn mewn modd rhesymol a gwrthrychol a oes gennych ddiddordeb personol ac ystyried a fyddai methiant ar eich rhan i ddatgelu'r diddordeb hwnnw yn cael effaith niweidiol ar hyder y cyhoedd yn ein gweithgareddau.

## C. Beth ddylwn i ei wneud os oes gennyf ddiddordeb personol i'w ddatgan?

- Yn gyffredinol:
  Dylech wneud datganiadau o ddiddordeb ariannol neu anariannol pryd

bynnag y gall ein diddordebau personol wrthdaro â diddordeb y cyhoedd. Dylid gwneud datganiadau o'r fath i'n rheolwr llinell / goruchwyliwr ar y ffurflen "Hysbysiad o Fuddiant personol" sydd ynghlwm yn **Atodiad 1**. Bydd cyfrifoldeb ar bob rheolwr llinell i gadw unrhyw hysbysiadau a gaiff am y cyfnod y bydd yr hysbysiadau hynny'n ddilys.

➔ Mewn cyfarfodydd:

Os oes gennych ddiddordeb personol mewn unrhyw fater sy'n codi mewn unrhyw gyfarfod yr ydych yn adrodd iddo neu'n cynghori (neu y gallwch gael cais i'w gynghori neu y gallwch fel arall ddylanwadu arno) unrhyw Gynghorydd(Gynghorwyr) yn y Cyngor, neu unrhyw drydydd parti, rhaid i chi ddatgan y diddordeb a pheidio â chymryd rhan yn y drafodaeth neu'r penderfyniad ar y mater.

Bydd unrhyw ddatganiad a wneir mewn cyfarfod swyddogol yn cael ei gofnodi yn y cofnodion.

Os yn briodol, dylid gwneud trefniadau i weithiwr arall fynychu ac adrodd /cynghori ar y mater.

Un enghraifft fyddai cymryd rhan mewn cyfarfod mewn perthynas ag ysgol y mae eich mab/merch/ŵyr/wyres yn ei mynychu.

Os oes gennych ddiddordeb personol a allai wrthdaro gyda diddordebau'r Cyngor, yna ni chewch ond aros yn y cyfarfod a chymryd rhan yn y trafodaethau os yw'r person sy'n llywyddu yn y cyfarfod (ac ar ôl cael cyngor gan y Swyddog Monitro) yn fodlon y byddai gwneud hynny er budd y Cyngor neu'r bobl leol.

Dylai'r holl ddiddordebau personol sydd gennych mewn perthynas â materion a drafodir mewn cyfarfodydd gael eu datgan ar y "Ffurflen Datgan a Chofrestru Buddiant Personol – Gweithiwr" sydd ynghlwm yn **ATODIAD 2**.

## 5. RHODDION A LLETYGARWCH

### A. Y gofyniad

- Rhaid i chi ystyried y sefyllfa'n ofalus cyn derbyn unrhyw rodd bersonol neu gynigion o letygarwch. Yr egwyddor yw bod rhaid i chi osgoi rhoddi eich hun mewn sefyllfa lle gallai derbyn rhodd neu letygarwch o'r fath gael ei ystyried fel rhywbeth a allai ddylanwadu ar eich penderfyniadau neu eich barn wrth ddyfarnu contractau, gwneud penodiadau, penderfynu ar geisiadau cynllunio ac ati.

- **Cyn penderfynu gwrthod neu wrthod gyda chrebwyll, rodd personol neu gynnig o letygarwch, dylech ofyn y cwestiynau canlynol**:

  - A yw'r rhoddwr, neu'r digwyddiad, yn arwyddocaol yn y gymuned neu'r ardal? Os ydyw, a fyddai gwrthod yn debygol o bechu?

  - A oes disgwyl i chi fynychu oherwydd eich statws yn y gymuned neu'r ardal?

  - A fydd eraill o statws tebyg yn y gymuned neu gymunedau eraill yn mynychu'r digwyddiad?

- Beth ydych chi'n meddwl yw'r cymhelliad y tu ôl i'r gwahoddiad?

- A fyddai derbyn y gwahoddiad yn amhriodol mewn unrhyw fodd neu'n eich rhoi dan bwysau mewn perthynas ag unrhyw fater sy'n ymwneud â'r Cyngor rŵan neu yn y dyfodol?

- A fyddai modd i chi gyfiawnhau'r penderfyniad i'r Cyngor, y wasg a'r cyhoedd?

- A yw graddfa'r lletygarwch, neu natur y rhodd, yn rhesymol ac yn briodol?

- A yw'n debygol y bydd disgwyliad arnoch i ymateb i'r lletygarwch ac os felly, sut?

- A ydych chi'n gyfforddus am eich penderfyniad?

- **Dylech wrthod unrhyw roddion personol a chynigion o letygarwch os ydych yn meddwl y gallai hynny niweidio hyder y cyhoedd ynoch neu yn y Cyngor**.

**B. Derbyn rhoddion / lletygarwch**

- Rhaid i reolwyr llinell awdurdodi derbyn lletygarwch ymlaen llaw.

- Mae gan y Cyngor Gofrestr ar gyfer cofnodi derbyn rhoddion neu letygarwch sy'n werth **£10 neu fwy** ac mae angen i chi gofrestru rhoddion, a gwahoddiadau a dderbynnir, yn y Gofrestr honno gyda'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (Gwasanaethau Pwyllgorau, rhif ffôn: 01248 752514).

- Lle mae'r rhoddion neu'r lletygarwch yn werth **£10 neu lai**, dylid cofnodi'r rhodd/lletygarwch gyda'ch rheolwr llinell.

- Dylid cofrestru unrhyw gynigion o lety a lletygarwch y gellid tybio eu bod yn cael effaith ar bwerau gwneud penderfyniadau neu lunio barn, hyd yn oed os cânt eu gwrthod.

- Efallai y byddwch yn cael eitemau fel arwydd o ewyllys da pan yn mynychu cynadleddau neu ar ymweliadau sifig. Efallai y byddwch o bryd i'w gilydd yn derbyn dyddiaduron, pinnau ysgrifennu, calendrau ac ati. **Nid oes angen cofrestru'r rhain**.

- Fodd bynnag, mewn achosion ble mae gwerth, neu werth amcangyfrifiedig rhesymol, yr ewyllys da a gynigiwyd yn werth mwy na £10, dylid ei gofrestru.

**C. "Lletygarwch" – Beth mae'n ei olygu a beth sydd angen i mi ei ystyried?**

- Gellir diffinio lletygarwch fel unrhyw beth ac eithrio'r cynnig o ddiodydd di-alcohol a lluniaeth ysgafn.

- Ni ddylech ond derbyn lletygarwch os oes angen gwirioneddol i'r Cyngor gael ei gynrychioli mewn achlysur neu ddigwyddiad. Po fwyaf "moethus" yw'r lletygarwch, pwysica'n y byd yw i chi fod yn ofalus.

- Mae lletygarwch a geir drwy fynychu cynadleddau a chyrsiau perthnasol yn dderbyniol lle mae'n amlwg bod y lletygarwch yn gorfforaethol yn hytrach na phersonol a lle nad yw lletygarwch o'r fath yn cael effaith ar unrhyw benderfyniadau o ran prynu.

- Wrth dderbyn lletygarwch, dylech fod yn arbennig o sensitif o ran yr amseriad mewn perthynas â phenderfyniadau y bydd y Cyngor o bosib yn eu gwneud ac a allai gael effaith fuddiol neu andwyol ar y sawl sy'n darparu'r lletygarwch.

- Lle mae angen mynd ar ymweliadau i archwilio offer, neu ymweliadau sy'n gysylltiedig â dyfarnu unrhyw gontract, dylech bod y Cyngor yn talu costau unrhyw ymweliadau er mwyn osgoi rhagfarnu uniondeb unrhyw benderfyniadau a wneir wedyn i brynu.

- Ni ddylech ddefnyddio gwasanaethau contractwyr a gyflogir gan y Cyngor i chi eich hun ar gyfer prynu deunyddiau, llafur neu offer am bris cost, masnachol neu ostyngol.

**ENGHREIFFTIAU**

→Fel rhan o fy swydd gyda CSYM rydw i'n mynychu cynhadledd gyda'r corff proffesiynol sy'n rheoleiddio fy mhroffesiwn. Oherwydd lefel fy aelodaeth gyda'r corff proffesiynol (CSYM sydd yn talu'r ffi aelodaeth) nid oes rhaid i mi dalu ffi i fynychu'r gynhadledd hyfforddi hon. Oes angen i mi ddatgan hyn?

Mae lletygarwch a dderbynnir drwy fynychu cynhadleddau a chyrsiau perthnasol yn dderbyniol os yw'n eglur fod y lletygarwch yn gorfforaethol yn hytrach na phersonol, a lle nad yw derbyn lletygarwch o'r fath yn dylanwadu ar benderfyniadau i brynu. Felly, o dan yr amgylchiadau hyn, nid oes angen cofrestru presenoldeb yn y gynhadledd, hyd yn oed os na chodir ffi.

→Un noson pan fyddaf mewn cynhadledd, byddaf yn mynychu cinio nos a drefnir gan un o gleientiaid CSYM. Rwyf wedi cael gwahoddiad am fod CSYM ar y gronfa ddata cwsmeriaid y cleient. Oes angen i mi gofrestru'r lletygarwch hwn?

Gan fod hyn yn cynnwys cinio nos, tybir y byddai gwerth y lletygarwch yn fwy na £10. Felly, rhaid iddo gael ei gofrestru yng Nghofrestr y Cyngor, sy'n cael ei gadw gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.
Fodd bynnag, cyn derbyn, dylech ystyried a ddylech chi dderbyn y lletygarwch ai peidio.
Ystyriwch yr amseriad – fydd contract y cwsmer yn cael ei adnewyddu'n fuan? Fyddwch chi'n rhan o'r broses gwneud penderfyniad?

Peidiwch â rhoi eich hun mewn sefyllfa lle y gellid tybio bod derbyn lletygarwch o'r fath yn dylanwadu ar eich penderfyniadau neu'ch barn mewn perthynas â gwobrwyo contract yn y dyfodol.

→Mae gwesty a bwyty newydd wedi agor ar Ynys Môn. Maent yn cynnal agoriad mawreddog a gwahoddwyd pob Pennaeth Gwasanaeth, y Prif Weithredwr a'r Uwch Dîm Rheoli. A yw'n dderbyniol iddynt oll fynychu?

Byddai'n dderbyniol i'r Prif Weithredwr a Phennaeth yr adran Economaidd fynychu'r digwyddiad hwn gan ei fod yn ddigwyddiad rhwydweithio lle y gall CSYM ddangos ei gefnogaeth i fenter busnes newydd yn yr ardal (os gwneir hynny ar gyfer prosiectau tebyg eraill hefyd). Mae'r lletygarwch yn gorfforaethol yn hytrach na phersonol. Bydd rhaid cofrestru'r lletygarwch gyda'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.
Fodd bynnag, ni fyddai'n briodol i bob un o'r swyddogion eraill fynychu. Er enghraifft,
Ni ddylai'r Pennaeth Cynllunio fynychu – gellid tybio ei fod ef/hi yn rhagfarnus wrth benderfynu ar gais cynllunio.
Ni ddylai'r Pennaeth Iechyd yr Amgylchedd fynychu – bydd ef/hi (ei swyddogion) yn gyfrifol am fonitro diogelwch bwyd ayb yn yr adeilad a ni ddylid rhoi'r argraff iddo/iddi gael ei ddylanwadu yn flaenorol.
Ni ddylai'r Pennaeth Trwyddedu fynychu – efallai y bydd rhaid iddo/iddi (ei swyddogion) ystyried materion yn ymwneud â thrwydded y Gwesty/Bwyty yn y dyfodol, ayb.
Rhaid i chi ystyried yr amgylchiadau ar y pryd a beth allai, o fewn rheswm, godi yn y dyfodol.

## 6. LLYGREDD

- Rhaid i chi fod yn ymwybodol ei bod yn drosedd dan Ddeddf Llwgrwobrwyo 2010 i dderbyn neu roddi unrhyw rodd, fenthyciad neu wobr neu fantais yn

eich capasiti swyddogol "am wneud, neu beidio â gwneud rhywbeth" neu am "ffafrio neu anffafrio" unrhyw berson. Os gwneir honiad yn eich erbyn, bydd rhaid i chi ddangos na chafwyd unrhyw wobrwyon o'r fath drwy ddulliau llwgr.

- Er eich diogelwch eich hun, os bydd rhywun yn cysylltu gyda chi mewn modd a ymddengys i chi neu a allai ymddangos i drydydd parti fel petai'n anelu at dderbyn rhyw fath o driniaeth ffafriol, neu mewn amgylchiadau amheus mewn perthynas â chontract, yna rhaid i chi roi gwybod i'ch rheolwr llinell.

## 7. DYFARNU ARCHEBION A CHONTRACTAU

- Rhaid dyfarnu archebion a chontractau yn ôl teilyngdod, trwy gystadleuaeth deg, yn unol â Rheolau Gweithdrefn Contract y Cyngor.

  http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/cynghorwyr-democratiaeth-ac-etholiadau/cyfansoddiad/cyfansoddiad-rhan-4-rheolau-gweithdrefn/cyfansoddiad-49-rheolau-gweithdrefn-contractau/

  http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/cynghorwyr-democratiaeth-ac-etholiadau/cyfansoddiad/cyfansoddiad-rhan-4-rheolau-gweithdrefn/cyfansoddiad-48-rheolau-gweithdrefn-ariannol/

- Dylai swyddogion sy'n ymwneud â'r broses dendro ac/neu ddelio gyda chontractwyr fod yn glir ynghylch y gwahaniad rhwng rôl cleient a chontractwr yn y Cyngor. Rhaid i Swyddogion sydd â chyfrifoldeb cleient a chontractwr fod yn ymwybodol o'r angen i fod yn atebol ac yn agored.

- Rhaid i Swyddogion mewn unedau contractwr neu gleient fod yn deg ac yn ddiduedd wrth ddelio gydag unrhyw gwsmeriaid, cyflenwyr, contractwyr ac isgontractwyr.

- Ni ddylai Swyddogion sy'n cael gwybodaeth gyfrinachol ar dendrau neu gostau contractwyr mewnol neu allanol ddatgelu'r wybodaeth honno i unrhyw barti neu sefydliad heb awdurdod.

- Mae'n rhaid i swyddogion sy'n ystyried prynu allan fel rheolwyr neu gyflwyno tendr am unrhyw gontract (boed hynny am nwyddau, gwasanaethau a/neu waith) a/neu brynu unrhyw rai o asedau'r Cyngor (yn llawn neu'n rhannol) cyn gynted ag y byddant wedi llunio bwriad pendant:-

  1. Roi gwybod i'w rheolwr llinell a Gwasanaeth Caffael y Cyngor ar unwaith o'u bwriad;

  2. Cydymffurfio ar unwaith ag unrhyw gyfarwyddyd rhesymol gan reolwyr sy'n gofyn i chi adleoli i Dîm neu Wasanaeth gwahanol (gan gynnwys mewn lleoliad gwahanol), i weithio yn unol ag unrhyw brotocol gweithredol a ddyluniwyd i sicrhau nad oes ganddynt unrhyw gyswllt efo, neu fynediad at, y trafodiad yng nghwrs eu cyflogaeth. Mae'r gofynion hyn i sicrhau nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau gwirioneddol neu ganfyddedig rhwng eu swyddogaethau personol a phroffesiynol;

3. O’r dyddiad pan fyddant wedi llunio’r bwriad, hyd nes y caiff y contract terfynol ei lofnodi/yr ymarfer ei gwblhau, ni ddylent:-

   a. Drafod unrhyw beth yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol ynglŷn â’r trafodiad, neu’r trafodiad arfaethedig, eu mynegiant o ddiddordeb neu unrhyw gyflwyniad tendr, neu fater cysylltiedig, gydag unrhyw un yn y Cyngor ar wahân i’r hyn a ragnodir ym mharagraff 1 uchod ac wedi hynny dim ond gyda Gwasanaeth Caffael y Cyngor neu unrhyw dîm bid a benodir i ymdrin â’r trafodiad;

   b. Fynediad at, neu ofyn, neu awgrymu bod unrhyw Swyddog arall o’r Cyngor yn sicrhau mynediad at, yn darparu gwybodaeth, neu ddogfennau, yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol, iddynt oni bai bod hynny trwy wneud cais ffurfiol i Wasanaeth Caffael y Cyngor neu unrhyw dîm bid;

   c. Gael neu geisio cael, yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol, trwy ba bynnag ffordd, unrhyw fudd, ffafriaeth neu fantais dros unrhyw fidiwr arall neu fidiwr posib arall.

4. Adrodd ar unwaith i Wasanaeth Caffael y Cyngor / tîm bid am unrhyw ymgais i wneud cyswllt â hwy, unrhyw drafodaeth, mynediad at wybodaeth, cymorth neu gyngor a gynigiwyd iddynt gan unrhyw Swyddog o’r Cyngor nad yw wedi ffurfio rhan o’r broses dendro ffurfiol trwy’r Gwasanaeth Caffael / y tîm bid.

- Os yw swyddogion yn ceisio prynu allan fel rheolwyr, yn cyflwyno tendr am unrhyw gontract (boed hynny am nwyddau, gwasanaethau a/neu waith) a/neu’n prynu unrhyw rai o asedau’r Cyngor (yn llawn neu’n rhannol), mae’n bosib y caiff eu cais ei eithrio neu ei ddiystyru os ydynt wedi bod ynghlwm â’r broses cyn tendro yn rhinwedd unrhyw rôl, neu i raddau, sy’n creu mantais iddynt hwy dros ymgeisiwyr/bidwyr eraill i’r fath raddau na fedr y Cyngor gywiro’r balans hwnnw a sicrhau chwarae teg i bawb. Bydd y penderfyniad hwnnw yn ddewis i’r Cyngor yn llwyr.

- Dylai Swyddogion sicrhau nad ydynt yn dangos unrhyw ffafriaeth arbennig tuag at Swyddogion cyfredol neu Swyddogion sydd wedi gadael yn ddiweddar na’u partneriaid, perthnasau agos neu gydnabod o ran dyfarnu contractau i fusnesau y maent yn eu rhedeg neu’n eu cyflogi mewn capasiti lefel uwch neu lefel reoli.

- Yn unol ag Adran 117 Deddf Llywodraeth Leol 1972, rhaid i chi wneud datganiad ffurfiol am gontractau neu gontractau personol gyda’r Cyngor lle mae gennych ddiddordeb ariannol ynddynt. Rhaid cofrestru datganiadau o’r fath ar y Ffurflen Hysbysiad o Diddordeb Personol (**ATODIAD 1**).

## 8 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU’R DYFODOL (CYMRU) 2015

Disgwylir i bob sefydliad cyhoeddus yng Nghymru lynu wrth Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015. I sicrhau hyn, rhaid i’r Cyngor feddwl mwy am y tymor hir, gweithio’n well gyda phobl, cymunedau a’i gilydd, geisio atal

problemau a mabwysiadu ymagwedd fwy cydlynus. Pan yn gwneud penderfyniadau, rhaid i'r Cyngor gymryd i ystyriaeth yr effaith y gallai'r penderfyniadau hynny eu cael ar bobl sy'n byw yng Nghymru yn y dyfodol.

Mae'r 5 ffordd o weithio wedi eu cynnwys yn y Côd Ymddygiad i Swyddogion a rhaid eu cymryd i ystyriaeth er mwyn cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni'r saith nod llesiant.

## 9. GWRTHDARO RHWNG RÔL FEL SWYDDOG A DINESYDD

1. Derbynnir fod nifer o swyddogion hefyd yn ddinasyddion yn yr ardal ac mae'n anorfod y bydd angen i swyddogion ymarfer eu hawliau fel unigolion preifat mewn rhai sefyllfaoedd penodol. Gallai hyn fod am nifer o wahanol resymau megis (a) nid yw sbwriel y swyddog wedi cael ei gasglu (b) gweithredu fel ysgrifennydd sefydliad gwirfoddol wrth wneud cais am grantiau, (c) trefnu darpariaeth gofal ar gyfer perthynas; neu (d) gwrthwynebu cais cynllunio drws nesaf i'w gartref o/hi.

2. Yn y lle cyntaf, fe ddylai'r swyddog ofyn iddo'i hun – allai rhywun arall weithredu yn fy lle?
   Er enghraifft, os yw'r swyddog yn cynrychioli corff neu sefydliad arall, fe ddylai'r swyddog ystyried gofyn i rywun arall gyflawni'r rôl; neu os mai cynrychioli aelod o'r teulu yw'r diddordeb personol, fe ddylai'r swyddog ystyried a oes modd i berthynas arall arwain ar hyn.

3. Os nad oes modd i'r Swyddog osgoi dod i gysylltiad â'r Cyngor yn eu capasiti personol, cynghorir swyddogion i ystyried y canllawiau canlynol:
   a. Wrth ysgrifennu at y Cyngor (neu unrhyw un arall), ni ddylai Swyddogion ddefnyddio papur swyddogol y Cyngor na chyfeiriad e-bost mewnol gan y byddai hyn yn amhriodol gan y gallai achosi dryswch o ran pa rôl mae'r swyddog yn ei chyflawni, h.y. capasiti fel swyddog neu unigolyn preifat.
   b. Wrth ysgrifennu at y cyngor, neu wrth gysylltu drwy unrhyw ffordd arall, ar y cyswllt cyntaf, dylid datgan yn ffurfiol ei fod o / hi yn gweithredu mewn capasiti preifat ac nid fel swyddog.
   c. Os trafodir materion ar lafar fe ddylai swyddogion gadarnhau manylion y drafodaeth honno yn ysgrifenedig. Fe ddylai'r cadarnhad ysgrifenedig ddatgan ei fod o/hi yn gweithredu mewn capasiti preifat ac nid fel swyddog.
   d. Os yw'r Cyngor wedi cysylltu â swyddog yn eu rôl fel dinesydd yn yr ardal (e.e. ymgynghoriad ar fater cynllunio), fe ddylai'r swyddog ddatgan yn glir ei statws fel Swyddog gyda'r Cyngor.
   e. Ni ddylai swyddogion gamddefnyddio eu rôl er mwyn cael mynediad at swyddogion eraill neu wybodaeth na fyddai ar gael i aelodau'r cyhoedd.

4. Atgoffir Swyddogion o'r gofynion mewn perthynas â datgan diddordeb personol sydd wedi'u cynnwys ym mharagraff 4 o'r Canllawiau hyn.

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

# Ffurflen Hysbysiad o Fuddiant Personol / Notification of Personal Interest Form

**Nodwch- Rydych angen datgelu unrhyw fuddiannau personol sydd yn gwrthdaro, neu yn gallu gwrthdaro, efo'ch dyletswyddau yn y Cyngor yn unig.**
**Os ydych yn ansicr, dylech ddatgelu eich buddiant ar y ffurflen hon neu eu trafod efo'ch rheolwr.**

**Please note- You only need to disclose personal interests which conflict, or may conflict, with your duties in the Council.**
**If you are at all unsure, you should disclose your interest using this form or discuss this with your manager.**

| **CHI – Y GWEITHIWR: / YOU – THE WORKER:** | |
|---|---|
| Enw: / Name: | |
| Swydd: / Job Title: | |
| Gwasanaeth: / Service: | |

| **EICH DATGANIAD: /<br>YOUR DECLARATION:** | |
|---|---|
| Math o Ddatganiad: /<br>Type of Declaration: | Manylion: /<br>Details: |
| Perthynas: / Relationship:<br><br>Cynghorydd/ ◯<br>Councillor<br><br>Contractwr/ ◯<br>Contractor<br><br>Gweithiwr/ ◯<br>Employee<br><br>Arall/ ◯<br>Other | Enw: /<br>Name:<br><br>Swyddogaeth: /<br>Post Title:<br><br>Natur fy mherthynas gyda'r unigolyn:/<br>Nature of my relationship to the named person:<br><br>Manyldeb o unrhyw gysylltiad neu gwrthdaro rhwng buddiannau: /<br>Details of any potential contact/conflict of interest: |

| | |
|---|---|
| Buddiant personol neu aelodaeth o gorff allanol, busnes, partneriaeth, corf proffesiynol neu gymdeithas gyfrinachol e.e. Corff Llywodraethol Ysgol, rôl mewn grŵp gwirfoddol, cysylltiad â busnes teuluol: /<br><br>Personal interest or membership of an organisation, business, partnership, professional body or secret society e.g. school governing body, voluntary organisation role, involvement in a family business: | Disgrifiad o fy muddiant: /<br>Description of my interest:<br><br>Enw a lleoliad y grŵp / mudiad o dan sylw (os yn gymwysiadol): /<br>Name and location of organisation concerned (if applicable):<br><br>Dyddiad Cychwyn: /<br>Effective date:<br><br>Budd / goblygiad ariannol: /<br>Financial benefit / implication:<br><br>Manylion y camau a ellir eu cymryd i warchod buddiant y Cyngor: /<br>Details of steps that could be taken to protect the Council's interest: |

| | |
|---|---|
| **Buddiant mewn tir o fewn y Sir**<br>Cyfeiriad neu ddisgrifiad o dir neu eiddo yr ydych gyda buddiant ynddo, natur y buddiant a'r defnydd a wneir o'r tir.<br>[Mae buddiant o dan yr adran hon yn cynnwys:<br>(a) buddiant fel rhydd-ddeiliad neu lesddeiliad am brydles o 12 mis neu fwy;<br>(b) buddiant fel deiliad opsiwn neu ddarpar brynwr; neu<br>(c) os ydych yn ceisio cadarnhau caniatâd cynllunio neu unrhyw ganiatâd neu benderfyniad ar y tir gan y Cyngor.]<br><br>**Interest in Land within the County**<br><br>Address or description of land or property in which you have an interest, the nature of the interest and the use to which the land is put.<br>[Interest under this section includes:<br>(a) Interests as a freeholder or leaseholder for a lease of 12 months or more<br>(b) Interest as an option holder or prospective purchaser; or<br>(c) Interests by which you are directly concerned in seeking planning permission or some other consent or decision of the Council. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gwybodaeth ychwanegol/ Unrhyw ddatganiad arall:**<br>Rhowch unrhyw wybodaeth arall y dylech ei ddatgelu am eich buddiannau busnes, cyllid neu bersonol.<br><br>**Further information/ Any other declaration:**<br>Please give any further information you may wish to record about your business, financial or personal interests. | | | |
| **Hysbysu newidiadau**<br><br><br>**Notification of Changes** | | Rwyf yn ymgymryd i hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig o fewn 28 diwrnod o unrhyw newid i fy sefyllfa fel a nodir yn y datganiad yma.<br><br>I undertake to notify the Council in writing within 28 days of any change to my circumstances as detailed in this declaration. | |
| **Dyddiad: / Date:** | | **Llofnod:/ Signature:** | |

**ATODIAD / ENCLOSURE 2**

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**Hysbysiad o Fuddiant Personol mewn cyfarfod /**
**Notification of Personal Interest in a meeting**

| | |
|---|---|
| Enw'r Gweithiwr: / Employee Name: | |
| Swydd: / Job Title: | |
| Gwasanaeth: / Service: | |

Rwy'n eich hysbysu yn ysgrifenedig o fuddiant personol a ddatgelais yn y cyfarfod canlynol: / I give you written notification of a personal interest disclosed by me at the following meeting:

……………………………………………………………………………………….(enw'r cyfarfod /name of meeting)

a gynhaliwyd ar / held on……………………………………………(dyddiad y cyfarfod / date of meeting)

Manylion y buddiant personol: / Detail of Personal Interest:

……………………………………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………………………………

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llofnod: / Signature: | | Dyddiad: / Date: | |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **29 Hydref 2018** |
| **Pwnc:** | **Cyllid ar gyfer Gwaith Atal Llifogydd yn Llangefni** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd Bob Parry** |
| **Pennaeth Gwasanaeth Interim:** | **Huw Percy** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Huw Percy**<br>**01248 752350**<br>**hmpht@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Y Cynghorydd Bob Parry, Y Cynghorydd Nicola Roberts, Y Cynghorydd Dylan Rees Jones** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Bod y Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo yn derbyn £85k o gyllid Cyfalaf er mwyn cwrdd â'r gost o adeiladu wal atal llifogydd tu cefn i Glandwr, Llangefni (£85k).

Ar 22 Tachwedd 2017, cafwyd cyfnod estynedig o law eithafol ar Ynys Môn. Dengys ffigyrau Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) fod cyfnodau dychwelyd uchel iawn yn gysylltiedig â'r digwyddiad hwn, yn arbennig yn Nwyrain yr Ynys, gyda chyfnod dychwelyd o 31 mlynedd yn cael ei gofnodi ar gyfer Llangefni o ganlyniad i'r glaw hwn. Roedd 6 o dai preswyl a 27 adeilad masnachol dan ddŵr yn Llangefni o ganlyniad i'r glaw hwn.

O dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, mae dyletswydd ar Gyngor Sir Ynys Môn, fel yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol, i gael Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd mewn lle ac mae'r cyngor wedi cynhyrchu a mabwysiadu'r cyfryw strategaeth.

Wedi ei restru o fewn y strategaeth fel un o ddeg amcan yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol, mae'r amcan "*Lleihau effaith a chanlyniadau llifogydd ac erydu arfordirol ar unigolion, cymunedau, busnesau a'r amgylchedd*".

Yn Llangefni, archwiliodd y Cyngor yr asedau hynny yn ei feddiant yr oedd yn ystyried y byddai modd iddynt gael dylanwad petai digwyddiad tebyg o law eithafol ar y raddfa a brofwyd ym mis Tachwedd 2017 yn digwydd eto a nodwyd rhan o wal derfyn, ym mherchnogaeth y Cyngor, ger Afon Cefni a thu cefn i Deras Glandwr.

| |
|---|
| Mewn mannau, roedd y wal hon wedi dechrau adfeilio ac ystyriwyd y byddai adnewyddu’r rhan hon o’r wal a darparu lefel crib cyson yn lleihau’r perygl o lifogydd yn Nheras Glandwr a lleihau’r perygl fod dŵr llifogydd yn llifo ar hyd Ffordd Glandwr a Stryd yr Eglwys. |

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Ar ôl y llifogydd, cynhaliodd yr Aelod Cynulliad lleol sesiwn galw heibio gymunedol yn Llangefni i drafod y llifogydd. Roedd CNC, Dŵr Cymru, Cynghorwyr a staff CSYM, busnesau lleol a phreswylwyr yn bresennol yn y sesiwn galw heibio. Roedd y gymuned yn teimlo’n gryf y dylai camau brys gael eu cymryd cyn gaeaf 2018. Yn dilyn hynny, trefnodd CNC fod yr afon yn cael ei glanhau a gwaith modelu llifogydd yn cael ei wneud, ond gall y broses hon gymryd blynyddoedd cyn i gynllun gael ei gymeradwyo.<br><br>Y dewis arall yn hytrach nag adeiladu wal yn Llangefni fyddai disgwyl i CNC gwblhau’r gwaith modelu llifogydd gyda’r perygl y bydd eiddo a busnesau yng nghanol y dref yn cael eu heffeithio gan lifogydd eto yn y cyfamser.<br><br>Mae rhai preswylwyr yn cael eu heffeithio o hyd gan y difrod a achoswyd gan lifogydd 22/11/17 ac nid yw rhai busnesau wedi ailagor. Ystyriwyd y byddai oedi cyn gwneud y gwaith yn creu risg o lifogydd pellach ac yn niweidio enw da’r Awdurdod. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i’r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Er mwyn cael cyllid nad yw ar gael o’r gyllideb graidd. |

| **CH – A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â’r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydi |

| **D – A yw’r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| |

| **E – Effaith ar Genedlaethau’r Dyfodol (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Sut mae’r penderfyniad hwn yn effeithio ar anghenion yr Ynys yn y tymor hir** | **Mae’n lleihau’r perygl o lifogydd yn y gymuned gafodd ei heffeithio.** |
| **2** | **A ragwelir y bydd y penderfyniad hwn yn atal costau / ymrwymiadau i’r Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut:-** | **Ydi, mae’n lleihau’r risg o orfod gwneud gwaith ac ysgwyddo costau mewn argyfwng.** |

| | | |
|---|---|---|
| 3 | **Ydym ni wedi gweithio ar y cyd â sefydliadau eraill er mwyn dod i'r penderfyniad hwn? Os ydym, dywedwch gyda phwy:** | **Ydym, CNC a Dŵr Cymru.** |
| 4 | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi bod yn rhan o'r broses o ddrafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-** | **Mae preswylwyr yn y gymuned wedi gofyn am waith atal llifogydd.** |
| 5 | **Pa effaith, os o gwbl, fydd y penderfyniad hwn yn ei gael ar yr agenda Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg** | **Dim** |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Dim Sylwadau |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Gellir ariannu'r gwaith mewn dwy ffordd:<br>1. Drwy ddyrannu £85k o'r balansau cyffredinol<br>2. Drwy drosglwyddo cyllid cyfalaf heb ei ddefnyddio a ddyrannwyd yn flaenorol i gynlluniau eraill.<br>O ystyried rhagwelir ar hyn o bryd bod lefel y balansau cyffredinol yn is na'r isafswm gofynnol ar ddiwedd 2018/19, ni fyddai'n ddoeth mynd ymhellach ar lefel y balansau cyffredinol pan fydd opsiynau eraill ar gael i ariannu'r gost. Rwyf felly'n argymell opsiwn 2 a bod £85k o'r arian cyfalaf sydd heb ei ddefnyddio yn cael ei ddyrannu i'r cynllun hwn. |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Dim Sylwadau |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Caffael** | |
| 8 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |

| | | |
|---|---|---|
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| - |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| - |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **29 Hydref 2018** |
| **Pwnc:** | **Penodi Rheolwr Prosiect Dros Dro** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd Bob Parry, Deilydd Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** |
| **Pennaeth Gwasanaeth Interim:** | **Huw Percy** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Meirion P. Edwards**<br>**2818**<br>**Mpepp@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Awdurdodi penodi Rheolwr Prosiect dros dro hyd at 31 Mawrth 2021 i:

a. Gynnal arfarniad o'r opsiynau er mwyn asesu sut y dylid casglu a glanhau gwastraff yn y dyfodol;
b. Cyflawni swyddogaethau rheoli prosiect mewn perthynas â chaffael gwasanaeth casglu gwastraff a glanhau newydd fydd yn cychwyn ar 1 Ebrill 2021;
c. Rheoli prosiectau unwaith ac am byth ar draws y Cyngor yn ôl yr angen.

Y prif reswm dros wneud yr argymhellion uchod yw sicrhau fod y Cyngor yn cwrdd â'i ddyletswydd statudol i gasglu gwastraff, cadw tir perthnasol yn rhydd o sbwriel ac i gwrdd â thargedau ailgylchu. Rhaid i'r Cyngor sicrhau fod ganddo wasanaeth mewn lle pan ddaw'r contract presennol i ben ar 31 Mawrth 2021. Byddai methu â chael gwasanaeth mewn lle erbyn 1 Ebrill 2021 yn golygu risg sylweddol i'r Cyngor.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r senarios canlynol –

- Ymgymryd â'r gwaith gan ddefnyddio adnoddau gwasanaeth presennol.
- Allanoli'r gwaith i ymgynghorydd fyddai'n cyflenwi'r gwaith ar ran y gwasanaeth.
- Penodi Rheolwr Prosiect i lywio a chyflenwi'r prosiect corfforaethol o fewn yr amserlenni ac yn unol â chyfeiriad corfforaethol cytunedig.

| |
|---|
| Diystyriwyd y ddau opsiwn cyntaf oherwydd capasiti rheolaethol a chost. Cynigir y bydd y Rheolwr Prosiect yn cynnal arfarniad o opsiynau er mwyn ystyried y ffordd orau o gyflenwi gwasanaethau casglu gwastraff a glanhau yn y dyfodol er mwyn sicrhau gwerth am arian. Gan fod y contract presennol yn dod i ben ar 31 Mawrth 2021 rhaid i'r Cyngor gael datrysiad mewn lle erbyn y dyddiad hwn. Pa bynnag opsiwn a ddewisir yn y pen draw, bydd rhaid penodi Rheolwr Prosiect ar gytundeb 2.5 mlynedd i reoli'r broses gaffael/newid sylweddol hon. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae penodi'r cyfryw Reolwr Prosiect yn bwysig er mwyn sicrhau y gall y Cyngor gynllunio, datblygu a gweithredu datrysiad hyfyw er mwyn cyflenwi gwasanaeth casglu gwastraff a glanhau pan ddaw'r cytundeb presennol i ben. Amcangyfrifir y bydd cost y cytundeb presennol yn uwch na'r gost flynyddol bresennol, felly bydd y gyllideb yn sylweddol a bydd rhaid i'r Pwyllgor Gwaith ei gymeradwyo. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydi. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Yn dilyn ymgynghoriad gyda'r Adran Gyllid a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, nodwyd cyllid angenrheidiol o gronfeydd perthnasol i gyllido'r swydd Rheolwr Prosiect dros dro hon. |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Cytuno mewn egwyddor â phenodi capasiti ychwanegol i ymgymryd â'r gwaith a'i gyflenwi gan ddilyn dull deublyg, yn cynnwys arfarnu'r holl opsiynau sydd ar gael i'r Cyngor. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Cyfeiriwyd at yr angen hwn am adnoddau yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig Diwygiedig. |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Bydd angen arbenigedd cyfreithiol allanol er mwyn cynorthwyo a chefnogi'r gwaith o ddatblygu cynnig manwl. |

| | | |
|---|---|---|
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Bydd angen disgrifiad swydd ar gyfer y swydd hon fydd yn cael ei harfarnu gan y tîm AD cyn ei hysbysebu drwy'r broses benodi arferol. |
| **5** | **Eiddo** | Dim sylwadau |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | Dim sylwadau |
| **7** | **Caffael** | |
| **8** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | Risgiau ariannol sylweddol (dirwyon) os nad oes gwasanaeth casglu gwastraff a glanhau hyfyw mewn lle erbyn 1 Ebrill 2021. |
| **2** | **Gwrthdlodi** | Amherthnasol |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | Amherthnasol |
| **4** | **Amgylcheddol** | Risg sylweddol os nad yw targedau ailgylchu Llywodraeth Cymru'n cael eu cyflawni. |
| **5** | **Cydraddoldebau** | Amherthnasol |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | Amherthnasol |
| **7** | **Arall** | Methu â chaffael contract newydd |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| **Atodiad 1 – Rhestr o ddyletswyddau arfaethedig y bydd y Rheolwr Prosiect dros dro yn ymgymryd â nhw** |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|

**1.0 Cefndir**

1.1 Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i gasglu gwastraff, cadw tir perthnasol yn rhydd o sbwriel a chwrdd â thargedau ailgylchu statudol. Roedd cyfanswm cost y gwasanaeth hwn yn 2017/18 oddeutu £3.8M. Mae'r cytundeb 14 blynedd presennol gyda Biffa Municipal yn dod i ben ar 31 Mawrth 2021 ac felly rhaid datblygu cynlluniau er mwyn sicrhau fod opsiynau hyfyw mewn lle cyn y daw'r cytundeb presennol i ben. Bydd y broses o ail-gaffael y contract yn dasg sylweddol a bydd angen adnoddau sylweddol i gyflenwi'r prosiect.

**2.0 Adnoddau sydd eu hangen**

2.1 Oherwydd maint a chymhlethdod y broses gaffael arfaethedig bydd angen adnoddau sylweddol i gyflenwi'r prosiect hwn. Yn sgil y profiad o gynnal y broses gaffael flaenorol (2005/6 – 2006/7) gwelwyd fod angen adnoddau sylweddol o ran amser a chefnogaeth rheoli prosiect (cyfreithiol, technegol ac ariannol) er mwyn caffael contract o'r maint a'r cymhlethdod hwn.

2.2 Cynhaliwyd trafodaethau mewnol gyda nifer o randdeiliaid allweddol er mwyn trafod y gofynion o ran adnoddau ar gyfer y prosiect hwn (fel y nodir isod).

2.3 Yr adborth a dderbyniwyd gan Adain Gaffael y Cyngor oedd y dylid penodi rheolwr prosiect ar gyfer prosiect o'r maint hwn gan nad oes adnodd ar gael yn yr uned hon ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bydd yr Adain Gaffael yn chwarae rhan holl bwysig drwy ddarparu cyngor a chefnogaeth barhaus i'r prosiect a bydd yn aelod o'r Tîm Caffael arfaethedig.

2.4 Yr adborth a dderbyniwyd gan Adain Gyfreithiol y Cyngor oedd na fyddai modd iddynt ddarparu'r cyngor cyfreithiol fyddai ei angen i gefnogi'r prosiect caffael ar y raddfa hon ac felly byddai'n rhaid defnyddio ymgynghoriaeth allanol. Amcangyfrifwyd y gallai cost cefnogaeth gyfreithiol ar gyfer prosiect caffael ar y raddfa hon fod oddeutu £200k.

2.5 Yr adborth a gafwyd gan Adain Rheoli Gwastraff y Cyngor oedd y byddai'n gallu darparu'r rhan fwyaf o'r amser, arbenigedd ac adnoddau i gefnogi'r broses gaffael hon. Fodd bynnag, efallai y bydd angen cefnogaeth gan ymgynghoriaeth allanol i gynnal yr arfarniad o opsiynau, adolygu'r fanyleb a chynhyrchu mapiau arbenigol ar gyfer y broses gaffael. Amcangyfrifwyd y gallai cost cefnogaeth dechnegol ar gyfer prosiect ar y raddfa hon fod oddeutu £50k. Bydd Adain Rheoli Gwastraff y Cyngor yn chwarae rhan holl bwysig o ran darparu cyngor a chefnogaeth barhaus i'r prosiect hwn a bydd yn aelod o'r Tîm Caffael arfaethedig.

2.6 Bydd nifer o Adeiniau eraill y Cyngor yn chwarae rhan holl bwysig yn ystod cyfnod caffael a gweithredu'r contract newydd. Bydd hyn yn cynnwys yr Adain TG (er mwyn integreiddio systemau cyfrifiadurol newydd, yn cynnwys technoleg tu fewn i gabiau lorïau a CRM), yr Adain Eiddo (delio gydag unrhyw faterion yn ymwneud â thir mewn perthynas â'r Depo arfaethedig yng Ngaerwen), Yswiriant a'r Adain Adnoddau Dynol.

2.7 Fel y dangoswyd uchod, bydd angen dod â nifer o arbenigeddau ynghyd fel rhan o'r broses gaffael hon er mwyn sicrhau fod gwahanol ffrydiau'n cael eu rheoli a'u gweithredu mewn modd amserol. Swyddogaeth y Rheolwr Prosiect dros dro arfaethedig fydd dod â phob un o'r ffrydiau gwaith hyn ynghyd mewn modd gydlynus a strwythuredig. Yn ogystal, byddai'n edrych ar gontractau mewnol ac allanol eraill er mwyn nodi arfer orau a sicrhau gwerth am arian.

**3.0 Swyddog Prosiect Arfaethedig**

3.1 Barn swyddogion a'r Uwch Dîm Rheoli yw y dylid penodi Rheolwr Prosiect ar gytundeb cymharol fyr er mwyn sicrhau fod y prosiect caffael hwn yn cael ei gyflenwi i safon uchel ac er mwyn sicrhau fod y risgiau'n cael eu lleihau a bod y prosiect yn cael ei gwblhau o fewn yr amserlen.

3.2 Rhagwelir y bydd y Rheolwr Prosiect dros dro yn cyflawni'r tasgau a restrir yn Atodiad 1. Ymgorfforir y tasgau hyn yn y swydd ddisgrifiad newydd os penderfynir bwrw ymlaen i benodi Rheolwr Prosiect newydd.

**4.0 Amcangyfrif o Gostau a Threfniadau Gwaith**

4.1 Er mwyn cwrdd â gofynion y disgrifiad swydd, rhagwelir y bydd rhaid penodi person ar lefel gymharol uchel (paratowyd swydd ddisgrifiad ddrafft ac fe'i sgoriwyd ar Raddfa 7). Cyfanswm cost blynyddol cyflogi Rheolwr Prosiect fyddai oddeutu £48k (2018/19). Yn seiliedig ar ddyddiad cychwyn o 1 Rhagfyr 2018 ar gyfer y swyddog newydd, byddai amcangyfrif o'r costau fel a ganlyn (gan ddefnyddio cyfraddau 2018/19):

2018/19 - £17k (yn cynnwys costau cychwynnol, TG a hyfforddiant)
2019/20 - £48k (heb gynnwys chwyddiant)
2020/21 - £48k (heb gynnwys chwyddiant)

4.2 Mae'r Adain Rheoli Gwastraff wedi amcangyfrif y gofynion gwaith a ganlyn ar gyfer y Rheolwr Prosiect newydd er mwyn caffael y contract casglu gwastraff a glanhau:

- 2018/19 (o tua Rhagfyr 2018 ymlaen) – 3 i 4 diwrnod yr wythnos
- 2019/20 – 3 i 4 diwrnod yr wythnos
- 2020/21 – 2 ddiwrnod yr wythnos

4.3 Mae'r gofynion gwaith a amcangyfrifir uchod yn dangos fod angen cefnogaeth rheoli prosiect am hyd at 4 diwrnod yr wythnos yn ystod y ddwy flynedd ariannol gyntaf gan leihau i 2 ddiwrnod yr wythnos hyd at ddyddiad gweithredu'r contract ar 1 Ebrill 2021. Felly, amcangyfrifir y bydd 1 i 2 ddiwrnod rhydd yr wythnos yn ystod y ddwy flynedd ariannol gyntaf a 3 diwrnod rhydd yr wythnos yn ystod blwyddyn olaf y swydd dros dro hon. Mae Swyddogion a'r Uwch Dîm Rheoli wedi nodi y gellid defnyddio'r dyddiau rhydd hyn i weithio ar brosiectau blaenoriaeth eraill o fewn y Cyngor lle mae angen cefnogaeth rheoli prosiect penodol. Byddai'r prosiectau ychwanegol arfaethedig yn cynnwys darparu cefnogaeth ac arweiniad ar gyfer y canlynol –

- Moderneiddio Ysgolion
- Trawsnewid Oedolion
- Contract Cinio Ysgol Newydd
- Blaenoriaethau corfforaethol amrywiol eraill

4.4 Ar ôl paratoi achos busnes, cynhaliwyd trafodaethau ynglŷn ag ariannu swydd Rheolwr Prosiect dros dro gyda'r Adain Gyllid a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth. Cadarnhawyd fod arian ar gael i gyllido swydd Rheolwr Prosiect dros dro. Oherwydd bod gofyn cyfreithiol i gaffael y gwasanaeth, cost uchel iawn y gwasanaeth, y risg o ymrwymo i delerau contract tymor hir anffafriol a'r amserlen ar gyfer cwblhau'r ymarfer caffael, roedd yr Uwch Dîm Rheoli o'r farn y dylid darparu'r holl adnoddau angenrheidiol er mwyn cyflenwi'r prosiect hwn. Bydd penodi Rheolwr Prosiect dros dro fydd ag amser dynodedig i gydlynu'r holl weithredoedd yn iawn yn helpu i liniaru'r risgiau.

**5.0 Risgiau**

5.1 Mae hwn yn brosiect mawr ac mae risgiau sylweddol ynghlwm ag o a rhaid gwneud popeth posib i leihau risgiau a diogelu buddion y cyngor yn ystod oes y contract. Mae contract casglu gwastraff a glanhau presennol y Cyngor, a ddechreuodd ym mis Ebrill 2007, wedi bod yn gymharol ffafriol i'r Cyngor o safbwynt amodau'r contract a'r heriau a gyflwynwyd gan y contractwr, ac mae hyn wedi cyfrannu at lwyddiant Ynys Môn ym maes ailgylchu, gan fod y Cyngor ymysg yr ailgylchwyr gorau yn y DU. Er bod yr Adain Rheoli Gwastraff wedi gorfod negodi toriadau sylweddol yn y gwasanaeth a chyflwyno newidiadau sylweddol i'r gwasanaeth casglu yn ystod y cyfnod hwn, llwyddwyd i wneud y newidiadau yn weddol ddidrafferth ac heb unrhyw oblygiadau cytundebol sylweddol. Yn ystod y cyfnod caffael blaenorol yn 2005/6 a 2006/7, sicrhawyd bod amser ac adnoddau sylweddol ar gael i baratoi manylebau ac amodau contract manwl iawn er mwyn sicrhau y byddai risgiau'n cael eu lleihau dros gyfnod y prif gontract. Felly, mae profiad blaenorol wedi dangos fod treulio amser sylweddol yn paratoi dogfennau tendr yn drylwyr yn helpu i leihau'r risg fod y contractwr yn herio'r contract yn ystod cyfnod y contract.

5.2 Rôl y Rheolwr Prosiect fydd cydlynu holl agweddau'r prosiect caffael casglu gwastraff a glanhau er mwyn sicrhau fod risgiau yn gysylltiedig â'r contract newydd yn cael eu lleihau i'r graddau isaf posib. Bydd rhaid rheoli a chraffu ar nifer o ffrydiau gwaith ac arbenigeddau yn barhaus a sicrhau y cedwir at y dyddiadau cau. Bydd y Rheolwr Prosiect yn cydlynu Tîm Caffael mewnol newydd gyda'r aelodau'n cynnwys arbenigwyr cyfreithiol, cyllid, technegol, TG, Eiddo ac Yswiriant. Drwy gydol y cyfnod, bydd y tîm hwn yn adolygu cofrestr risg byw fydd yn cael ei gynnal gan y Rheolwr Prosiect er mwyn sicrhau fod risgiau'n cael eu rheoli a dyddiadau cau allweddol yn cael eu cwrdd.

**6.0 Casgliad**

6.1 Bydd y contract casglu gwastraff a glanhau 14 blynedd presennol yn dod i ben ar 31 Mawrth 2021. Bydd rhaid dechrau ffrwd gwaith sylweddol yn y dyfodol agos i dynnu ynghyd nifer o arbenigeddau er mwyn sicrhau fod trefniadau tymor hir newydd mewn lle ar gyfer y cyfnod hyd at 2030. Er mwyn gwireddu'r cynlluniau tymor hir hyn mae angen Rheolwr Prosiect i reoli proses gaffael sylweddol. Gallai'r risgiau fod yn sylweddol os nad yw'r contract fydd yn cael ei gaffael yn addas i bwrpas. Fodd bynnag, gellir lleihau'r risgiau'n sylweddol drwy gael rheolwr prosiect dynodedig ac arbenigedd mewn mewn da bryd i gefnogi'r prosiect.

## Atodiad 1

**Rhestr arfaethedig o ddyletswyddau i'w cyflawni gan y Rheolwr Prosiect arfaethedig (nid yw hon yn rhestr holl gynhwysfawr)**

a. Adolygu'r contract a'r dogfennau tendr presennol er mwyn deall y sefyllfa sylfaenol. Treulio amser gyda swyddogion rheoli gwastraff a'r contractwr presennol i ddysgu am y gwasanaeth presennol. Paratoi dadansoddiad SWOT yn seiliedig ar y canfyddiadau.
b. Swyddogaeth rheoli prosiect yn gysylltiedig â pharatoi arfarniad o opsiynau er mwyn asesu pa wasanaethau sydd angen eu cyflenwi a sut.
c. Sefydlu, cydlynu a rheoli Tîm Caffael ac is-dimau gyda rhanddeiliaid mewnol/allanol allweddol fydd yn darparu cyngor, cyfeiriad ac yn gwneud penderfyniadau allweddol ynglŷn â'r prosiect.
d. Trefnu, penodi a rheoli ymgynghorwyr allanol perthnasol er mwyn cynorthwyo gyda'r prosiect.
e. Adolygu dogfennau prosiect ar gyfer prosiectau tebyg eraill, gyda'r nod o weithredu'r arfer orau o ran deilliannau. Ymweld â safleoedd allanol eraill i ddysgu am arfer orau a'i roi ar waith ble bod angen.
f. Cydlynu'r gwaith o baratoi dogfennau tendr ar gyfer yr ymarfer caffael newydd.
g. Paratoi a chynnal cofrestr risg wedi ei diweddaru.
h. Trefnu ymarfer marchnad 'meddal'/diwrnodau ar gyfer bidwyr fel sy'n briodol a pharatoi'r cyflwyniadau/papurau ar gyfer tendrwyr ayb.
i. Cydlynu'r holl randdeiliaid perthnasol a sicrhau fod y penderfyniadau angenrheidiol yn cael eu gwneud mewn modd amserol er mwyn cwrdd â dyddiadau cau.
j. Swyddogaeth rheoli prosiect mewn perthynas â holl agweddau'r broses gaffael ar GwerthwchiGymru e.e. hysbysebion, rheoli dogfennau, ymholiadau ynglŷn â'r tendr, ayb.
k. Swyddogaeth rheoli prosiect mewn perthynas â'r holl gyfarfodydd ac ymweliadau safle gan dendrwyr/rhanddeiliaid eraill.
l. Rheoli'r holl gyfathrebiadau gyda'r holl dendrwyr a rhanddeiliaid gan ddilyn y gweithdrefnau cywir.
m. Cyfrifoldeb rheoli prosiect mewn perthynas â phob agwedd o arfarnu tendrau drwy'r Tîm Caffael.
n. Paratoi a chyflenwi adroddiadau diweddaru ar gyfer y Tîm Caffael/is-dimau, unrhyw bwyllgorau perthnasol a monitro eu cynnydd.
o. Paratoi cynllun manwl ar gyfer gweithredu'r Contract llwyddiannus a monitro ei gynnydd.
p. Swyddogaeth rheoli prosiect mewn perthynas ag unrhyw dasgau sy'n angenrheidiol er mwyn sefydlu'r contractwr newydd llwyddiannus e.e. gwaith TG, gwaith adeiladu, caniatâd, prydlesau, ayb.

**Cyngor Sir Ynys Môn**

**Swydd Ddisgrifiad**

**Teitl Swydd:** Rheolwr Prosiect (penodiad hyd at 31 Mawrth 2021) – rhoddir ystyriaeth i secondiad

**Rhif Swydd:**

**Gwasanaeth:** 1) Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo a 2) Trawsnewid

**Cyfadran:** Unedau gwasanaeth Rheoli Gwastraff a Thrawsnewid

**Gradd:**

**Pwrpas Cyffredinol y Swydd:**
Mae hon yn rôl gorfforaethol fydd yn golygu gweithio'n agos gydag Uwch Swyddogion, Aelodau a phartneriaid allanol. Bydd deilydd y swydd yn chwarae rhan allweddol wrth gynorthwyo'r *Prif Swyddog Gwastraff a'r Rheolwr Cynllunio, Rhaglen a Pherfformiad Corfforaethol* i gynllunio, dylunio, cefnogi a chyflenwi prosiectau strategol allweddol.

Bydd hyn yn cynnwys pob agwedd o gaffael a gweithredu Cytundeb Casglu Gwastraff a Glanhau newydd ar gyfer yr Awdurdod, yn barod ar gyfer y dyddiad dechrau, sef 1 Ebrill 2021. Yn ogystal, bydd deilydd y swydd yn gyfrifol am reoli / cefnogi prosiectau corfforaethol eraill yn ôl y gofyn ac wrth i ofynion y rôl wreiddiol leihau (ni ddiffiniwyd y prosiectau ychwanegol eto ond gallent gynnwys agweddau'n ymwneud â moderneiddio ysgolion / trawsnewid oedolion / contractau addysg ayb).

Yn ogystal, bydd disgwyl i ddeilydd y swydd chwarae rôl arweiniol a chefnogol wrth gyflenwi'r prosiectau corfforaethol allweddol hyn. Bydd hyn yn cynnwys:

- darparu cyngor arbenigol i'r Rheolwyr Gwasanaeth y cyfeirir atynt uchod wrth ddatblygu'r prosiectau a'u monitro'n rheolaidd.
- gan ddilyn dull PRINCE2 Ynys Môn, ymgymryd â rôl *Rheolwr Prosiect* wrth arwain ar y prosiectau corfforaethol allweddol a nodir uchod, creu a gweithredu cyfathrebiadau effeithiol ac ystyrlon
- Monitro cynnydd y prosiectau hyn

***Cyffredinol:*** *I gydymffurfio â Pholisi Diogelu Corfforaethol yr awdurdod lleol a'r dyletswyddau a chyfrifoldebau diogelu y mae'r polisi hwnnw'n eu gosod ar bob gweithiwr, yn cyd-fynd â gwerthoedd craidd yr Awdurdod sy'n cynnwys cefnogi plant, oedolion sydd mewn perygl a'u teuluoedd i'w cadw'n ddiogel ac iach.*

**Prif Atebolrwydd / Tasgau Allweddol:**

1. Rheoli prosiect drwy gydol cyfnod caffael y Contract Casglu Gwastraff a Glanhau ac unrhyw brosiectau dynodedig eraill.

2. Rheoli cyllidebau cyfalaf a refeniw cysylltiedig.

3. Paratoi, gweithredu a monitro Cynlluniau Cyflenwi Prosiect manwl er mwyn sicrhau fod holl ddeilliannau'r prosiect yn cael eu cyflawni'n effeithiol.

4. Rheoli'n effeithiol gyfuniad o fecanweithiau cyflenwi prosiectau cyfalaf a refeniw, yn cynnwys gweithredu'n uniongyrchol, gweithredu gan swyddogion Cyngor Sir eraill, a gweithredu gan bartneriaid cyflenwi eraill y cytunir arnynt.

5. Paratoi brîff ar gyfer tendrau, cydlynu prosesau caffael y prosiect a rheoli'r holl gontractau perthnasol.

6. Paratoi adroddiadau manwl er mwyn i'r corff gwneud penderfyniadau dynodedig gymeradwyo penderfyniadau allweddol.

7. Sefydlu strwythurau llywodraethiant priodol er mwyn llywodraethu datblygiad y prosiectau a pharatoi adroddiadau cynnydd rheolaidd ar y prosiectau yn amlinellu gweithgareddau, deilliannau, problemau, cyfyngiadau, gwariant ac ymrwymiadau.

8. Datblygu a chynnal perthnasau gwaith cadarnhaol gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol bob amser drwy gydol oes y prosiect.

9. Datblygu a gweithredu systemau monitro mewn perthynas â chyllido'r prosiect, taliadau/ costau contract, ac allbynnau/ effeithiau, a sicrhau fod yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei chasglu.

10. Rheoli datblygiad a gweithrediad gweithgareddau prosiect yn effeithlon ac effeithiol. Awdurdodi gwariant yn unol â'r gyllideb a gymeradwywyd ac adrodd ar gynnydd yn cynnwys gwariant.

11. Sicrhau bod camau gweithredu yn cael eu cynllunio a'u goruchwylio'n effeithiol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ag amodau contract, deddfwriaeth iechyd a diogelwch a gofynion cynnal a chadw parhaus.

12. Paratoi a gweithredu Cynlluniau Cyfathrebu a Marchnata er mwyn sicrhau bod gweithgareddau ac allbynnau prosiect yn cael eu hyrwyddo a'u cyfathrebu'n effeithiol.

13. Cynnal data yn effeithiol ac yn ddiogel mewn perthynas â phob prosiect.

14. Sicrhau bod yr holl weithgareddau yn ymwneud â chynllunio a chyflenwi prosiect yn cydymffurfio â gofynion statudol.

15. Cynrychioli Adain berthnasol y Cyngor mewn cyfarfodydd mewnol ac allanol sy'n berthnasol i'r prosiect.

16. Dirprwyo ar ran y rheolwr llinell perthnasol yn ôl yr angen.

17. Sicrhau cydymffurfiaeth lawn â holl bolisïau a gweithdrefnau perthnasol y Cyngor Sir (e.e. Rheoliadau Caffael yr UE a Rheoliadau Ariannol y Cyngor; Deddf Diogelu Data; Rhyddid Gwybodaeth; Deddf Cydraddoldeb 2010; Safonau Iaith Gymraeg)

18. Efallai y bydd gofyn i ddeilydd y swydd ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gydnaws â natur a graddfa'r swydd.

19. Mewn perthynas â chaffael Contract Casglu Gwastraff a Glanhau newydd, bydd deilydd y swydd yn gyfrifol am swyddogaethau rheoli prosiect yn ymwneud â'r tasgau allweddol canlynol (nid yw hon yn rhestr holl-gynhwysfawr):

    a. Adolygu'r contract a'r dogfennau tendr presennol er mwyn deall y sefyllfa sylfaenol. Treulio amser gyda swyddogion rheoli gwastraff a'r contractwr presennol i ddysgu am y gwasanaeth presennol. Paratoi dadansoddiad SWOT yn seiliedig ar y canfyddiadau.
    b. Swyddogaeth rheoli prosiect yn gysylltiedig â pharatoi arfarniad o opsiynau er mwyn asesu pa wasanaethau sydd angen eu cyflenwi a sut.
    c. Sefydlu, cydlynu a rheoli Tîm Caffael ac is-dimau gyda rhanddeiliaid mewnol/allanol allweddol fydd yn darparu cyngor, cyfeiriad ac yn gwneud penderfyniadau allweddol ynglŷn â'r prosiect.
    d. Trefnu, penodi a rheoli ymgynghorwyr allanol perthnasol er mwyn cynorthwyo gyda'r prosiect.
    e. Adolygu dogfennau prosiect ar gyfer prosiectau tebyg eraill, gyda'r nod o weithredu'r arfer orau o ran deilliannau. Ymweld â safleoedd allanol eraill i ddysgu am arfer orau a'i roi ar waith ble bod angen.
    f. Cydlynu'r gwaith o baratoi dogfennau tendr ar gyfer yr ymarfer caffael newydd.
    g. Paratoi a chynnal cofrestr risg wedi ei diweddaru.
    h. Trefnu ymarfer marchnad 'meddal'/diwrnodau ar gyfer bidwyr fel sy'n briodol a pharatoi'r cyflwyniadau/papurau ar gyfer tendrwyr ayb.
    i. Cydlynu'r holl randdeiliaid perthnasol a sicrhau fod y penderfyniadau angenrheidiol yn cael eu gwneud mewn modd amserol er mwyn cwrdd â dyddiadau cau.
    j. Swyddogaeth rheoli prosiect mewn perthynas â holl agweddau'r broses gaffael ar GwerthwchiGymru e.e. hysbysebion, rheoli dogfennau, ymholiadau ynglŷn â'r tendr, ayb.
    k. Swyddogaeth rheoli prosiect mewn perthynas â'r holl gyfarfodydd ac ymweliadau safle gan dendrwyr/rhanddeiliaid eraill.
    l. Rheoli'r holl gyfathrebiadau gyda'r holl dendrwyr a rhanddeiliaid gan ddilyn y gweithdrefnau cywir.
    m. Cyfrifoldeb rheoli prosiect mewn perthynas â phob agwedd o arfarnu tendrau drwy'r Tîm Caffael.
    n. Paratoi a chyflenwi adroddiadau diweddaru ar gyfer y Tîm Caffael/is-dimau, unrhyw bwyllgorau perthnasol a monitro eu cynnydd.
    o. Paratoi cynllun manwl ar gyfer gweithredu'r Contract llwyddiannus a monitro ei gynnydd.
    p. Swyddogaeth rheoli prosiect mewn perthynas ag unrhyw dasgau sy'n angenrheidiol er mwyn sefydlu'r contractwr newydd llwyddiannus e.e. gwaith TG, gwaith adeiladu, caniatâd, prydlesau, ayb.

**Safle yn y Sefydliad:**

**Adrodd i:** Rheolwr Gwasanaeth Perthnasol

**Cyfrifol am:** Cyfrifol am gomisiynu contractwyr allanol ac ymgynghorwyr a goruchwylio gwaith unigolion eraill ar dasgau penodol sy'n hanfodol er mwyn ymgymryd â phrosiectau amrywiol.

**Staff a oruchwylir:** Dim

**Adnoddau Ariannol**
Lefel: A, B, neu C? 4B – Bydd y Contract Casglu Gwastraff a Glanhau newydd werth £50M+ yn ystod cyfnod disgwyliedig y contract, sef 14 blynedd. Bydd cyfrifoldeb sylweddol ar ddeilydd y swydd i sicrhau fod cyngor ariannol yn cael ei gynnwys yn y dogfennau tendro er mwyn sicrhau fod risgiau'n cael eu lliniaru yn ystod oes y contract. Bydd rhaid cyflawni swyddogaeth rheoli prosiect mewn perthynas ag ymgynghorwyr fel rhan o'r prosiect hwn (amcangyfrifir y bydd cost ymgynghorwyr allanol yn £200k, ymgynghorwyr technegol tua £50k). Bydd rhaid i ddeilydd y swydd ymgymryd â swyddogaethau rheoli prosiect ar gyfer nifer o ffrydiau gwaith lle mae angen rheolaeth ariannol.

**Adnoddau Ffisegol:**

| | |
|---|---|
| **Tir ac Adeiladau - Nifer/arwynebedd** | Efallai y bydd y gwaith caffael yn golygu costau sylweddol ynglŷn ag uwchraddio depo'r Cyngor yng Ngaerwen, cost posib o £250k yn ystod y cyfnod gweithredol. |
| **Offer / Cerbydau / Peiriannau – Nifer** | Mae integreiddio system dechnoleg newydd tu fewn i gab y lorïau er mwyn integreiddio â CRM y Cyngor yn debygol o gostio tua £300k. |
| **Systemau Gwybodaeth – Nifer/cyfaint:** | Dogfennau cyflenwi a monitro.<br>Taenlenni ariannol.<br>Caniatâd statudol.<br>Storio data at ddibenion archwilio yn y dyfodol.<br>Cronfeydd data mewn perthynas ag ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r gymuned.<br>Data masnachol sensitif (contractwyr)<br>Dogfennaeth caffael<br>Gwerth £100k |

**Dirprwyaeth**

**Gofynion y Swydd:**

**Gofynion corfforol**

- Treulio amser yn y swyddfa yn bennaf.
- Delio gyda sefyllfaoedd anodd ar adegau.
- Bydd y rôl yn golygu mynychu rhai cyfarfodydd hir.
- Gallai'r gwaith olygu y bydd rhaid i ddeilydd y swydd deithio er mwyn adolygu arfer orau, mewn sefydliadau eraill.

**Gofynion meddyliol**

- Bydd rhaid i ddeilydd y swydd reoli llawer iawn o bwysau cysylltiedig â gwaith a gofynion sy'n gwrthdaro. Bydd angen gallu gwneud penderfyniadau yn hyderus.
- Bydd rhaid i ddeilydd y swydd weithio'n effeithiol gyda rhanddeiliaid a gallu cydbwyso anghenion a disgwyliadau rhanddeiliaid gwahanol.
- Bydd gofyn i ddeilydd y swydd ddefnyddio disgresiwn er mwyn datrys problemau annisgwyl a nodi materion sydd angen eu huwchgyfeirio.
- Rhaid i ddeilydd y swydd fod yn gyfathrebwr effeithiol ar bob lefel.
- Er mwyn cyflawni'r swydd yn effeithiol, bydd deilydd y swydd yn meddu ar sgiliau dylanwadu/perswadio a sgiliau negodi ardderchog er mwyn sicrhau fod prosiectau'n cwrdd â'r gofynion disgwyliedig.
- Efallai y bydd y swydd yn golygu rhoi gwybodaeth gymhleth neu sensitif ar bapur ar gyfer cynulleidfaoedd amrywiol.
- Rheoli llawer iawn o bwysau yn gysylltiedig â gwaith a gofynion sy'n gwrthdaro.
- Cyfnodau hir o ganolbwyntio wrth gymryd rhan mewn nifer o ddisgyblaethau gwaith holl bwysig.
- Cynhyrchu dogfennau strategol, adroddiadau a darnau o waith o fewn amserlenni penodol.

**Gofynion emosiynol**

- Rhaid i ddeilydd y swydd fedru gweithio dan bwysau mewn gwasanaeth sy'n symud yn gyflym.
- Rhaid i ddeilydd y swydd wneud penderfyniadau rheolaidd.
- Rhaid i ddeilydd y swydd fedru rheoli gofynion sy'n gwrthdaro ac ymarfer lefel uchel o sensitifrwydd er mwyn datblygu perthnasau gwaith effeithiol, yn cynnwys sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol ardderchog.
- Mae'r swydd yn gofyn am wytnwch, sgiliau datrys problemau, sgiliau dylanwadu a negodi da.
- Mae'r swydd yn golygu cysylltu'n uniongyrchol â rhanddeiliaid, cyllidwyr, cyflenwyr, contractwyr, gweithwyr yn yr awdurdod lleol, Aelodau Etholedig, ymgynghorwyr, rhanddeiliaid, ac aelodau'r cyhoedd.
- Cynorthwyo uwch swyddogion i reoli gwrthdaro.
- Rhaid i ddeilydd y swydd fedru cymryd cyfrifoldeb am eu maes gwaith eu hunain a gweithio'n annibynnol i raddau helaeth.
- Bydd deilydd y swydd yn gwneud rhai penderfyniadau allai effeithio ar gyflawniad, amcanion a pherfformiad ariannol y sefydliad.
- Rhaid i ddeilydd y swydd fedru cymryd cyfrifoldeb am eu gwaith eu hunain a gweithio'n annibynnol i raddau helaeth.
- Gallai rhai agweddau o'r prosiect fod yn destun sylwadau beirniadol yn y wasg a/neu'r cyfryngau cymdeithasol.

**Gofynion Iaith:**

**Swydd – Cymraeg HANFODOL (gweler asesiad swydd - Sgiliau Iaith Gymraeg)**

| **Sgiliau Iaith Gymraeg (gweler y fframwaith sgiliau sydd ynghlwm os gwelwch yn dda)** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwrando a Siarad (Ticiwch un)** | Lefel 0 ☐ | Lefel 1 ☐ | Lefel 2 ☐ | Lefel 3 ☐ | Lefel 4 ☐ | Lefel 5 ☒ |
| **Darllen (Ticiwch un)** | Lefel 0 ☐ | Lefel 1 ☐ | Lefel 2 ☐ | Lefel 3 ☐ | Lefel 4 ☐ | Lefel 5 ☒ |
| **Siarad (Ticiwch un)** | Lefel 0 ☐ | Lefel 1 ☐ | Lefel 2 ☐ | Lefel 3 ☐ | Lefel 4 ☐ | Lefel 5 ☒ |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgrifennu (Ticiwch un)** | Lefel 0 ☐ | Lefel 1 ☐ | Lefel 2 ☐ | Lefel 3 ☐ | Lefel 4 ☐ | Lefel 5 ☒ |
| **English Language Skills (Please see the skills framework attached)** | | | | | | |
| **Gwrando a Siarad (Ticiwch un)** | Lefel 0 ☐ | Lefel 1 ☐ | Lefel 2 ☐ | Lefel 3 ☐ | Lefel 4 ☐ | Lefel 5 ☒ |
| **Darllen (Ticiwch un)** | Lefel 0 ☐ | Lefel 1 ☐ | Lefel 2 ☐ | Lefel 3 ☐ | Lefel 4 ☐ | Lefel 5 ☒ |
| **Siarad (Ticiwch un)** | Lefel 0 ☐ | Lefel 1 ☐ | Lefel 2 ☐ | Lefel 3 ☐ | Lefel 4 ☐ | Lefel 5 ☒ |
| **Ysgrifennu (Ticiwch un)** | Lefel 0 ☐ | Lefel 1 ☐ | Lefel 2 ☐ | Lefel 3 ☐ | Lefel 4 ☐ | Lefel 5 ☒ |

**Trefniadau ac Amodau Gweithio:**

**Wythnos Waith:** Unrhyw 5 allan o 7 (dydd Llun – dydd Sul)

**Oriau Cytundebol:** 37 awr yr wythnos

**Taeniad:** Dydd Llun – dydd Sul (gyda pheth hyblygrwydd o ran oriau ar adegau i gwrdd â gofynion gwaith penodol)

**Lleoliad Gwaith Dynodedig:** Ynys Môn

**Lleoliad Gwaith arferol:**

☐ Yn y swyddfa fel arfer
☒ Yn y swyddfa ond gyda pheth ymweliadau safle/ cartref/ cyfarfodydd
☒ Rôl yn cynnwys teithio sylweddol gydag ymweliadau achlysurol i leoliad gwaith dynodedig

**Teithio Busnes:**

☐ Dim teithio busnes
☒ Peth teithio busnes. Efallai bydd gofyn i deilydd y swydd ddarparu cerbyd ei hun
☐ Peth teithio busnes. Gall cerbyd Cyngor gael ei ddarparu i ddeilydd y swydd
☐ Deilydd y swydd yn cael ei gyflogi fel gyrrwr/ angen gweithredu peirannau arbenigol

**<u>Yn wynebu amodau gwaith anffafriol</u>**

**Amgylcheddol:**

☒ Mymryn lleiaf / amgylchedd swyddfa gyffredin
☐ Peth
☐ Sylweddol

**Cleientiaid Ymosodol / Anodd:**

☒ Mymryn lleiaf
☐ Peth
☐ Sylweddol

**<u>Amodau Arall:</u>**

**Gwiriad GDG (DBS) yn Ofynnol:**

☐ Lefel Uwch
☐ Safonol
☒ Dim yn berthnasol

**<u>Hyblygrwydd/ Cyfyngiadau Gwaith</u>**

**Swydd â Chyfyngiadau Gwleidyddol:**

☒ Ydyw
☐ Na

**Darparu ffôn Cartref/ Symudol:**

☐ Ie
☒ Na

**Darparu Dillad Diogelwch:**

☒ Ie
☐ Na

**Hyblygrwydd**

Tynnir eich sylw at y ffaith fod mewn rhai achosion ddyletswyddau a chyfrifoldebau sy'n anodd eu diffinio a gallent amrywio o bryd i'w gilydd heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau a lefel y cyfrifoldebau dan sylw. Yn ychwanegol, mae'n ofynnol ar i bob gweithiwr dderbyn elfen o hyblygrwydd mewn dyletswyddau a chyfrifoldebau a phan fo angen cyfnewid oddi mewn i'r sefydliad er mwyn cwrdd ag anghenion a gofynion y gwasanaeth. Bydd y fath ofynion yn golygu y bydd arbenigedd penodol deilydd y swydd yn cael ei ddatblygu a'i ddefnyddio i'r eithaf er budd y cyflogwr a'r gweithiwr fel ei gilydd.

**Dyddiad Paratoi'r ddogfen Disgrifiad Swydd hon:**
Mae'r disgrifiad swydd hwn wedi cael ei baratoi ym mis **Medi 2018** a bydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd fel rhan o ddatblygiad unigol a sefydliadol ac arolwg perfformiad a gall gael ei ddiwygio.

**Cyngor Sir Ynys Môn**

**Manyleb Person**

## 1. Addysg a Hyfforddiant

**Y gofynion addysgol/ proffesiynol neu'r cymwysterau galwedigaethol sylfaenol ar gyfer y swydd:**

**1.1 Hanfodol:**
1.1.1 Gradd neu gymhwyster cyfatebol (neu brofiad sylweddol mewn swyddogaeth broffesiynol berthnasol).

**1.2 Dymunol:**
1.2.1 Cymhwyster Rheoli Prosiect
1.2.2 Gradd Feistr neu gymhwyster ôl-radd
1.2.3 Cymhwyster rheoli gwastraff/technegol/peirianneg/caffael

**Unrhyw hyfforddiant penodol sy'n ofynnol ar gyfer y swydd yn cynnwys Ardystiad:**

**1.3 Hanfodol** – Amherthnasol
**1.4 Dymunol** - Amherthnasol

## 2. Gofynion Cymhwysedd Allweddol

**Gwybodaeth swydd-gysylltiedig sy'n hanfodol ar gyfer perfformiad effeithiol:**

**2.1 Hanfodol:**
2.1.1 Gwybodaeth a phrofiad o gyflenwi prosiect
2.1.2 Gwybodaeth am ddulliau ac arferion rheoli prosiect
2.1.3 Gwybodaeth am brotocolau a gweithdrefnau caffael a chontractau
2.1.4 Sgiliau datrys problemau
2.1.5 Gwybodaeth am brosesau a gweithdrefnau ariannol
2.1.6 Gwybodaeth am ddarparu gwasanaeth rheng flaen

**2.2 Dymunol:**
2.2.1 Gwybodaeth fanwl am ddulliau rheoli prosiect
2.2.2 Gwybodaeth fanwl am ddarparu gwasanaeth rheng flaen
2.2.3 Gwybodaeth am reoli contract
2.2.4 Gwybodaeth am y sector amgylcheddol

**Sgiliau penodol sy’n hanfodol ar gyfer perfformiad effeithiol:**

**2.3 Hanfodol:**
2.3.1 Sgiliau cyfrifiadurol a sgiliau bysellfwrdd priodol.
2.3.2 Gallu a phrofiad o wella perfformiad drwy reoli prosesau yn effeithiol a datblygu partneriaid.
2.3.3 Gallu a phrofiad o gyfathrebu’n effeithiol gyda’r cyhoedd, gwleidyddion a rhanddeiliaid eraill (yn cynnwys staff).
2.3.4 Gallu i ddadansoddi gwybodaeth, sefyllfaoedd a materion cymhleth.
2.3.5 Gallu i baratoi proffiliau cyllido/gwariant.
2.3.6 Sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig yn Gymraeg a Saesneg.
2.3.7 Sgiliau rhyngbersonol da a’r gallu i sefydlu a chynnal perthnasau gwaith effeithiol gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol a phartneriaid.
2.3.8 Sgiliau TG effeithiol a’r gallu i ddefnyddio, datblygu a chynnal systemau a meddalwedd rheoli dogfennau effeithiol.
2.3.9 Gallu i ysgogi newid a chyflwyno ffyrdd mwy effeithiol, effeithlon a mwy masnachol o weithio a herio a dylanwadu ar gredoau ac ymddygiadau sydd wedi hen sefydlu.

**2.4 Dymunol:**
2.4.1 Gallu i gynnal systemau rheoli dogfennau effeithiol.

**Sgiliau rheoli sy’n hanfodol ar gyfer perfformiad effeithiol:**

**2.5 Hanfodol:**
2.5.1 Sgiliau rheoli prosiect profedig.
2.5.2 Gallu i reoli cyllidebau.

**2.6.1 Dymunol** - Amherthnasol

## 3. <u>Nodweddion Personol</u>

**Y gwerthoedd a nodweddion personol y dylid eu harddangos wrth wneud dyletswyddau’r swydd:**

**3.1.1 Hanfodol:**
3.1.1 Gallu defnyddio dylanwad a pherswâd i siapio canlyniadau ac ennill cefnogaeth.
3.1.2 Gallu cyfathrebu materion a syniadau mewn modd cryno a chlir, wyneb yn wyneb ac ar bapur.
3.1.3 Gosod esiampl dda i eraill drwy fod yn rhagweithiol, gonest a chyson.
3.1.4 Cydymffurfio â safonau proffesiynol.
3.1.5 Sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig ardderchog.
3.1.6 Gallu i weithio dan bwysau er mwyn cwrdd â dyddiadau cau.
3.1.7 Sgiliau negodi ac eiriolaeth ardderchog.
3.1.8 Gallu i addasu i newid.
3.1.9 Rhaid i ddeilydd y swydd fedru gweithio mewn amgylchedd tîm.

## 4. Amgylchiadau Personol

**Gofynion swydd a allai gyfyngu ar berfformiad effeithiol o’r swydd, os nad ydynt yn cael eu cwrdd:**

**4.1 Hanfodol:**
4.1.1 Hyblygrwydd o ran oriau gwaith
4.1.2 Trwydded yrru lawn a char y gellir ei ddefnyddio ar gyfer gwaith.

**4.2 Dymunol** – Amherthnasol

## Sgiliau Iaith – Lefelau Asesiad Swydd

### (i) Gwrando

| | |
|---|---|
| 0 | Dim sgiliau |
| 1 | Yn gallu deall ymholiadau sylfaenol yn Gymraeg / Saesneg |
| 2 | Yn gallu deall sgwrs gymdeithasol sylfaenol yn Gymraeg / Saesneg |
| 3 | Yn gallu dilyn sgyrsiau arferol sy'n ymwneud â'r gwaith rhwng siaradwyr Cymraeg / Saesneg rhugl |
| 4 | Yn gallu dilyn y rhan fwyaf o sgyrsiau sy'n ymwneud â'r gwaith gan gynnwys trafodaethau grŵ |
| 5 | Yn gallu deall pob sgwrs sy'n ymwneud â'r gwaith |

### (ii) Darllen

| | |
|---|---|
| 0 | Dim sgiliau |
| 1 | Yn gallu darllen geiriau ac ymadroddion sylfaenol, e.e. arwyddion neu nodiadau byr a syml |
| 2 | Yn gallu darllen deunydd syml sy'n ymwneud â'r gwaith (yn araf) |
| 3 | Yn gallu darllen deunydd arferol gyda geiriadur |
| 4 | Yn gallu darllen y mwyafrif o ddeunydd yn eich maes eich hun |
| 5 | Yn gallu deall yr holl ddeunydd sy'n ymwneud â gwaith |

### (iii) Siarad

| | |
|---|---|
| 0 | Dim sgiliau |
| 1 | Yn gallu sgwrsio'n gyffredinol [cyfarchion, enwau, dywediadau, enwau lleoedd] |
| 2 | Yn gallu ateb ymholiadau syml sy'n ymwneud â'r gwaith |
| 3 | Yn gallu cynnal sgwrs â rhywun arall, gyda pheth petruster, am faterion gwaith arferol |
| 4 | Yn gallu siarad yr iaith yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd gyda rhai geiriau Saesneg |
| 5 | Rhugl – yn gallu cynnal sgwrs ac ateb cwestiynau, am gyfnod estynedig pan fo angen |

### iv) Ysgrifennu

| | |
|---|---|
| 0 | Dim sgiliau |
| 1 | Yn gallu ysgrifennu negeseuon sylfaenol |
| 2 | Yn gallu ateb gohebiaeth syml gyda chymorth |
| 3 | Yn gallu drafftio testun arferol, gyda chymorth golygyddol |
| 4 | Yn gallu paratoi'r rhan fwyaf o'r deunydd ysgrifenedig sy'n gysylltiedig â'r maes, gyda peth cymorth gwirio |
| 5 | Medrus – yn medru cwblhau gwaith ysgrifennu cymhleth heb yr angen i wirio |

This page is intentionally left blank

DDIM I'W GYHOEDDI

# NOT FOR PUBLICATION

**Moderneiddio Ysgolion Môn – Ysgol gynradd newydd yn Llangefni yn lle Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir**
**Modernising Anglesey Schools – New primary school in Llangefni to replace ysgol Bodffordd and Ysgol Corn Hir**

**PRAWF BUDD Y CYHOEDD**
**PUBLIC INTEREST TEST**

| | |
|---|---|
| Paragraff 14 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>Paragraph 14 Schedule 12A Local Government Act 1972 | |
| Y PRAWF – THE TEST | |
| Mae yna fudd i'r cyhoedd wrth ddatgan oherwydd / There is a public interest in disclosure as:-<br><br>Mae'r ASA/ABA sy'n atodol yn cynnwys gwybodaeth masnachol sensitif am y prosiect.<br><br>The attached SOC/OBC contains commercially sensitive information. | Y budd y cyhoedd with beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:-<br><br>Gwybodaeth yn ymwneud â materion ariannol neu fasnachol unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod sy'n dal yr wybodaeth).<br><br>Information relating to the financial or business affairs of any particular of any particular person (including the authority holding that information). |
| Argymhelliad: *Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad yn llai o bwys na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth [* dilewch y geiriau nad ydynt yn berthnasol]<br><br>Recommendation: *The public interest in maintaining the exemption does not outweigh the public interest in disclosing the information. [*delete as appropriate] | |

This page is intentionally left blank

Yn rhinwed paragraff(au) 14 Rhan 1 o Atodlen 12A
o Ddeddf Llywordraeth  Leol 1972.



Document is Restricted

This page is intentionally left blank